

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

46/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

23/07/2020

# Gwerthusiad o Raglen Beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion Adroddiad Interim

Gwerthusiad o Raglen Beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion  
Isdeitl: Adroddiad Interim

Awdur(on): Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones a  
Rhodri Bowen

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holton, D., Lloyd-Jones, S., Bowen, R.; (2020).  
Gwerthusiad o Raglen Beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion  
Isdeitl: Adroddiad Interim, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR  
46/2020. Ar gael ar: [https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-beilot-  
mewngymorth-y-gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-ar-glasoed-camhs-  
adroddiad-interim](https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-beilot-mewngymorth-y-gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-ar-glasoed-camhs-adroddiad-interim)

Safbwyntiau'r ymchwilydd sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd  
rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Ymchwil Ysgolion

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwilysgolion@llyw.cymru](mailto:ymchwilysgolion@llyw.cymru)

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Tîm Ymchwil yn Pobl a Gwaith ddiolch i David Roberts a Chris Roberts (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi), Nicola Lewis, Marie Evans and Su Mably (Iechyd Cyhoeddus Cymru) am eu cymorth parhaus yn ystod y broses o roi'r rhaglenni peilot ar waith ac am gyfraniadau i'r Grŵp Llywio Gwerthuso. Hoffem hefyd ddiolch i Nicola Crawley, Caroline Friend, Sophie Gorst ac Ashley Walters o raglenni peilot Canolbarth a De Cymru, Gogledd Cymru a Cheredigion am eu cymorth gyda'r gwaith maes a'u hymatebion cyflym i'n cwestiynau.

Hoffem hefyd ddiolch i'r holl ysgolion a sefydliadau partner a ddewisodd gymryd rhan yn y gwerthusiad ac a gyfrannodd eu barn a'u profiadau. Hebddynt, ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl.

Yr ymchwilwyr a gynhaliodd y gwaith maes ar gyfer astudiaethau achos oedd Rhodri Bowen, Hibah Iqbal, Sarah Lloyd-Jones a Val Williams.

Yn olaf, diolch i Ann Churcher a Heather Pells am eu cyfraniadau i'r adroddiad.

## Cynnwys

Cydnabyddiaethau .....	1
Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o graffiau a ffigurau .....	3
Rhestr termau .....	4
Crynodeb .....	6
1. Cyflwyniad .....	20
2. Dull a methodoleg .....	30
3. Gweithredu'r Rhaglen Beilot.....	40
4. Yr anawsterau iechyd meddwl a nodwyd gan ysgolion a gwasanaethau'r rhaglen beilot.....	50
5. Sgiliau a hyder staff yn ardaloedd y rhaglen beilot.....	54
6. Mynediad at wasanaethau arbenigol.....	78
7. Straen a llesiant staff yn yr ardaloedd peilot.....	97
8. Effeithiolrwydd ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion a hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff .....	104
9. Casgliadau .....	109
10. Argymhellion ar gyfer y rhaglen beilot, ymchwil bellach a dysgu sy'n dod i'r amlwg .....	116
Llyfryddiaeth.....	119
Atodiad A. Copi o'r Holiadur Llinell Sylfaen.....	122

## Rhestr o dablau

Tabl 1. Dulliau peilot o gynyddu sgiliau a hyder staff .....	10
Tabl 2: Dulliau peilot o wella mynediad ysgolion at gyngor a chymorth arbenigol .....	12
Tabl 3. Dulliau'r rhaglen beilot o leihau straen staff a gwella llesiant staff.....	14
Tabl 2.1. Cyfran (a nifer) yr ysgolion peilot a ymatebodd i'r arolwg ym mhob awdurdod lleol .....	33
Tabl 2.2. Cyfran (a nifer) y staff a ymatebodd i'r arolwg, a oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed. ....	34
Tabl 2.3. Cyfran (a nifer) y staff a ymatebodd i'r arolwg, yn ôl eu rôl .....	34
Tabl 2.4. Ymatebwyr i'r arolwg yn ôl ardal awdurdod lleol – cyfran yr holl ymatebwyr (a nifer) .....	35
Tabl 2.5. Ysgolion astudiaeth achos yn ôl ardal beilot ac awdurdod lleol .....	37
Tabl 2.6. Gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw yn ôl ardal beilot .....	38
Tabl 3.1. Proffil pob ardal beilot .....	41
Tabl 3.2. Staffio'r rhaglen beilot ym mhob ardal .....	43
Tabl 5.1 Dulliau peilot o gynyddu sgiliau a hyder staff .....	67
Tabl 5.2. Nifer y cyfranogwyr a aeth i hyfforddiant Haen 2 a Haen 3 yn ardal Ceredigion ...	68
Tabl 5.3 Nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant YMHFA ym mlwyddyn academaidd 2018-19 ym Mlaenau Gwent, Torfaen a De Powys .....	70
Tabl 5.4 Nifer y cyfranogwyr a aeth i'r Gweithdy Pum Ffordd at Lesiant ym mlwyddyn academaidd 2018-19 ym Mlaenau Gwent, Torfaen a De Powys .....	70
Tabl 5.5 Cyfanswm nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw a'r staff a hyfforddwyd - Medi 2018-Tachwedd 2019 yng Ngogledd Cymru .....	71
Tabl 6.1: Ymagweddau peilot at wella mynediad ysgolion at gyngor a chymorth arbenigol.	87
Tabl 7.1 Dulliau'r rhaglen beilot o leihau straen staff a gwella llesiant staff.....	101

## Rhestr o graffiau a ffigurau

Ffigur 1: model rhesymeg rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion .....	26
Graff 3.1. Ymatebion staff a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot pan ofynnwyd iddynt a gawsant gymorth gan ymarferydd CAMHS Mewngymorth ac os felly, sut .....	48
Ffigur 5.1. Y Cylch Ymyrryd a Chymorth.....	55
Graff 5.1. Ymatebion staff i'r cwestiwn: 'Rwy'n hyderus y gallaf nodi ei bod yn bosibl bod gan ddisgybl anghenion iechyd meddwl heb eu diwallu' .....	60
Graff 5.2. Hyder staff wrth gyfathrebu â disgyblion a rhieni neu ofalwyr .....	62
Graff 5.3 At bwy y byddai staff yn mynd atynt i gael rhagor o gyngor a chymorth pan fyddant yn nodi y gall fod anawsterau iechyd meddwl gan ddisgybl .....	64
Graff 5.4 Ymatebion gan staff a gafodd hyfforddiant a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot pan ofynnwyd iddynt a oedd wedi cynyddu eu gwybodaeth am broblemau iechyd meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth ohonynt a sut i ddelio â nhw. ....	73
Graff 6.1. Y gwasanaethau y nododd staff ysgol y byddent yn mynd iddynt ar gyfer cyngor a chymorth .....	79
Graff 7.1 Ymatebion staff pan gawsant eu holi a oeddent yn profi lefelau uwch o straen wrth ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion .....	97
Graff 8.1 Hyder staff yn effeithiolrwydd ysgolion wrth hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff ysgol .....	106
Ffigur 9.1 Dulliau'r rhaglen beilot ar gyfer creu newid .....	111

## Rhestr termau

Byrfodd	Diffiniad
ACE	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cydlynwyr ADY	Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
MDPh	Maes Dysgu a Phrofiad
ASD	Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
BBC	Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CCG	Grŵp Comisiynu Clinigol
CYP	Plant a Phobl Ifanc
CYPE	Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
DfE	Adran Addysg
EP	Seicoleg Addysg
CGE	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
SLIA	Swyddog Lles Addysg
MT	Meddyg Teulu
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
TG	Technoleg Gwybodaeth
ALI	Awdurdod Lleol
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
IM	Iechyd Meddwl
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
PASS	Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol
ICC	Iechyd Cyhoeddus Cymru
PMHCSS	Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol
PMHSS	Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol
BPRh	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
sCAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol
Cydlynwyr AAA	Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
SHRN	Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion

SPACE - Llesiant	Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant
LLIBPhI	Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc
LIC	Llywodraeth Cymru
WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru
WNHSS	Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
YMHFA	Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuencid



## **Crynodeb**

### **Cyd-destun ar gyfer rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng Nghymru iechyd meddwl a llesiant da. Fodd bynnag, mae gan tua un o bob wyth o ddisgyblion broblem iechyd meddwl ac mae tua chwarter o ddisgyblion yn profi cyfnodau o deimlo'n isel (Hewitt, et al, 2019)<sup>1</sup>. Mae pryderon eang bod iechyd meddwl a llesiant disgyblion yn gwaethygu a bod ysgolion a gwasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi cael anhawster bodloni gofynion cynyddol wedi arwain at amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion.

### **Rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yng Nghymru**

Mae rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yn ceisio meithrin capasiti (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth a hyder) mewn ysgolion i gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion a gwella mynediad ysgolion at gyswllt, ymgynghoriaeth a chyngor arbenigol pan fo angen. Mae'r canlyniadau tymor canolig hyn wedi'u bwriadu i gyfrannu at ganlyniadau hirdymor, fel galluogi ysgolion i ddiwallu anghenion addysgol eu disgyblion a lleihau straen staff yr ysgol. Wedi'i dyfeisio i ddechrau fel rhaglen beilot dwy flynedd yn rhedeg o 2018 i haf 2020, yn 2019 cafodd y rhaglen beilot ei hymestyn i gyd-fynd â'r gwerthusiad terfynol (a ddisgwyllir ar ddiwedd 2020). Mae'r rhaglen beilot yn gweithredu mewn tair ardal:

- De-ddwyrain Cymru (gan gwmpasu Blaenau Gwent a Thorfaen / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a De Powys / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys);
- Gorllewin Cymru (Ceredigion / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda); a
- Gogledd Cymru (Wrecsam a Sir Ddinbych / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

### **Y gwerthusiad o'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion**

Nod y gwerthusiad yw deall sut mae'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i ysgolion yn gweithio, a yw amcanion y rhaglen beilot yn cael eu cyflawni a sut mae'r rhaglen beilot yn cael ei deall gan randdeiliaid ar draws y rhanbarthau peilot.

---

<sup>1</sup> Mae'r arolwg diweddaraf o Ymddygiad Iechyd Plant Oedran Ysgol yn nodi bod tua chwarter o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11 wedi dweud eu bod yn teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos (t.31, Hewitt, et al, 2019).

Amcanion y gwerthusiad yw:

- asesu a gwerthuso hyder a sgiliau athrawon ac ysgolion wrth ymateb i bryderon emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion, gan gynnwys nodi'n gynnar a chymorth;
- asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglenni peilot wrth ymateb i ddisgyblion â phroblemau mwy difrifol a hwyluso mynediad at gymorth arbenigol;
- adolygu'r broses o weithredu'r rhaglenni peilot ac a yw'r gweithgarwch wedi'i gyflawni'n effeithiol;
- trafod sut y mae pob un o ardaloedd y peilot yn cefnogi atgyfeiriadau cyn y pwynt critigol i CAMHS <sup>2</sup>;
- nodi arfer da a chynorthwyo gwaith amlasiantaeth/gweithio ar y cyd;
- darparu argymhellion ar gyfer gweithio amlasiantaeth yn y dyfodol, arferion da, ymchwil a pholisi ac a oes angen gwerthusiadau pellach i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) [ac Awdurdod Lleol (ALI)] ar botensial cyflwyno'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yn y dyfodol.

Defnyddiwyd dull seiliedig ar ddamcaniaeth o ran gwerthuso, a ganolbwyntiodd ar brofi model rhesymeg rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion. Er mwyn cynhyrchu data i brofi'r model rhesymeg a chadarnhau, er enghraifft, a oedd gweithgareddau a allbynnau wedi'u cyflwyno a chanlyniadau wedi'u cynhyrchu yn ôl y disgwyl, defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg, gan gynnwys:

- ymchwil desg, gan gynnwys dogfennau peilot ac ymchwil arall yn y maes hwn;
- arolwg llinell sylfaen o staff ysgol, gydag ymatebion gan 352 o staff ysgol o 85 o ysgolion ar draws y tair ardal beilot;
- ymchwil astudiaethau achos ansoddol, gan gynnwys ymweliadau â 21 o ysgolion a chyfweliadau ag 14 o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a gwasanaethau sector gwirfoddol, fel seicoleg addysg, CAMHS a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion (y cyfeirir ati fel "ymchwil ansoddol" yn yr adroddiad); ac
- ymgysylltu fel cyfaill beirniadol i dîm cenedlaethol y rhaglen beilot a thîm y rhaglen beilot ym mhob ardal.

Roedd yr arolwg ac astudiaethau achos wedi'u bwriadu i helpu i fesur y sefyllfa llinell sylfaen ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ar ddechrau'r rhaglen beilot. Fodd bynnag, erbyn i'r

---

<sup>2</sup> h.y. atgyfeiriadau amserol i CAMHS cyn bod anawsterau iechyd meddwl yn gwaethygu a mynd yn ddifrifol.

arolwg llinell sylfaen gael ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019 a chynnal ymweliadau a chyfweliadau yn yr haf a dechrau hydref 2019, roedd y rhaglen beilot wedi bod yn weithredol ers tua chwech i naw mis. Er bod y cyfle i fesur llinell sylfaen cyn ymyrryd wedi'i gollu, barn y tîm gwerthuso yw bod hyn oherwydd, erbyn i'r arolwg ac ymweliadau ag ysgolion gael eu cynnal, mae'n annhebygol y byddai'r rhaglen beilot wedi cael amser i gael llawer o effaith ar y canlyniadau a fesurwyd gan yr arolwg llinell sylfaen ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion. I'r gwrthwyneb, rhoddodd yr oedi fwy o gyfle i gofnodi ymgysylltiad cynnar ysgolion a gwasanaethau â'r peilot, a phrofiadau a chanfyddiad cychwynnol o effaith gweithgareddau peilot, fel hyfforddiant ac ymgynghoriadau.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno'r sefyllfa llinell sylfaen ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ar ddechrau'r rhaglen beilot a hefyd i amlinellu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd ac effeithiau tebygol y rhaglen beilot, ar ôl tua 15 mis o waith gydag ysgolion.

### **Gweithredu'r rhaglen beilot**

Mae'r rhaglen beilot yn cael ei gweithredu mewn tair ardal wahanol gydag ardaloedd daearyddol o wahanol faint, gwahanol nifer yr ysgolion, gwahanol raddau o natur wledig a strwythurau gwasanaeth (yn fwyaf nodedig, y berthynas rhwng ysgolion a CAMHS cyn y rhaglen beilot). Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu bod y sefyllfa llinell sylfaen ym mhob ardal hefyd yn amrywio. Mae'r gwahaniaethau hyn hefyd wedi llywio'r pwyslais y mae pob ardal beilot wedi'i roi ar dair elfen allweddol model y rhaglen beilot:

- cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgol o anawsterau iechyd meddwl disgyblion, drwy hyfforddiant a/neu gyngor ac ymgynghoriadau;
- helpu ysgolion i gael gafael ar gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan fydd eu hangen arnynt, er enghraifft, gwella gwybodaeth ysgolion am lwybrau atgyfeirio a'u dealltwriaeth ohonynt; a
- gwella llesiant staff yr ysgol a lleihau straen staff drwy, er enghraifft, hyfforddiant a gweithdai sy'n canolbwyntio ar straen a llesiant.

Roedd y broses o weithredu'r rhaglen beilot a'i chyflwyno yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag:

- cafwyd problemau gyda recriwtio ac absenoldeb staff y rhaglen beilot yng Ngheredigion, a oedd yn her arbennig o ystyried maint bach y tîm;

- mae maint a natur wledig yr ardaloedd, ynghyd â nifer yr ysgolion o'u cymharu â'r adnoddau a staffio, yn her arbennig yng ngogledd Cymru ac, i raddau llai, yng Ngheredigion a Chanolbarth a De-ddwyrain Cymru; ac
- mae ymgysylltu â rhai ysgolion wedi bod yn her, ac mae'r tair ardal wedi tueddu i weithio mwy gydag ysgolion uwchradd (neu ysgolion pob oed), o gymharu ag ysgolion cynradd.

### **Gwybodaeth staff ysgol am anawsterau iechyd meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth ohonynt**

Nododd yr arolwg o staff ysgol ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion fod, cyn y peilot, hyder staff o ran nodi bod gan ddisgybl anawsterau iechyd meddwl posibl yn uchel ar y cyfan. Nododd ysgolion eu bod yn dibynnu ar berthnasoedd bugeiliol rhwng staff a disgyblion ac, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, eu bod yn dadansoddi data disgyblion i nodi anawsterau iechyd meddwl disgyblion.

Nododd yr arolwg o staff ysgol ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion hefyd fod, cyn y rhaglen beilot, hyder staff o ran asesu a chynorthwyo anawsterau iechyd meddwl disgyblion yn fwy cymysg, ond y gallai hyn adlewyrchu gwahanol rolau a chyfrifoldebau staff; er enghraifft, mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)/Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) a/neu dimau bugeiliol yn aml yn gyfrifol am asesu disgyblion y nodwyd y gallent fod ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn, ac mae gwasanaethau arbenigol fel CAMHS yn gyfrifol am asesu'r disgyblion hynny ag anawsterau iechyd meddwl mwy cymhleth a/neu ddifrifol. Mae'r model hwn yn golygu na fyddai disgwyl i bob aelod o staff feddu ar yr arbenigedd hwn.

Fel y dengys tabl 1, mae'r tair ardal beilot wedi ceisio cryfhau gwybodaeth staff ysgol am anawsterau iechyd meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth o'r rhain drwy hyfforddiant ac ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth.

**Tabl 1. Dulliau peilot o gynyddu sgiliau a hyder staff**

Ardal	Hyfforddiant	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth
Blaenau Gwent	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes
Powys	Oes	Oes, yn rhannol <sup>3</sup>
Torfaen	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Nid ar y dechrau, ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

Mae data o'r arolwg staff ysgol, ymchwil ansoddol gydag ysgolion a hunanwerthusiadau'r rhaglen beilot yn dangos bod staff ysgol wedi gwerthfawrogi'r hyfforddiant ar y cyfan. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y rhaglen beilot yn dibynnu ar ysgolion yn dewis ymgysylltu (ac nid yw pob un wedi gwneud hynny) a dewis y staff cywir i gael eu hyfforddi a gallu eu rhyddhau (ac nid yw pob ysgol wedi gallu gwneud hynny). Mae effaith hyfforddiant hefyd yn dibynnu ar y cyd-destunau y mae staff ysgol yn gweithio ynddynt ac oes ganddynt, er enghraifft, ddigon o amser i gymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth. Yn fwy eang, mae'r dystiolaeth ymchwil yn awgrymu y dylai gwaith y rhaglen beilot fod yn rhan annatod o ddysgu proffesiynol ehangach, gan gynnwys hyfforddiant cychwynol athrawon a modelau dysgu eraill; er enghraifft, cymunedau dysgu proffesiynol, a hyfforddiant a mentora a gyflwynir gan bartneriaid eraill, fel consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn adlewyrchu faint o ddysgu proffesiynol sy'n debygol o fod yn ofynnol (sydd y tu hwnt i gapasiti'r rhaglenni peilot) a'r achos dros economi gymysg, gyda dysgu proffesiynol yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd gwahanol drwy wahanol sianeli (gweler e.e. Hill 2013).

<sup>3</sup> Ym Mhowys, mae'r ymarferydd CAMHS mewngymorth yn gweithio gydag ysgolion cynradd a chytunwyd y byddai Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Powys (PCMHSS) yn parhau i ymgynghori'n rheolaidd â disgyblion o Bowys yn Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Chrucywel, ac y byddai'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth yn cwmpasu disgyblion o Went yn yr ysgolion hynny.

## **Mynediad ysgolion at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol**

Nododd yr arolwg o staff ysgol, ymchwil ansoddol gydag ysgolion ac astudiaethau ymchwil eraill fod ysgolion, cyn y peilot, ar y cyfan yn ei chael yn anodd cael gafael ar gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan oedd arnynt eu hangen, o ystyried trothwyon uchel a rhestrau aros am wasanaethau arbenigol. Yn gyffredinol, teimlid bod mynediad at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol wedi dirywio, o ystyried y galw cynyddol am wasanaethau a thoriadau yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau prin lle nododd yr ysgolion fod ganddynt fynediad da at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol.

Fel y dengys tabl 2, mae'r tair ardal beilot wedi ceisio cryfhau mynediad at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan fydd eu hangen ar ysgolion, drwy dair prif strategaeth:

- darparu gwybodaeth a chyngor (e.e. ynghylch gwasanaethau a llwybrau atgyfeirio);
- broceru mynediad at ysgolion a gwasanaethau / gweithredu fel cyfryngwr rhyngddynt; a
- chynnig ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth.

**Tabl 2: Dulliau peilot o wella mynediad ysgolion at gyngor a chymorth arbenigol**

Ardal	Gwybodaeth a chyngor (e.e. ar wasanaethau, llwybrau atgyfeirio)	Broceru mynediad at ysgolion a gwasanaethau / gweithredu fel cyfryngwr rhyngddynt	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth
Blaenau Gwent	Oes	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes	Oes
Powys	Oes	Oes, yn rhannol <sup>4</sup>	Oes, yn rhannol
Torfaen	Oes	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Nac oes	Nid ar y dechrau, ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

Mae data o'r arolwg staff ysgol, ymchwil ansoddol gydag ysgolion a'r hunanwerthusiad o'r peilot i gyd yn awgrymu, lle mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn darparu ymgynghoriadau, cyngor a chyswllt, mae hyn yn gwella mynediad ysgolion uwchradd i gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth bod y rhaglen beilot wedi cael effaith fawr ar ysgolion cynradd (gan fod llai o gymorth wedi'i ddarparu), neu ar wybodaeth staff ysgolion cynradd neu uwchradd am wasanaethau (gan fod hyn yn uchel yn gyffredinol cyn y rhaglen beilot). At hynny, mae mynediad ysgolion at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol pan fydd eu hangen arnynt, yn parhau i gael ei gyfyngu gan y bwch rhwng y galw a'r capasiti y mae'r rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol yn ei wynebu. Mae hon yn her sydd, i raddau helaeth, y tu hwnt i gwmpas y rhaglen beilot.

<sup>4</sup> Ym Mhowys, mae'r ymarferydd CAMHS mewngymorth yn gweithio gydag ysgolion cynradd a chytunwyd y byddai PCMHSS Powys yn parhau i ddarparu ymgynghori rheolaidd i ddisgyblion o Bowys yn Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Chrucywel, ac y byddai'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth yn cwmpasu disgyblion o Went yn yr ysgolion hynny.

## **Straen a llesiant staff ysgolion**

Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion, data a gasglwyd gan y rhaglenni peilot ac astudiaethau ymchwil eraill ac, i raddau llai, yr arolwg staff ysgol (a oedd yn cynnwys un cwestiwn yn unig ar y mater hwn), lefelau uchel o straen ymhlith staff ysgolion, ac yn enwedig arweinwyr ysgolion, cyn y rhaglen beilot. Mae straen staff a lefelau isel o lesiant yn bryder ynddynt eu hunain a hefyd oherwydd bod tystiolaeth bod lefelau uchel o straen staff a lefelau isel o lesiant staff yn tanseilio ymdrechion ysgolion i hybu llesiant disgyblion.

Fel y dengys tabl 3, mae'r tair ardal beilot wedi mynd i'r afael â'r her o leihau straen staff a gwella llesiant staff drwy gymysgedd o bedwar dull allweddol:

- hyfforddiant mewn rheoli straen a hybu llesiant;
- hyfforddiant mewn nodi a diwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion (gan gynyddu sgiliau a hyder staff);
- ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth (gan gynyddu sgiliau a hyder); a
- gwella mynediad at wasanaethau arbenigol (gan leihau'r straen sy'n gysylltiedig ag anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau).



**Tabl 3. Dulliau'r rhaglen beilot o leihau straen staff a gwella llesiant staff**

Ardal	Hyfforddiant mewn rheoli straen a hybu llesiant	Hyfforddiant mewn nodi a diwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion (gan gynyddu hyder staff)	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth (magu hyder, rhoi sicrwydd)	Gwella mynediad at wasanaethau arbenigol (gan leihau'r straen sy'n gysylltiedig ag anawsterau o ran cael mynediad at gymorth)
Blaenau Gwent	Oes	Oes	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes	Oes	Oes
Powys	Oes	Oes	Oes, yn rhannol <sup>5</sup>	Oes
Torfaen	Oes	Oes	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Oes	Nid ar y dechrau	Nac oes

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

Nododd yr arolwg staff ysgolion, ymchwil ansoddol gydag ysgolion a data o'r rhaglenni peilot ac ymchwil arall fod straen a llesiant staff yn dibynnu ar sawl ffactor; mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel:

- cymhwysedd staff o ran cefnogi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl, a'u mynediad at wasanaethau (fel cyngor arbenigol, cyswllt ac ymgynghori pa fo angen hynny arnynt), ac mae'r rhaglen beilot yn mynd i'r afael â hyn; a
- ffactorau cyd-destunol ehangach fel llwyth gwaith staff, cael yr amser i helpu disgyblion, diwygiadau ysgol a chyfundrefnau atebolrwydd, sydd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen beilot.

Felly mae gan y rhaglen beilot y potensial i helpu i leihau (ond nid dileu) ffynonellau o straen (e.e. drwy uwchsgilio staff) a hefyd helpu staff i ymdopi â straen a gwella eu llesiant (e.e. drwy hyfforddiant a gweithdai ar lesiant). Mae'r dystiolaeth o effaith hyd yn hyn ar gymhwysedd a hyder staff (a drafodwyd uchod) yn gryfach na'r dystiolaeth o effaith hyfforddiant a gweithdai i helpu staff i reoli straen a hybu llesiant, sydd weithiau wedi denu adborth cymysg gan gyfranogwyr. Mae hefyd yn bwysig cofio maint yr her yma, o'i

<sup>5</sup> Ym Mhowys, mae'r ymarferydd CAMHS mewngymorth yn gweithio gydag ysgolion cynradd a chytunwyd y byddai Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol (PCMHS) Powys yn parhau i ddarparu ymgynghori rheolaidd i ddisgyblion o Bowys yn Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Chrucywel, ac y byddai'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth yn cwmpasu disgyblion o Went yn yr ysgolion hynny.

chymharu â chapasiti'r rhaglen beilot i fynd i'r afael â hi, o ystyried y lefelau uchel o straen a lefelau gwael o lesiant a nodir gan staff addysg mewn ymchwil arall.

## Casgliadau

Mae ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid, yr adolygiad o ddogfennau prosiect a dadansoddi cynnydd yn erbyn model rhesymeg y rhaglen beilot yn nodi bod gweithredu a chyflawni'r rhaglen beilot wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Mae recriwtio gweithwyr medrus iawn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhaglen beilot hyd yma. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cynnal ansawdd gwaith yn her wrth symud ymlaen oherwydd, wrth i' ymgysylltu ag ysgolion gryfhau (sy'n un o lwyddiannau'r rhaglen beilot), mae'r timau staffio o'r un maint yn cyflwyno i nifer cynyddol o ysgolion, ac yn gweithio gyda'r ysgolion hynny, sy'n creu perygl o wanhau'r effaith.

Mae ffyddlondeb<sup>6</sup> i ddamcaniaeth newid y rhaglen wedi bod yn gryf ar y cyfan, er bod ardaloedd gwahanol wedi pwysleisio neu flaenoriaethu agweddau gwahanol ar y model; er enghraifft:

- yng ngogledd Cymru, cafwyd pwyslais cryf ar hybu llesiant staff ac ar hyfforddiant, a llai o bwyslais ar gynyddu mynediad ysgolion at gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol yn ôl yr angen;
- yn Ne-ddwyrain Cymru, cafwyd trafodaethau ynghylch beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng ymgynghori a hyfforddi; ac
- yng Ngheredigion, mae model partneriaeth cryf wedi datblygu ar gyfer gwaith ymgynghori gydag ysgolion uwchradd, ac mae model hyfforddi tair haen yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae maint a natur wledig yr ardal, ynghyd ag amser cyfyngedig y staff, wedi llesteirio ymdrechion i ddarparu ymgynghoriadau i fwy na llond llaw o ysgolion cynradd.

Mae'r gwahaniaethau hyn, ynghyd â gwahaniaethau yn y sefyllfa llinell sylfaen ym mhob ardal, yn golygu bod effaith y rhaglen beilot yn debygol o fod yn wahanol ym mhob ardal.

Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y rhaglen beilot yn gadarn, mae'r achos o blaid y rhaglen beilot yn gryf a cheir cefnogaeth gadarn i'r rhaglen beilot gan y rhan fwyaf o randdeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd y buddsoddiad yn y

---

<sup>6</sup> Mae ffyddlondeb yn disgrifio cysondeb yr hyn a weithredir â'r myriad a gynlluniwyd (Moore et al, 2015, t. 4). Dadleuwyd bod ffyddlondeb yn cael ei gyflawni os yw'r dulliau cynhyrchiol yr un fath i bob pwrpas, hyd yn oed, er enghraifft, os yw'r cyd-destunau y mae ymyriad (fel y rhaglen beilot) yn gweithredu ynddo a'r ffyrdd o'i weithredu, yn amrywio rhywfaint (gweler e.e. y drafodaeth yn Moore, et al, 2015). Yn y cyd-destun hwn, mae'n golygu bod ffyddlondeb i ddamcaniaeth newid y rhaglen beilot er bod ardaloedd gwahanol wedi ymgymryd â gweithgareddau sydd ychydig yn wahanol, o ystyried y gwahaniaethau yn eu cyd-destun.

rhaglen beilot yn darparu digon o gapasiti i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i nifer mawr o ysgolion ac mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod y rhaglen beilot yn gwneud:

- cyfraniad pwysig i sgiliau staff ysgolion a gwybodaeth am anawsterau iechyd meddwl;
- cyfraniad cymharol fach, ond pwysig o hyd, i fynediad ysgolion i gyngor, cyswllt ac ymgynghoriaeth arbenigol lle y mae eu hangen arnynt (mae'r effaith yma yn debygol o fod yn gyfyngedig, gan fod gwasanaethau yn aml yn ei chael yn anodd ymdopi gyda bwloch rhwng y galw a'r capasiti);
- cyfraniad cymharol fach, ond pwysig o hyd, at leihau straen staff ysgol a hybu llesiant staff (mae'r effaith yma yn debygol o gael ei chyfyngu gan yr amrywiaeth o ffactorau, y tu hwnt i reolaeth y rhaglen beilot, sy'n cyfrannu at straen a llesiant gwael staff).

Fodd bynnag, rhaid dweud hefyd bod galw mawr ar ymarferwyr CAMHS Mewngymorth (o ystyried eu capasiti/amser o gymharu â'r galw), mae'r rhaglenni peilot ar y cyfan wedi blaenoriaethu gwaith gydag ysgolion uwchradd dros ysgolion cynradd, ac mae risgiau y caiff ansawdd a swm y cymorth i ysgolion unigol eu gwanhau wrth i niferoedd cynyddol o ysgolion ymgysylltu â'r rhaglen.

At hynny, mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu'n gryf, er gwaethaf cymorth a chanmoliaeth eang i'r rhaglen beilot (gan y rhai a gyfrannodd at yr astudiaeth), y bydd y rhaglen beilot yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r hyn y mae rhai yn ei weld fel 'argyfwng' o ran iechyd meddwl a llesiant disgyblion, ond ni fydd y rhaglen yn datrys yr her hon ar ei phen ei hun. Mae hyn yn adlewyrchu graddfa gymharol fach y rhaglen beilot (o'i chymharu â maint yr her). Mae cyflawni nodau hirdymor y rhaglen beilot, fel sicrhau y gall ysgolion ddiwallu anghenion disgyblion, yn debygol o'i gwneud yn ofynnol cael strategaethau ehangach, fel datblygu ymagweddau ysgol gyfan, y gall y rhaglen beilot gyfrannu atynt, ond nid yw'r rhaglen beilot wedi'i bwriadu i'w cyflawni, ac nid yw'n cael yr adnoddau i wneud hynny. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau y caiff y rhaglen beilot ei chydlynu â mentrau eraill wedi'u bwriadu i hybu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, i osgoi dyblygu diangen a sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl, drwy ddull system gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant.

### **Argymhellion a dysgu sy'n dod i'r amlwg**

Argymhelliad 1. Ar gyfer Llywodraeth Cymru: mae tystiolaeth gynnar galonogol o effeithiolrwydd y rhaglen beilot a damcaniaeth gadarn o newid. Fodd bynnag, nid yw effaith y rhaglen beilot wedi'i dangos eto. Dylid gohirio penderfyniadau ynghylch datblygu'r rhaglen

beilot, fel ei pharhad, ehangu a/neu ei chau, hyd nes bod asesiad mwy cynhwysfawr o'r rhaglen beilot wedi'i gynnal, a'i chyfraniad posibl at ymagweddau ysgol gyfan wedi'i archwilio'n llawnach. Dylai'r ail gylch o arolygon a chyfweliadau ag ysgolion a gwasanaethau ddarparu tystiolaeth ychwanegol i lywio penderfyniadau. Er na ddylid rhuthro penderfyniadau am ddatblygu'r rhaglen beilot (a dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth), bydd yn bwysig sicrhau bod y rhaglen beilot a phartneriaid eraill yn cael digon o amser i baratoi ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Argymhelliad 2. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion gynnwys mynediad at raglen barhaus o hyfforddiant sy'n agored i bob aelod o staff mewn meysydd lle gallai'r broses o nodi anawsterau iechyd meddwl godi; hyfforddiant mwy arbenigol i'r rhai y mae angen mwy o arbenigedd arnynt, fel Cydlynwyr ADY/Cydlynwyr AAA a staff bugeiliol; a chymorth ymatebol ac o bosibl cymorth wedi'i deilwra'n arbennig a dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion neu faterion penodol a allai, er enghraifft, gael eu darparu drwy ymgynghoriadau.

Argymhelliad 3. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai gwerthusiad o effeithiolrwydd dysgu proffesiynol ystyried nifer y staff sy'n cymryd rhan a hefyd eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn ysgolion; er enghraifft, gall cynyddu capasiti staff bugeiliol i asesu anghenion disgyblion gael mwy o effaith na chynyddu capasiti athrawon i asesu anghenion disgyblion.

Argymhelliad 4. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol a'r rhaglen beilot: dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o fodloni anawsterau iechyd meddwl disgyblion oedran ysgol gynradd nad ydynt ym Mlwyddyn 6. Mae'n werth ystyried ymestyn y peilot a chaniatáu i ymarferwyr CAMHS Mewngymorth weithio gyda disgyblion iau. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r peilot wedi cael llai o ymgysylltiad ag ysgolion cynradd ac mae unrhyw estyniad yn peryglu ymestyn ymhellach gapasiti ymarferwyr CAMHS Mewngymorth a gwanhau effaith y rhaglen beilot o bosibl. Felly, nid yw'n glir a fyddai ymestyn yr ystod oedran y mae'r rhaglen beilot yn gweithio gyda hi yn opsiwn cost-effeithiol ai peidio.

Argymhelliad 5. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai capasiti timau CAMHS Mewngymorth gael ei fonitro'n ofalus i sicrhau os, fel y disgwylir, y bydd mwy o ysgolion yn ymgysylltu â'r rhaglen beilot, nad yw effaith y rhaglen beilot yn cael ei gwanhau'n ormodol a/neu beryglu llwyth gwaith a llesiant y timau staff eu hunain.

### *Argymhellion ar gyfer ymchwil bellach*

Argymhelliad 6. Ar gyfer y rhaglen beilot a Llywodraeth Cymru: dylid cynnal gwerthusiad cymharol o gynnwys, darpariaeth ac effaith y modelau hyfforddiant a dysgu proffesiynol gwahanol a fabwysiadwyd gan bob ardal beilot, er mwyn llywio'r gwaith o rannu arfer da ar draws y tair ardal beilot a sicrhau ei effaith fwyaf. Dylid hefyd ystyried y cwmpas ar gyfer datblygu modelau ar y cyd neu fodolau a rennir o ddysgu proffesiynol ar draws ardaloedd peilot.

Argymhelliad 7. Ar gyfer y rhaglen beilot a Llywodraeth Cymru: dylai perthnasedd, gwerth ac effaith ganfyddedig hyfforddiant a chymorth ynghylch straen a llesiant staff gael eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus ac, os oes angen, gwneud newidiadau.

### *Gwersi sy'n dod i'r amlwg*

Yn ogystal â'r argymhellion, mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod:

1. Angen i gynnig dysgu proffesiynol y rhaglen beilot gael ei gynllunio a'i gyflwyno fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol ehangach i staff ysgolion gan gynnwys, er enghraifft, yr hyn a ddarperir drwy addysg gychwynnol i athrawon a chan wasanaethau gwella addysg rhanbarthol, a gwasanaethau eraill fel cynhwysiant awdurdodau lleol, gwasanaethau seicoleg addysg a byrddau iechyd lleol.
2. Dylai'r goblygiadau ar gyfer y rhaglen beilot, yn sgil y cwricwlwm ysgol newydd, ac argymhellion y Tasglu Cyd-Weinidogol ar dulliau ysgol gyfan ar gyfer gofynion dysgu proffesiynol staff ysgol, gael eu nodi. Gall dulliau ysgol gyfan greu rolau a chyfrifoldebau newydd mewn perthynas â hybu a chynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion ac felly gofynion dysgu proffesiynol newydd ar gyfer rhai grwpiau o staff ysgol.
3. Mae angen camau gweithredu i asesu i ba raddau y mae gwasanaethau arbenigol fel CAMHS, yn wynebu bwlch galw-capasiti, a lle y bo angen, camau gweithredu i gau'r bwlch hwnnw. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, buddsoddiad ychwanegol ac ad-drefnu gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl yn well.
4. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynyddu capasiti ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl heb orfod troi at wasanaethau arbenigol, neu droi atynt yn llai aml. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, archwilio cost-

effeithiolrwydd buddsoddi mewn arbenigedd ADY/AAA a thimau bugeiliol mewn ysgolion, a rhoi mynediad haws i'r timau hyn i gyngor a chymorth gan arbenigwyr (fel yr ymgynghoriadau a ddarperir gan ymarferwyr rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth), yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i wasanaethau arbenigol. Mae'r dysgu o'r rhaglen beilot am y bylchau diwylliannol a chyfathrebu rhwng ysgolion a gwasanaethau, a ffyrdd y gellir eu pontio, hefyd yn debygol o fod yn berthnasol yma. Mae angen mwy o waith i wella llesiant staff ysgol a lleihau straen staff. Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth hon yn awgrymu y dylai camau gweithredu yma fod yn rhan o ymagweddau ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion, ond mae argymhellion manwl yn y maes hwn y tu hwnt i gylch gwaith yr astudiaeth hon.

# 1. Cyflwyniad

## **Cyd-destun ar gyfer rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion**

### *Iechyd meddwl a llesiant disgyblion*

- 1.2 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng Nghymru iechyd meddwl a llesiant da. Fodd bynnag, mae gan tua un o bob wyth ohonynt broblem iechyd meddwl ac mae tua chwarter o ddisgyblion yn profi cyfnodau o deimlo'n isel<sup>7</sup>. Mae cyfran y disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl neu lesiant gwael yn uwch ymhlith grwpiau oedran hŷn, merched a disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol (Hewitt et al., 2019).
- 1.3 Ceir tystiolaeth bod anawsterau iechyd meddwl, fel teimlo'n isel, wedi cynyddu; er enghraifft, yng Nghymru:
- roedd cyfran y bechgyn 15 oed a nododd eu bod yn teimlo'n isel fwy gan unwaith yr wythnos wedi cynyddu o lai na 10 y cant yn 2009 i 15 y cant yn 2014; ac
  - roedd cyfran y merched 15 oed a nododd eu bod yn teimlo'n isel fwy gan unwaith yr wythnos wedi cynyddu o lai na 22 y cant yn 2009 i 30 y cant yn 2014 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).
- 1.4 Ceir tystiolaeth bod anhwylderau iechyd meddwl<sup>8</sup> mwy difrifol wedi cynyddu hefyd, er bod hynny ar gyfradd arafach na'r cynnydd mewn anawsterau iechyd meddwl; er enghraifft:
- roedd cyfran y rhai 5-15 oed yn Lloegr a brofodd unrhyw anhwylder meddwl wedi codi ychydig o 9.7 y cant yn 1999 i 11.2 y cant yn 2017 (NHS Digital, 2018).
- 1.5 Mae pryderon eang bod iechyd meddwl a llesiant disgyblion yn gwaethygu a bod ysgolion a gwasanaethau fel CAMHS wedi cael anhawster bodloni gofynion

---

<sup>7</sup> Mae'r arolwg diweddaraf o [Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol](#) yn nodi bod tua chwarter o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11 wedi dweud eu bod yn teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos (t.31, Hewitt, et al, 2019).

<sup>8</sup>Nodwyd anhwylderau meddyliol yn unol â meini prawf diagnostig safonedig y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glifydau (ICD-10), gan ddefnyddio'r Asesiad Datblygu a Llesiant (DAWBA). I gyfrif fel anhwylder, roedd yn rhaid i symptomau achosi tralod sylweddol i'r plentyn neu amharu ar ei weithrediad (t.7). Dyma'r problemau mwyaf cyffredin: anhwylderau ymddygiad, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD), anhwylderau emosiynol (h.y. pryder ac iselder) ac anhwylderau sbectrwm awtistiaeth.

cynyddol wedi cael eu hamlygu gan nifer o adroddiadau yng Nghymru, gan gynnwys:

- Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn 2014;
- Y Comisiynydd Plant, a nododd yn 2016 mai iechyd meddwl oedd y mater a godwyd amlaf gan blant, pobl ifanc, eu rhieni a gofalwyr; ac
- Adroddiad Cadernid Meddwl i lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Ebrill 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

1.6 Mae hyn wedi peri i rai pobl ddod i'r casgliad bod 'argyfwng' ym maes iechyd meddwl (BBC, 2019) ac mewn ymateb i'r her o wella iechyd emosiynol a llesiant plant a phobl ifanc, amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys:

- Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (LLIBPhl)<sup>9</sup> a lansiwyd ym mis Chwefror 2015, fel rhan o ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i CAMHS;
- y mudiad ysgol sy'n cael ei lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)<sup>10</sup>, a sbardunwyd gan astudiaeth gyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ACE yn 2015 (ICC, 2015);
- Dyfodol Llwyddiannus, yr adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2015, a argymhellodd ffocws cryfach ar iechyd a llesiant ac sy'n cael ei ddatblygu gan ysgolion arloesi sy'n datblygu'r Maes Dysgu (MDPh) Iechyd a Llesiant<sup>11</sup> (LIC, 2015a);
- Cynllun Grant Iechyd Meddwl y Trydydd Sector, i helpu i atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu, drwy wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion, sy'n cyllido amrywiaeth o fentrau a ddarperir gan sefydliadau fel Gweithredu dros Blant;

---

<sup>9</sup> Mae'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn ceisio gwella'r gwasanaethau emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae'n cynnwys ffocws ar gynorthwyo datblygiad y blynyddoedd cynnar; hybu llesiant a chydnerthedd; nodi ac ymyrryd yn gynnar a buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol (GIG Cymru, 2015)

<sup>10</sup> Er enghraifft, Mae'r Ganolfan Cymorth ACE wedi datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu i gynorthwyo ysgolion cynradd i ddatblygu dull sy'n cael ei lywio gan ACE, [Ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – Cynradd](#)

<sup>11</sup> 'Yr hyn sy'n bwysig', mae'r 'elfennau allweddol y dylai'r holl ddysgwyr eu profi' fel rhan o'r MDPH Iechyd a Llesiant yn cael eu datblygu ar hyn o bryd (LIC, 2015a).



- rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2017, yn rhannol mewn ymateb i ymchwiliadau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn 2014 a 2018 i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; a'r
- Tasglu Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant<sup>12</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018 (gweler y testun yn y blwch).

1.7 Mae'r rhain yn adeiladu ar fentrau cynharach fel Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru<sup>13</sup> a lansiwyd yn 1999: 'i annog y gwaith o ddatblygu cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol'<sup>14</sup>.

### **Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol wedi'i fwriadu i ddwyn ynghyd yr holl weithgarwch gwahanol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Mae'n cwmpasu gweithgarwch a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru, a hefyd yr hyn a gychwynnwyd gan gyrff cyhoeddus eraill fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol (BILI), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chonsortia addysg rhanbarthol a'r sector gwirfoddol. Mae'r grŵp yn ceisio nodi cyd-ddibyniaethau a hefyd fylchau yn y ddarpariaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith ymagwedd ysgol gyfan i hybu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Ni fwriedir i'r fframwaith 'fod yn un dull sy'n addas i bawb, ond yn hytrach yn set o egwyddorion cyffredin y gall pawb gytuno arnynt i hyrwyddo cysondeb a mynediad cyfartal.'

Mae'r ffocws ar ddulliau 'ysgol gyfan' wedi'i ategu gan drafodaethau yn y grŵp am yr angen am ddull 'systemau cyfan', sy'n cwmpasu nid yn unig ysgolion, ond yr holl wasanaethau, fel CAMHS, seicoleg addysg, PMHSS a'r Gwasanaeth Ieuencid, sydd eu hangen i hybu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

*Addaswyd o LIC, 2019a*

<sup>12</sup> [Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant](#)

<sup>13</sup> Diffinnir 'ysgol iach' fel un: 'sy'n cymryd cyfrifoldeb dros gynnal a hyrwyddo iechyd pawb sy'n 'dysgu, gweithio, chwarae a byw' ynddi, nid yn unig drwy addysgu disgyblion yn ffurfiol sut i fyw bywydau iach, ond drwy alluogi disgyblion a staff i gymryd rheolaeth dros agweddau ar yr amgylchedd ysgol sy'n dylanwadu ar eu hiechyd'. [Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru](#)

<sup>14</sup> [Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru](#)

### *Llesiant staff ysgol*

- 1.8 Er eu bod wedi cael proffil is na phryderon am lesiant disgyblion, cafwyd pryderon hefyd ynghylch llesiant a straen staff ysgol. Mae staff ysgol, ac athrawon yn benodol, yn profi risg uwch o straen, iselder a phryder o gymharu â'r boblogaeth weithio gyffredinol (Harding et al, 2019). Mae arolygon o weithwyr proffesiynol addysgol yn y DU yn nodi lefelau straen uchel yn gyson, gyda llwyth gwaith uchel yn bryder allweddol. Er enghraifft, nododd yr Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol diweddaraf, a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2017) fod llai na 6% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd iddynt: "a ydych [chi] yn gallu rheoli eich llwyth gwaith presennol yn effeithiol, o fewn eich oriau gwaith y cytunwyd arnynt?" (t. 54, *ibid*).
- 1.9 Yn ogystal â bod yn bryder ynddo'i hun, ceir tystiolaeth o effeithiau niweidiol straen a lefelau isel o lesiant athrawon ar ddisgyblion; er enghraifft, canfu adroddiad ymchwil a drafododd y berthynas rhwng iechyd meddwl a llesiant athrawon ac iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr (Harding et al, 2019), gyda data a gymerwyd o 25 o ysgolion uwchradd yng Nghymru a Lloegr, fod gwell llesiant athrawon yn gysylltiedig â gwell llesiant myfyrwyr a thrallod seicolegol is i fyfyrwyr. Roedd lefelau uwch o symptomau iselder athrawon yn gysylltiedig â llesiant myfyrwyr gwaeth a thrallod seicolegol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â rhai adroddiad ymchwil ansoddol a gynhaliwyd mewn ysgolion cynradd (Glazzard a Rose, 2019). Yn yr astudiaeth hon, roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn cytuno bod eu llesiant yn effeithio ar eu perfformiad fel gweithiwr addysg proffesiynol, yn enwedig eu gallu i addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd plant yn effro i hwyliau eu hathro a gallent sylwi pan oeddent yn teimlo'n hapus neu dan straen, hyd yn oed pan oedd yr athrawon yn ceisio ei guddio. Roedd plant yn dysgu mwy pan oedd eu hathro yn hapus ac yn perfformio'n dda.

### **Prosiect Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt Ysgolion yn Lloegr**

- 1.10 Gwnaeth pryderon tebyg yn Lloegr am iechyd meddwl disgyblion ac anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau fel CAMHS arbenigol (sCAMHS), arwain at sefydlu'r Prosiect Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt Ysgolion yn 2015-2016. Rhoddodd hyn gyllid i sefydlu prif gysylltiadau wedi'u henwi o fewn CAMHS arbenigol y GIG ac mewn ysgolion mewn 22 o ardaloedd peilot. Datblygwyd tri phrif fodel, sef:

- arweinydd sCAMHS gydag amser cyswllt mewn ysgolion yn rheolaidd, gan ddarparu gwasanaethau a chymorth yn uniongyrchol i staff a phobl ifanc;
- arweinydd sCAMHS wedi'i enwi sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth penodedig i weithwyr proffesiynol mewn ysgolion (ond prin, os o gwbl, yw'r gwaith uniongyrchol gyda phlant neu bobl ifanc); ac
- arweinydd wedi'i enwi sCAMHS neu dîm dyletswydd gyda chyfrifoldebau dynodedig ar gyfer y rhaglen beilot, gan gynnig un pwynt mynediad [i sCAMHS] gyda chynghor ac arweiniad yn aml wedi'i gyflwyno dros y ffôn neu drwy e-bost a mwy o bwyslais ar wella dealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio (DfE, 2017, t.43).

1.11 Yn ogystal, rhoddwyd hyfforddiant, fel ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, i ysgolion ym mhob ardal.

1.12 Nododd y gwerthusiad o'r prosiect cyswllt ei fod yn gwella cyfathrebu a threfniadau gweithio ar y cyd rhwng ysgolion a CAMHS, a bod gwell dealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio a gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch iechyd meddwl disgyblion ymhlith prif gysylltiadau'r ysgolion. Roedd tystiolaeth ansoddol hefyd yn dangos bod y rhaglen wedi cyfrannu at welliannau o ran amseroldeb atgyfeiriadau a helpu i atal atgyfeiriadau amhriodol mewn llawer o ardaloedd (DfE, 2017, t12.) a bod y sicrwydd a'r cymorth ychwanegol a ddarperir yn aml wedi helpu i liniau'r pryder a oedd wedi datblygu, lle roedd staff ysgol wedi bod yn gweithredu y tu hwnt i ffiniau eu harbenigedd (t70).

### **Rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yng Nghymru**

1.13 Fel yr amlinellwyd uchod, cyhoeddwyd rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yn 2017 mewn ymateb i bryderon am iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Canolbwyntiodd y rhaglen beilot ar dair ardal:


- De-ddwyrain Cymru (gan gwmpasu Blaenau Gwent a Thorfaen / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a De Powys / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys);
- Gorllewin Cymru (Ceredigion / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda); a
- Gogledd Cymru (Wrecsam a Sir Ddinbych / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

1.14 Ymunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r rhaglen fel partner yn fuan wedyn, gyda'r Cydlynnydd Cenedlaethol wedi'i benodi ym mis Ebrill 2018, a'r rhaglen yn dechrau cyflwyno mewn ysgolion ym mis Medi 2018. Yn wreiddiol, fe'i bwriadwyd i redeg tan

haf 2020, ond yn hydref 2019, estynnwyd y rhaglen i ddiwedd 2020 er mwyn cydfynd â diwedd y gwerthusiad.

- 1.15 Fel y dengys ffigur 1, sef model rhesymeg y rhaglen beilot, mae'r rhaglen beilot yn ceisio meithrin capasiti (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth a hyder) mewn ysgolion, gwella mynediad disgyblion i gyswllt, ymgynghoriaeth a chynngor arbenigol pan fo angen; lleihau straen staff ysgol a gwella eu llesiant.

Ffigur 1: model rhesymeg rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus

1.16 Mewn llawer o ffyrdd, mae nodau ac amcanion rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth yn debyg i'r Prosiect Cyswllt Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Ysgolion a drafodwyd uchod. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau pwysig o ran:

- graddfa, oherwydd bod rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth yn canolbwyntio ar chwe ardal awdurdod lleol, o gymharu â 22 ardal y Grŵp Comisiynu Clinigol (CCG) yn Lloegr, sy'n tueddu i fod yn fwy nag awdurdodau lleol yng Nghymru<sup>15</sup>; a
- ffocws, gydag, er enghraifft, y Prosiect Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt Ysgolion â ffocws mwy cul ar ddarparu cyswllt arweiniol mewn neu ar gyfer pob ysgol i wella mynediad at CAMHS, ond cwmpas ehangach hefyd, o ystyried y nod o drawsnewid systemau a gwasanaethau.

### **Nodau ac amcanion y gwerthusiad o'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion**

1.17 Nod y gwerthusiad yw deall sut mae'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i ysgolion yn gweithio, a yw amcanion y rhaglen beilot yn cael eu cyflawni a sut mae'r rhaglen beilot yn cael ei deall gan randdeiliaid ar draws y rhanbarthau peilot.

1.18 Amcanion y gwerthusiad yw:

- asesu a gwerthuso hyder a sgiliau athrawon ac ysgolion wrth ymateb i bryderon emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion, gan gynnwys nodi'n gynnar a chymorth;
- asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglenni peilot wrth ymateb i ddisgyblion â phroblemau mwy difrifol a hwyluso mynediad at gymorth arbenigol;
- adolygu'r broses o weithredu'r rhaglenni peilot ac a yw'r gweithgarwch wedi'i gyflawni'n effeithiol;
- trafod sut y mae pob un o ardaloedd y peilot yn cefnogi atgyfeiriadau cyn y pwynt critigol i CAMHS<sup>16</sup>;
- nodi arfer da a chynorthwyo gwaith amlasiantaeth/gweithio ar y cyd;
- darparu argymhellion ar gyfer gweithio amlasiantaeth yn y dyfodol, arferion da, ymchwil a pholisi ac a oes angen gwerthusiadau pellach i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) [ac awdurdod lleol] ar botensial cyflwyno'r rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion yn y dyfodol.

---

<sup>15</sup> [Amcangyfrifon Poblogaeth ONS](#)

<sup>16</sup> h.y. atgyfeiriadau amserol i CAMHS cyn bod anawsterau iechyd meddwl yn gwaethygu a mynd yn ddifrifol.

### 1.19 Y cwestiynau ymchwil<sup>17</sup> ar gyfer yr astudiaeth yw nodi:

- i ba raddau y mae'r rhaglen beilot wedi cyflawni'r chwe chanlyniad tymor byr a'r pedwar canlyniad tymor canolig;
- y canlyniadau anfwriadol yn y rhaglen beilot;
- y mesurau gwerth ac ansawdd ychwanegol a allai fodoli y tu allan i'r mesurau llinell sylfaen;
- prosesau monitro presennol a sut y gellid eu gwella;
- i ba raddau y mae'r rhaglen beilot wedi hyrwyddo cydweithio mewn ysgolion, rhwng ysgolion a chyda phartneriaid eraill;
- nodweddion penodol y rhaglen beilot a gafodd y dylanwad mwyaf;
- nodweddion y rhaglen beilot a oedd yn llai effeithiol;
- effaith ganfyddedig y rhaglenni peilot o'r ysgolion;
- cynaliadwyedd rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion;
- mathau o berthynas waith rhwng cyngorwyr CAMHS ac ysgolion;
- profiadau'r rhai dan sylw; yr agweddau a werthfawrogwyd fwyaf neu a achosodd anawsterau a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o bobl;
- canfyddiadau rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r rhaglen h.y. a yw'n cael ei hystyried fel rhaglen sy'n adeiladu ar fentrau a pholisïau presennol a'u cyfnerthu;
- yr effaith (os o gwbl) y mae amrywiadau rhanbarthol yn ei chael o ran seilwaith a gweithredu;
- agweddau ar y rhaglen sydd wedi gweithio'n dda, y rhwystrau a wynebwyd a'r hyn y gellid ei wella;
- a oedd y rhaglen yn ategu polisïau eraill Llywodraeth Cymru a/neu lechyd Cyhoeddus Cymru;
- materion sy'n ymwneud â pherthnasedd a chynaliadwyedd y dulliau hyn; a
- natur drosglwyddadwy ac i ba raddau y gellir cyffredinoli dulliau llwyddiannus i gyd-destunau eraill

#### **Strwythur a chynnwys yr adroddiad**

1.20 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno'r sefyllfa llinell sylfaen ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ar ddechrau'r rhaglen beilot a hefyd i amlinellu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd ac effeithiau tebygol y rhaglen beilot, ar ôl tua 15 mis o

---

<sup>17</sup> Fel yr amlinellir yn y fanyleb, dylai'r canlyniadau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn gael eu mesur yn ôl llinellau sylfaen a gweithgareddau y cytunwyd arnynt yn ystod cam cwmpasu'r prosiect ac ochr yn ochr â chanlyniadau'r model rhesymeg.

waith gydag ysgolion. Bydd adroddiad crynodol terfynol sydd wedi'i amserlennu ar gyfer mis Rhagfyr 2020 yn gwerthuso ymhellach effaith y rhaglen beilot tuag at ddiwedd y rhaglen.

1.21 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- mae adran 2 yn disgrifio dull a methodoleg y gwerthusiad ac mae'n ystyried ei gryfderau a'i wendid;
- mae adran 3 yn trafod gweithredu a chyflawni'r rhaglen beilot;
- mae adran 4 yn rhoi cyd-destun ychwanegol i'r rhaglen drwy ddisgrifio'r problemau iechyd meddwl a nodwyd gan ysgolion a gwasanaethau peilot yn ystod ymchwil ansoddol;
- mae adran 5 yn asesu'r sefyllfa llinell sylfaen mewn perthynas â sgiliau a hyder staff ysgol mewn perthynas ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion, y dystiolaeth gynnar o effeithiolrwydd y rhaglen beilot a chyfraniad tebygol y rhaglen beilot at y canlyniadau a fwriedir (h.y. mwy o sgiliau, gwybodaeth a hyder staff);
- mae adran 6 yn asesu'r sefyllfa llinell sylfaen mewn perthynas â mynediad ysgolion at wasanaethau arbenigol, y dystiolaeth gynnar o effeithiolrwydd y rhaglen beilot o ran y canlyniadau a fwriedir (h.y. gwell mynediad at gyswllt, ymgynghoriaeth a chynghor arbenigol pan fo angen);
- mae adran 7 yn asesu'r sefyllfa llinell sylfaen mewn perthynas â straen a llesiant staff ysgol, y dystiolaeth gynnar o effeithiolrwydd y rhaglen beilot a chyfraniad tebygol y rhaglen beilot at y canlyniadau a fwriedir (h.y. staff ysgol yn profi llai o straen);
- mae adran 8 yn ystyried effeithiolrwydd ysgolion o ran diwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion, hybu llesiant disgyblion a staff ac ymagweddau ysgol gyfan o wneud hyn;
- mae adran 9 yn amlinellu casgliadau'r astudiaeth, mewn perthynas â nodau, amcanion a chwestiynau ymchwil yr astudiaeth;
- mae adran 10 yn amlinellu argymhellion y gwerthusiad a dysgu sy'n dod i'r amlwg, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth.



## **2. Dull a methodoleg**

### **Cyflwyniad**

2.1 Yn unol â Chanllawiau Trysorlys EM ar werthuso polisi (Trysorlys EM, 2011) defnyddiwyd dull seiliedig ar ddamcaniaeth o ran gwerthuso, a ganolbwyntiodd ar brofi model rhesymeg (gweler ffigur 1) rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion. Er mwyn cynhyrchu data i brofi'r model rhesymeg a chadarnhau, er enghraifft, a oedd gweithgareddau a chanlyniadau wedi'u cyflwyno a chanlyniadau wedi'u cynhyrchu yn ôl y disgwyl, defnyddiwyd dull dulliau cymysg, gan gynnwys:

- ymchwil o'r ddesg;
- arolwg llinell sylfaen o staff ysgol;
- ymchwil astudiaethau achos ansoddol, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion a chyfweiliadau â gwasanaethau awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r sector gwirfoddol, fel seicoleg addysg, CAMHS a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion; ac
- ymgysylltu fel cyfaill beirniadol i dîm y rhaglen beilot genedlaethol a phob tîm prosiect y rhaglen beilot.

### **Ymchwil o'r ddesg**

2.2 Canolbwyntiodd ymchwil o'r ddesg ar adolygu:

- dogfennaeth y rhaglen beilot, gan gynnwys model rhesymeg y rhaglen beilot (ffigur 1, a amlinellwyd yn adran 1), cynlluniau prosiect a data hunanwerthuso a gasglwyd gan bob rhaglen beilot;
- ymchwil i iechyd meddwl a llesiant disgyblion gan gynnwys yr hyn a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (yn fwyaf nodedig Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016), y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) (fel Hewitt et al., 2019) a'r GIG (fel NHS Digital, 2018; Murphy a Fonagy, 2013);
- ymchwil i staff ysgol a'u llesiant, gan gynnwys yr hyn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg; ac
- ymchwil a gwerthusiadau o brosiectau cymaradwy, yn fwyaf nodedig y Prosiect Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt Ysgolion yn Lloegr (DfE, 2017).

### *Cryfderau a chyfyngiadau'r ymchwil o'r ddesg*

- 2.3 Rhoddodd data o'r rhaglen beilot wybodaeth ychwanegol bwysig am gyflawni ym mhob ardal beilot (e.e. ar y math o hyfforddiant a'r nifer sy'n manteisio arno) a hefyd mewn rhai ardaloedd, data hunanwerthuso gan gyfranogwyr.
- 2.4 Rhoddodd yr adolygiad o'r ddesg o ymchwil ddata cyd-destunol pwysig am y rhaglenni peilot, ac roedd yn cynnwys yr holl ffynonellau allweddol a amlygwyd gan randdeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth. Fodd bynnag, nid oedd yn seiliedig ar adolygiad systematig na chynhwysfawr o ffynonellau, ac felly mae perygl iddo gynnwys tuedd a/neu fod yn anghyflawn.

### **Arolwg o staff addysg**

- 2.5 Cynhaliwyd arolwg o staff ysgol mewn ardaloedd peilot er mwyn mesur:
- y sefyllfa llinell sylfaen mewn perthynas â gwybodaeth a sgiliau staff ysgol, mynediad at wasanaethau arbenigol a phrofiadau o straen wrth ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion (sydd i gyd yn ganlyniadau allweddol ar gyfer y rhaglen beilot); a
  - staff ysgol yn ymgysylltu â'r rhaglen beilot, a phrofiadau cynnar ohoni, fel eu cyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth a'u cyfranogiad mewn hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen beilot, a'u barn ar effeithiolrwydd hyn.
- 2.6 Mae cylchoedd pellach yr arolwg<sup>18</sup> wedi'u cynllunio i fesur y sefyllfa o ran canol a diwedd y llinell.

### *Yr holiadur*

- 2.7 Defnyddiodd yr arolwg holiadur hunanlenwi ar-lein. Y prif feysydd a gwmpaswyd gan yr holiadur oedd:
- hyder staff o ran:
    - nodi anghenion iechyd meddwl a llesiant disgyblion;
    - trafod anghenion iechyd meddwl a llesiant disgyblion gyda disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr;
    - nodi pryd y mae angen cyngor a chymorth arnynt.
  - effeithiolrwydd ysgolion o ran hyrwyddo:
    - iechyd meddwl a llesiant disgyblion; ac

---

<sup>18</sup> Roedd yr arolygon hyn wedi'u cynllunio ar gyfer gwanwyn a hydref 2020. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae amserlen yr arolwg yn cael ei diwygio oherwydd sefyllfa COVID-19 a'i effeithiau sy'n tarfu ar staff ysgolion.

- iechyd meddwl a llesiant staff.
- gwybodaeth am gymorth yn yr ysgol, a mynediad ato (e.e. gan Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) neu Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) a gwasanaethau allanol (e.e. CAMHS).
- Barn rhanddeiliaid ar y rhaglen beilot, a'u profiadau ohono, gan gynnwys:
  - ymwybyddiaeth o'r rhaglen beilot, a'r cymorth ganddi; ac
  - effaith hyfforddiant y rhaglen beilot ar wybodaeth a dealltwriaeth staff.

### *Gweinyddu'r arolwg*

2.8 Roedd yr arolwg ar agor am oddeutu tri mis o ddiwedd mis Mawrth 2019 tan ddiwedd mis Mehefin 2019. Fel arolwg cyfrifiad, cafodd pob ysgol, a'r holl staff ysgol (arweinwyr ysgolion, Cydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY, athrawon a staff cymorth) yn yr ysgolion hynny yn ardaloedd peilot Ceredigion, Sir Ddinbych a Wrecsam, Blaenau Gwent, De Powys a Thorfaen eu gwahodd i gymryd rhan. Cafodd gwahoddiad e-bost, a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg ar-lein ei anfon i'r holl ysgolion gan y tîm gwerthuso. Dilynwyd hyn gan ddau nodyn atgoffa, a anfonwyd i'r ysgolion nad oeddent wedi ymateb. Yn ogystal, ffoniodd y tîm gwerthuso oddeutu 40 o ysgolion, nad oeddent wedi ymateb, mewn ardaloedd lle roedd y gyfradd ymateb yn isel iawn. Cafodd hyn ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a hyrwyddodd yr arolwg ar Hwb (y llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru<sup>19</sup>) a chysyllt ag ysgolion gan staff a phartneriaid y rhaglen beilot, a chan y tîm gwerthuso, yn ystod ymweliadau ag ysgolion.

### *Cyfraddau ymateb*

2.9 Mae tabl 2.1 yn dangos bod staff o tua thraean o ysgolion cynradd a bron 60 y cant o ysgolion uwchradd yn yr ardal beilot, wedi ymateb i'r arolwg. Ac eithrio De Powys, sy'n llai na'r ardaloedd eraill gyda dim ond 11 o ysgolion cynradd, roedd y cyfraddau ymateb gan ysgolion cynradd yn weddol debyg ar gyfer pob awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau ymateb gan ysgolion uwchradd yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol.

---

<sup>19</sup> Hwb yw sianel ddigidol strategol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cwricwlwm yng Nghymru ac i roi mynediad at y cwricwlwm, adnoddau ar-lein a gwybodaeth am ddysgu proffesiynol. [Hwb: Amdanom ni](#)

**Tabl 2.1. Cyfran (a nifer) yr ysgolion peilot a ymatebodd i'r arolwg ym mhob awdurdod lleol**

	Ysgolion cynradd		Ysgolion uwchradd / canol	
	Nifer yr ysgolion a wahoddwyd	Nifer yr ysgolion lle cafwyd ymateb gan staff	Nifer yr ysgolion a wahoddwyd	Nifer yr ysgolion lle cafwyd ymateb gan staff
Wrecsam	55	21	9	6
Sir Ddinbych	46	14	8	4
Ceredigion	37	10	7	2
Torfaen	25	8	7	3
Blaenau Gwent	19	6	4	4
De Powys	11	5	2	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>193</b>	<b>64</b>	<b>37</b>	<b>21</b>

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth, 2019*

2.10 Mae tabl 2.2. yn dangos cyfran y staff o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed (3-16/19) yn sampl yr arolwg a ymatebodd. Mae cyfanswm nifer y staff a ymatebodd (n=352) yn gyfran fach yn unig o gyfanswm y gweithlu addysg yn ardal y rhaglen beilot. Er enghraifft, mae 1,991 o athrawon ac 2,350 o staff cymorth yn Wrecsam a Sir Ddinbych, a 585 o athrawon a 627 o staff cymorth yng Ngheredigion<sup>20</sup>.

<sup>20</sup> Ffynhonnell: StatsCymru: [Athrawon yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#), a [Staff cymorth yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#),

**Tabl 2.2. Cyfran (a nifer) y staff a ymatebodd i'r arolwg, a oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed.<sup>21</sup>**

Ysgolion cynradd	Ysgolion uwchradd	Ysgolion pob oed	Cyfanswm (yr holl staff yn y sampl)
48% (n=170)	48% (n=170)	4% (n=12)	100% (n=352)

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth, 2019*

2.11 Mae tabl 2.3 yn dangos bod gan bron hanner y staff a ymatebodd rôl fel athro/athrawes ac roedd gan tua un o bob pump rôl arweinydd ysgol neu staff cymorth. Roedd tua 10 y cant yn rhan o'r timau bugeiliol neu roeddent yn Gydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY.

**Tabl 2.3. Cyfran (a nifer) y staff a ymatebodd i'r arolwg, yn ôl eu rôl**

Oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn, gall y cyfansymiau fod yn fwy na 100 y cant <sup>22</sup>.

Athro/athrawes	Arweinydd ysgol	Staff cymorth	Arweinydd/t îm bugeiliol	Cydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY	Arall	Cwnselydd ysgol
45% (n=161)	22% (n=78)	19% (n=67)	9% (n=31)	8% (n=30)	1% (n=5)	0% (n=1)

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth, 2019*

2.12 Roedd nifer yr ymatebion gan staff yn amrywio ym mhob ardal. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu gwahaniaeth o ran niferoedd yr ysgolion ym mhob ardal (gweler tabl 2.1.). Fodd bynnag, fel y dengys tabl 2.4., roedd nifer llawer mwy o ymatebwyr o Sir Ddinbych o gymharu ag ardaloedd eraill. Oherwydd y gallai hyn fod wedi creu tuedd yng nghanlyniadau'r arolwg, cafodd yr ymatebion gan staff o Sir Ddinbych eu cymharu ag ymatebion gan staff mewn ardaloedd eraill. Gan nad oedd llawer o

<sup>21</sup> Cafodd ymatebion gan staff mewn ysgolion pob oed eu cynnwys wrth adrodd ar ganlyniadau ar gyfer pob aelod o staff, ond nid ydynt wedi'u cynnwys pan fyddwn yn adrodd ar ymatebion gan staff ysgolion cynradd ac uwchradd. Ni chaiff eu hymatebion eu hadrodd ar wahân o ystyried y nifer bach o ymatebion.

<sup>22</sup> Dyma pam mae cyfanswm y ganran yn uwch na 100 y cant; fodd bynnag, dewisodd y mwyafrif helaeth o'r staff un opsiwn yn unig.

wahaniaeth yn yr ymatebion, ac eithrio un cwestiwn<sup>23</sup>, barnwyd bod y risg o duedd yn isel.

**Tabl 2.4. Ymatebwyr i'r arolwg yn ôl ardal awdurdod lleol – cyfran yr holl ymatebwyr (a nifer)**

	Staff ysgol
Sir Ddinbych	42% (n=148)
Wrecsam	27% (n=94)
Torfaen	10% (n=34)
Blaenau Gwent	9% (n=33)
Ceredigion	8% (n=27)
De Powys	5% (n=16)
<b>Cyfanswm</b>	<b>100% (n=352)</b>

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019*

#### *Dadansoddiad o ddata'r arolwg*

- 2.13 Yn ogystal ag ymatebion i gwestiynau caeedig (fel: 'Rwy'n gwybod at bwy i fynd yn yr ysgol os bydd angen cymorth arnaf ar gyfer fy llesiant fy hun' gyda dewisiadau ateb a ddiffiniwyd ymlaen llaw, yn yr achos hwn, ydw / nac ydw / ddim yn siŵr) cafwyd sylwadau ysgrifenedig ychwanegol gan 63 o aelodau staff. Cafodd y sylwadau eu categoreiddio i themâu<sup>24</sup> a'u trafod ochr yn ochr â'r data meintiol (h.y. yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig).
- 2.14 Mae dilysrwydd yr ymatebion i'r arolwg yn ymddangos yn dda, er enghraifft, gyda chysondeb o ran ymatebion a phrin yw'r dystiolaeth o flinder ymatebwyr, gyda chyfradd gwblhau o 93 y cant (o'r cwestiynau yn yr holiadur). Yn ogystal, fel yr amlinellir yn adrannau 5 i 7, roedd y canfyddiadau o'r arolwg yn gyson â chanfyddiadau o ymchwil ansoddol gyda staff ysgol.

<sup>23</sup> Fel yr amlinellir yn adran 3, pan ofynnwyd a oeddent yn hyderus bod eu hysgol yn effeithiol o ran hybu iechyd meddwl a llesiant staff, roedd gwahaniaeth amlwg mewn ymateb gan staff yn Sir Ddinbych o gymharu â staff mewn ardaloedd eraill.

<sup>24</sup> Cafodd themâu eu nodi drwy anwythiad (h.y. gwnaethant ddeillio o'r data), er ei bod yn anochel bod y gwaith o adeiladu a nodi themâu yn cael ei lywio gan safbwyntiau'r ymchwilwyr, fframweithiau cysyniadol a'r cwestiynau ymchwil (felly roedd rhywfaint o ddiddwythiad).

2.15 Ar y cyfan, sicrhaodd yr arolwg gyfradd ymateb dderbyniol gan ysgolion o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â holi staff ysgol, a sicrhaodd hefyd ymatebion gan amrywiaeth o grwpiau staff mewn ysgolion. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb o ran cyfanswm nifer y staff yn yr ysgolion hynny yn siomedig ac ni ellir cyffredinoli canlyniadau o'r sampl yn hyderus i'r boblogaeth gyfan o staff ysgol. Mae cyfanswm cymharol fach yr ymatebion hefyd yn golygu bod maint rhai is-grwpiau yn fach, ac wrth wneud cymariaethau rhwng grwpiau (fel athrawon a staff bugeiliol), mae angen trin ffigurau yn ofalus.

#### *Astudiaethau achos ansoddol*

2.16 Canolbwyntiodd astudiaethau achos ansoddol (y cyfeirir atynt fel "ymchwil ansoddol" yn yr adroddiad) ar drafod y sefyllfa llinell sylfaen ac ymgysylltu cynnar â'r rhaglenni peilot, a'r profiad ohonynt, gyda sampl o ysgolion a gwasanaethau awdurdod lleol, bwrdd iechyd a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'r ysgolion hynny i gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Cynhaliwyd y cylch cyntaf o astudiaethau achos yn haf a dechrau hydref 2019, a byddant yn cael eu diweddarau gan ddau ymweliad dychwelyd yn 2020 (neu pan fydd gwaith maes yn bosibl yn dilyn sefyllfa Covid-19), gan alluogi'r posibilrwydd o archwilio newid dros amser.

#### *Dewis safle*

2.17 Y meini prawf ar gyfer dewis safleoedd astudiaethau achos oedd:

- parodrwydd yr ysgol uwchradd a sampl o'i hysgolion cynradd clwstwr i ymrwymo i'r astudiaeth hydredol;
- o leiaf un clwstwr ysgolion ym mhob awdurdod lleol (h.y. Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Powys, Torfaen a Wrecsam);
- cymysgedd o glystyrau ysgolion mewn ardaloedd gwledig a threfol ar draws y tair ardal beilot;
- cymysgedd o ysgolion Cymraeg a Saesneg ar draws y tair ardal beilot;
- cymysgedd o glystyrau ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel ac isel ym mhob ardal beilot.

2.18 Cyflwynodd y maen prawf cyntaf (parodrwydd i gymryd rhan) rywfaint o duedd ddethol tuag at ysgolion sy'n debygol o fod â mwy o ddiddordeb yn y rhaglen beilot

ac yn ymgysylltu â hi, ond ystyriwyd bod hyn yn anochel, oherwydd bod cymryd rhan yn yr elfen astudiaethau achos o'r gwerthusiad yn wirfoddol.

- 2.19 Ymwelwyd â chyfanswm o 21 o ysgolion a chafodd 42 o staff ysgol (gan gynnwys arweinwyr ysgolion, athrawon ysgol a staff bugeiliol) eu cyfweld. Mae tabl 2.5 yn rhoi dadansoddiad o'r ysgol yn ôl math ac yn ôl ardal beilot.

**Tabl 2.5. Ysgolion astudiaeth achos yn ôl ardal beilot ac awdurdod lleol**

Ardal beilot	Awdurdod Lleol	Ysgolion cynradd	Ysgolion uwchradd / pob oed
Gorllewin Cymru	Ceredigion	2	2
Canolbarth a De Cymru	De Powys	2	2
	Blaenau Gwent	1	1
	Torfaen	2	2
Gogledd Cymru	Sir Ddinbych	2	2
	Wrecsam	1	2
<b>Cyfanswm</b>		<b>10</b>	<b>11</b>

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019*

#### *Cyfweliadau â gwasanaethau*

- 2.20 Cafodd gwasanaethau allweddol sy'n gweithio gydag ysgolion i gynorthwyo iechyd meddwl disgyblion eu nodi drwy gyfweliadau ag ysgolion ac, fel y mae tabl 2.6 yn amlinellu, cynhaliwyd cyfweliadau â 15 o staff o amrywiaeth o wasanaethau ar draws y tair ardal beilot.



**Tabl 2.6. Gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw yn ôl ardal beilot**

<b>Ardal beilot</b>	<b>Gwasanaethau a gynhwyswyd yn yr astudiaeth</b>
Gorllewin Cymru	<ul style="list-style-type: none"><li>• Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg</li><li>• Gwasanaeth Cwnsela'r Ysgol (h.y. Area 43)</li><li>• Y Gwasanaeth Ieuencid</li></ul>
Canolbarth a De Cymru	<ul style="list-style-type: none"><li>• Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg</li><li>• Y Gwasanaeth Lles Addysg</li><li>• Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol</li><li>• Y Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion</li><li>• CAMHS Arbenigol</li><li>• Y Gwasanaeth Ieuencid.</li></ul>
Gogledd Cymru	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithredu dros Blant</li><li>• Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar CAMHS</li><li>• Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg</li><li>• Y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion.</li><li>• Gwasanaeth Gwaith Ieuencid Arbenigol</li></ul>

*Cryfderau a gwendidau'r astudiaethau achos ansoddol*

2.21 Rhoddodd yr ymchwiler ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau gyfleoedd pwysig i drafod cwestiynau'n fanwl, gan gyfoethogi dealltwriaeth y timau gwerthuso o faterion, a galluogi triongli data'r arolwg. Fodd bynnag, roedd y sampl yn gymharol fach, ac er ei bod wedi'i bwriadu i fod mor gynrychioliadol â phosibl (gan gynnwys, er enghraifft, cymysgedd o wahanol fathau o ysgolion mewn ardaloedd gwledig a threfol o bob rhan o awdurdodau lleol y rhaglen beilot) mae'n debygol o gynnwys tuedd tuag at ysgolion a oedd yn ymgysylltu mwy â'r rhaglen beilot.

**Ymgysylltu â'r rhaglenni peilot**

2.22 Drwy gydol y gwerthusiad, mae'r tîm gwerthuso wedi gweithio gyda Chydlynedd Cenedlaethol y rhaglen beilot a phob un o'r rhaglenni peilot fel cyfaill beirniadol. Roedd hyn yn cynorthwyo'r rhaglenni peilot i ymgysylltu â'r gwerthusiad, yn cyfoethogi dealltwriaeth y tîm gwerthuso o'r rhaglen beilot ac yn helpu i alluogi i'r

canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg gael eu bwydo yn ôl a'u trafod gyda'r tîm cenedlaethol (yn Iechyd Cyhoeddus Cymru) a phob un o'r rhaglenni peilot. Mae'r trafodaethau mwy anffurfiol hyn wedi'u hategu gan gyfweiliadau â staff allweddol y rhaglen beilot a rhanddeiliaid eraill yn Llywodraeth Cymru.

### **Asesu'r sefyllfa llinell sylfaen a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd**

- 2.23 Roedd yr arolwg ac astudiaethau achos wedi'u bwriadu i helpu i fesur y sefyllfa llinell sylfaen ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ar ddechrau'r rhaglen beilot. Fodd bynnag, cafwyd oedi o ran; cytuno ar y cwestiynau i'w defnyddio yn yr arolwg, sicrhau caniatâd gan adrannau ymchwil a datblygu byrddau iechyd lleol, a nodi ysgolion a fyddai'n fodlon cymryd rhan yn y gwerthusiad fel astudiaethau achos. O ganlyniad i'r oedi, erbyn i'r arolwg llinell sylfaen gael ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019 a chynnal ymweliadau a chyfweiliadau yn yr haf a dechrau hydref 2019, roedd y rhaglen beilot wedi bod yn weithredol am tua chwech i naw mis. Er nad yw'n ddelfrydol, oherwydd bod y cyfle i fesur llinell sylfaen cyn ymyrryd wedi'i gollu, barn y tîm gwerthuso yw oherwydd, erbyn i'r arolwg ac ymweliadau ag ysgolion gael eu cynnal, mae'n annhebygol y byddai'r rhaglen beilot wedi cael effaith fawr ar y canlyniadau a fesurwyd gan yr arolwg llinell sylfaen ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth rhaglen gymharol gyfyngedig i ysgolion yng nghyfnod cychwynnol gwaith y rhaglen beilot gydag ysgolion o fis Medi 2018 ymlaen, ac mae'n atgyfnerthu'r achos dros drin canfyddiadau'r adroddiad ar effaith fel rhai petrus.
- 2.24 I'r gwrthwyneb, rhoddodd yr oedi yn yr arolwg llinell sylfaen ac ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau fwy o gyfle i gofnodi ymgysylltiad cynnar ysgolion a gwasanaethau â'r peilot, a phrofiadau a chanfyddiad cychwynnol o effaith gweithgareddau peilot, fel hyfforddiant ac ymgynghori.

### 3. Gweithredu'r Rhaglen Beilot

#### Y tair ardal beilot

3.1 Dewiswyd y tair ardal beilot (Ceredigion, Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-ddwyrain Cymru) oherwydd bod gwaith eisoes yn bodoli, ac felly perthnasodd, neu, fel y dywedodd un cyfwelai, 'sylfeini' y gallai'r rhaglenni peilot adeiladu arnynt ym mhob ardal; er enghraifft:

- roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi datblygu Llwybr Atgyfeirio Hunan-niweidio ac roedd CAMHS eisoes yn cynnig ymgynghoriadau i ysgolion;
- roedd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys weithwyr iechyd meddwl yn ymweld â phob ysgol uwchradd unwaith y mis, i gynorthwyo staff<sup>25</sup>; ac
- ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd Ceredigion wedi bod yn rhagweithiol o ran ymgysylltu ar draws y BILI gan ddatblygu, er enghraifft, yr adnodd Cael y Ffeithiau a Llwybr Atgyfeirio Hunan-niwedio (gweler astudiaeth achos 1).

3.2 Roedd dewis ardaloedd peilot mewn tair rhan ar wahân o Gymru, gyda byrddau iechyd lleol a gwasanaethau addysg gwahanol, hefyd yn ei gwneud yn bosibl profi'r model peilot mewn cyd-destunau amrywiol, er enghraifft, gyda gwasanaethau arbenigol gwahanol a llwybrau atgyfeirio gwahanol.

#### **Astudiaeth achos 1. Llwybr Hunan-niweidio Gogledd Cymru**

Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi gweithio gyda CAMHS i ddatblygu llwybr hunan-niweidio/meddyliau hunanladdol. Mae'n brotocol i'w ddilyn pan fydd myfyriwr yn cyflwyno gyda phroblemau hunan-niweidio neu feddyliau hunanladdol.

Disgrifiodd un ysgol sut y mae wedi gweithio'n dda iddyn nhw, gan ddarparu clustog o gymorth a chyfrifoldeb a rennir wrth wneud penderfyniadau. Fel yr esboniodd un ysgol: 'mae rhestr wirio i fynd drwyddi; os oes perygl uniongyrchol, rhaid cael ymyriad brys, fel arall rydych yn ffonio CAMHS a thrafod y mater gyda nhw ac rydych yn penderfynu ar y cyd ar lefel y risg a'r ymateb'. Gall hyn sicrhau

<sup>25</sup> Ystyrir bod y rhaglen beilot yn debyg, gan adeiladu ar y gwaith hwn, ond gan ddarparu mwy o gapasiti i ddechrau gweithio gydag ysgolion cynradd hefyd (nad ydynt yn ei wneud ar hyn o bryd).

mynediad cyflym i wasanaethau os yw hynny'n briodol. Mae'r rhai sydd wedi gwneud yr hyfforddiant llwybr hunan-niweidio yn ei ddiweddarau bob blwyddyn.

3.3 Yn ogystal, fel y dengys tabl 3.1., mae maint pob ardal yn amrywio'n sylweddol.

**Tabl 3.1. Proffil pob ardal beilot**

Ardal beilot	ALI	Nifer yr ysgolion cynradd	Nifer yr ysgolion uwchradd neu ysgolion pob oed	Maint (Km <sup>2</sup> )
Ceredigion	Ceredigion	39	7	1,783
Canolbarth a De- ddwyrain Cymru	Blaenau Gwent	19	2	109
	De Powys	11	2	Dd/B <sup>26</sup>
Gogledd Cymru	Torfaen	25	6	126
	Sir Ddinbych	45	7	844
	Wrecsam	58	9	500

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion StatsCymru<sup>27</sup>*

3.4 Mae'r gwahaniaethau hyn o ran cyd-destun yn effeithio ar y sefyllfa llinell sylfaen yr oedd pob rhaglen beilot yn dechrau ohoni (e.e. mewn perthynas â sgiliau a hyder staff), ac maent wedi llywio'r ffordd y mae'r rhaglen beilot wedi'i datblygu ym mhob ardal; er enghraifft, er bod CAMHS ym Mhowys a Gogledd Cymru eisoes yn darparu ymgynghoriadau mewn ysgolion, rhoddwyd llai o bwyslais ar ddatblygu'r elfen hon o'r rhaglen beilot (gweler astudiaeth achos 2).

### **Astudiaeth achos 2. Mynediad ysgolion at CAMHS yng Ngogledd Cymru**

Mae gan CAMHS yng Ngogledd Cymru hanes hir o weithio gydag ysgolion a'r sector gwirfoddol/cymunedol, gan feithrin sgiliau i gynorthwyo pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a llesiant, drwy gynnal cyrsiau fel Cyfeillion am Oes a'r cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid (YMHFA), gan adeiladu capasiti sectorau addysg/gwirfoddol a chymunedol i roi cymorth i bobl ifanc, a bydd ysgolion yn aml yn prynu cyrsiau fel Seasons for Growth o'r trydydd sector.

<sup>26</sup> Ni ellir cyfrifo maint yn hawdd gan mai dim ond rhan o'r sir sy'n cael ei chwmpasu gan y rhaglen beilot.

<sup>27</sup> [Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol](#)

Mae gan CAMHS a Seicoleg Addysg yn Wrecsam sesiwn galw heibio wythnosol i weithwyr proffesiynol sy'n aml yn cynnig gweithdai anffurfiol ar hyd themâu penodol yn dibynnu ar geisiadau a wneir. Mae'r ffynhonnell barhaus a chyson hon o gymorth am bron i ddegawd yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr yn lleol. Yn yr un modd, mae gan CAMHS yn Sir Ddinbych system gweithiwr cyswllt yn seiliedig ar yr ysgolion uwchradd y gall ysgolion cynradd gael mynediad ati.

### **Sefydlu'r rhaglen**

- 3.5 Datblygodd pob un o'r tair ardal mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyflymder gwahanol; er enghraifft, canolbwyntiodd Ceredigion i ddechrau ar recriwtio a meithrin perthynas ag ysgolion, a chanolbwyntiodd y ddwy ardal arall i ddechrau yn fwy ar ddatblygu rhaglenni hyfforddi i ysgolion.
- 3.6 Erbyn mis Medi 2018, roedd grwpiau llywio wedi'u sefydlu'n dda ym mhob ardal ac roedd staff wedi'u recriwtio (gweler isod) ac wedi dechrau cysylltu ag ysgolion. Cafodd protocolau rhannu gwybodaeth ac opsiynau ar gyfer gweithio ar y cyd eu trafod yn lleol a'u cytuno yng Ngogledd a Gorllewin Cymru (Ceredigion)<sup>28</sup>, a chynhaliwyd asesiadau o anghenion hyfforddi ym mhob ardal.

### **Staffio a chapasiti'r rhaglen beilot**

- 3.7 Mae gan y rhaglen beilot Gydllynydd Cenedlaethol amser llawn a gefnogir gan uwch aelodau o staff yn lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae tabl 3.2 yn amlinellu staffio'r rhaglen beilot ym mhob ardal.

---

<sup>28</sup> Yng Ngogledd Cymru, mae'r holl wybodaeth/atgyfeiriadau yn mynd drwy'r Un Pwynt Mynediad (SPoAs) a chan fod staff CAMHS eisoes wedi'u cysylltu ag ysgolion nid oedd unrhyw bryderon ynghylch rhannu gwybodaeth. Yng Ngheredigion, roedd protocol rhannu gwybodaeth eisoes yn ei le, gyda gwybodaeth (fel nodiadau o ymgynghoriadau), yn cael ei storio yn system gofnodi Partner Gofal sCAMHS.

**Tabl 3.2. Staffio'r rhaglen beilot ym mhob ardal**

<b>Ardal</b>	<b>Staff</b>	<b>Rôl a chyfrifoldebau</b>
Ceredigion	Arweinydd Tîm Mewngymorth Ysgolion Band 7. (Amser llawn).	Cyflwyno ymgynghori a chyswllt ag ysgolion; hyfforddiant; a sesiynau llesiant staff. Arwain a rheoli'r tîm, adrodd i'r Arweinydd Peilot Band 8 a hefyd i'r Rheolwr Gwasanaeth CAMHS. Cyflwyno adroddiadau ar ddatblygu gwasanaeth.
	Ymarferydd Mewngymorth Ysgolion Band 6. (Rhan-amser, 0.8).	Cyflwyno ymgynghoriadau misol a chyswllt ag ysgolion, sesiynau hyfforddi ac addysg, rhwydweithio, a sesiynau llesiant staff.
	Ymarferydd Mewngymorth Ysgolion Band 5. (Rhan-amser, 0.4).	Cynnal ymgynghoriadau misol a sesiynau cyswllt, hyfforddi ac addysg, a rhwydweithio.
	Cynorthwydd Gweinyddol Band 3. (Rhan-amser 0.8).	Cynnal gohebiaeth gyda chysylltiadau ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill yn y sir i hyrwyddo'r rhaglen beilot; trefnu lleoliadau hyfforddi (os nad ydynt yn yr ysgol); a darparu cymorth gweithredol (llythyrau, agendâu, cofnodion ac ati).
Canolbarth a De Cymru	Dau Ymarferydd Band 7 (Amser llawn)	Cyflwyno ymgynghoriadau a chyswllt ag ysgolion; hyfforddiant ac addysg a sesiynau llesiant staff. Cyflwyno adroddiadau ar ddatblygu gwasanaeth.

		Trefnu lleoliadau hyfforddi. Gweinyddu prosiectau a dadansoddi data.
		Maent yn adrodd i'r arweinydd Seicoleg Glinigol o dan gyfarwyddiaeth gyffredinol PCMHSS plant a phobl ifanc, sy'n darparu rheolaeth prosiect ac sy'n meddu ar gyfrifoldebau cyllidebol
	Cafodd Gweinyddu Banc ei brynu am 8 diwrnod ym mis Mawrth ond ni pharhaodd hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol.	Cymorth gweithredol
Gogledd Cymru	Uwch-ymarferydd lechyd Meddwl CAMHS Band 7 (amser llawn)	Rheoli prosiectau. Cyflwyno ymgynghoriadau a chyswllt ag ysgolion; a hyfforddiant.
	Ymarferydd lechyd Meddwl CAMHS Band 6 (amser llawn)	Cyflwyno hyfforddiant i dimau staff cyfan a hyfforddiant Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl leuenctid.
	Gweinyddwr Cymorth Prosiect Band 3 (rhan-amser, 0.6)	Cymorth gweithredol (e.e. i gydlynu a threfnu'r holl hyfforddiant a phrynu'r deunyddiau).

---

*Ffynhonnell: Rhaglenni Peilot Ceredigion, Canolbarth a De Cymru a Gogledd Cymru.*

### **Newidiadau o ran cyflwyno**

- 3.8 Nododd ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid bryderon bod y rhaglen wedi'i chyhoeddi a'i lansio cyn bod manylion am gyflwyno'r rhaglen a'r amcanion wedi'u paratoi, a chyn penodi cydlynnydd cenedlaethol. Golygai hyn bod angen i rai o'r rhaglenni peilot addasu'r cydbwysedd a'r pwyslais a roddwyd ar y llinynnau gwahanol (fel hyfforddi ac ymgynghori), ond teimlwyd nad oedd hyn wedi achosi unrhyw broblemau hirdymor.

- 3.9 Aeth y broses o recriwtio staff cychwynnol yn dda ac mae'r ymarferwyr CAMHS Mewngymorth a benodwyd wedi'u canmol yn gyson gan randdeiliaid a ymatebodd am eu sgiliau a'u hymroddiad. Fodd bynnag, mae absenoldeb staff a newidiadau yn nhîm y staff wedi bod yn her yng Ngheredigion (gan eu bod wedi cyfyngu ar gapasiti tîm a oedd eisoes yn fach, gweler tabl 3.2 am fanylion), ac roedd yn anodd i'r rhaglenni peilot recriwtio staff newydd ar y lefel ddymunol ar gyfer contract tymor byr, pan gafodd y rhaglen beilot ei hymestyn i fis Rhagfyr 2020.
- 3.10 Mae mynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch beth yw'r rhaglen a'r hyn y mae'n ceisio ei wneud wedi bod yn her allweddol i'r rhaglenni peilot. Nododd nifer o staff y rhaglen beilot y gall yr enw, 'rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion', fod yn gamarweiniol, oherwydd bod gwella cysylltiadau i wasanaethau arbenigol, fel CAMHS, yn rhan fach yn unig o'r rhaglen beilot. Yn fwy sylfaenol, fel y mae adran 6 yn amlinellu, nid yw'r rhaglen beilot, fel y gobeithiai rhai ysgolion, yn rhaglen beilot sy'n cynnig gweithwyr CAMHS penodedig sy'n gweithio gyda llwyth achosion o ddisgyblion mewn ysgolion (nid yw'r rhaglen beilot wedi'i bwriadu, ac nid yw'n cael ei hariannu, i alluogi hyn).
- 3.11 Yn wahanol i'r ddwy ardal arall, yng Nghanolbarth a De Cymru, nid yw'r trefniadau rhannu gwybodaeth wedi'u datrys o hyd a disgrifiodd staff y rhaglen beilot fod y broses llywodraethu gwybodaeth yn "gymhleth". Cytunodd arweinwyr Trawsnewid Rhanbarthol, Ymarferwyr Mewngymorth, a swyddogion llywodraethu gwybodaeth o BIP Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen fod prosesau'r rhaglen beilot yn bodloni rheoliadau llywodraethu gwybodaeth. Ym Mhowys, cafodd trefniadau presennol sy'n cwmpasu gwaith CAMHS gydag ysgolion eu mabwysiadu ar gyfer y rhaglen beilot. Fodd bynnag, er mwyn sefydlu'r cytundeb yn gadarn, datblygwyd protocol rhannu gwybodaeth gyda thîm cenedlaethol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Fodd bynnag, bu oedi o ran cael pob un o'r tri awdurdod lleol<sup>29</sup> a'r ddau fwrdd iechyd sy'n rhan o'r peilot i gymeradwyo'r WASPI. Ar hyn o bryd, gall ymarferwyr CAMHS Mewngymorth gael mynediad at gofnodion CAMHS, ond nid systemau Ymarferwyr Cyffredinol, ac mae pryderon, er enghraifft,

---

<sup>29</sup> Er enghraifft, mewn un ardal, gofynnodd uwch-arweinydd i ddechrau am atodiad ychwanegol yn esbonio disgwyliadau'r cytundeb WASPI ar gyfer ysgolion a'r ymrwymiad gan y rhaglen beilot ac yn ddiweddarach gofynnwyd am amlinelliad llawn o'r broses ymgynghori a ysgrifennwyd ar gyfer ysgolion.



os byddant yn hysbysu ysgol bod disgybl yn cael ei farnu'n risg uchel, y gall hyn fynd yn groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

- 3.12 Fel y mae adrannau 1 a 6 yn amlinellu, mae nifer ac ystod y mentrau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant disgyblion mewn ysgolion yn golygu bod y rhaglen beilot yn gweithredu mewn tirwedd gwasanaeth cymhleth sy'n aml yn newid yn gyflym, ac mae wedi gofyn am gynllunio gofalus i osgoi dyblygu mentrau eraill neu gael effaith negyddol arnynt. Mae grwpiau llywio ac aelodau unigol o grwpiau llywio sydd, er enghraifft, â rolau strategol mewn BILI neu awdurdodau lleol, wedi bod yn bwysig yma o ran sicrhau cydlynid polisi ar lefel strategol. Mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth wedi chwarae rôl bwysig ar lefel weithredol, wrth feithrin perthnasoedd a chysylltiadau ag ysgolion a gwasanaethau eraill. Mae'n werth nodi, serch hynny, er gwaethaf nawdd ar y cyd gan iechyd ac addysg, mae'r rhaglenni peilot wedi cael eu harwain gan wasanaethau iechyd ym mhob un o'r ardaloedd. Cafwyd ymgysylltiad cryf gan wasanaethau iechyd, fel CAMHS ac, mewn rhai ardaloedd, nyrsio ysgolion, a hefyd gan wasanaethau seicoleg addysg awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ac eithrio Gogledd Cymru, bu llawer llai o ymgysylltu gan wasanaethau addysg, fel gwasanaethau cynhwysiant awdurdodau lleol.
- 3.13 Mae maint a natur wledig yr ardaloedd, ynghyd â nifer yr ysgolion (gweler tabl 3.1.) o'u cymharu â'r adnoddau a staffio, yn her arbennig yng ngogledd Cymru ac, i raddau llai, yng Ngheredigion a Chanolbarth a De-ddwyrain Cymru. Mae amser staff a dreulir yn teithio rhwng ysgolion, logisteg amserlennu sesiynau mewn ysgolion, i gyd wedi bod yn heriol. Mae gan ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yng Ngogledd Cymru a Cheredigion ganolfan i weithio ohoni, a gallant gael mynediad at gronfeydd data diogel o'r fan hon (e.e. i nodi'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda pherson ifanc y mae ysgol wedi codi pryderon yn ei gylch), ond ni allant gael gafael ar y rhain o bell, sydd wedi bod yn destun rhwystredigaeth. Mewn cyferbyniad, nid oes gan ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn Ne-ddwyrain a Chanolbarth Cymru ganolfan i weithio ohoni, sydd wedi cymhlethu eu gwaith.
- 3.14 Cafwyd gwahaniaethau barn ynghylch yr hyfforddiant mwyaf effeithiol i'w gynnig i ysgolion; er enghraifft, mae Gogledd a De-ddwyrain Cymru wedi hyrwyddo

hyfforddiant YMHFA<sup>30</sup>, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynegi rhai pryderon am briodoldeb hyn, o ystyried ei ffocws diagnostig ar salwch meddwl. Nid yw'r gwerthusiad yn rhoi barn ar hyn ond, fel y mae adran 5 yn amlinellu, mae ymatebion ysgolion i hyfforddiant YMHFA wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Mae datblygu pecynnau hyfforddi gwahanol gan bob ardal beilot, yn annibynnol ar ei gilydd yn bennaf, wedi galluogi'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant pwrpasol a phenodol i gyd-destun mewn ymateb i ymgynghori ag ysgolion, ond mae'n codi cwestiynau am aneffeithlonrwydd posibl a chyfleoedd a gollwyd i rannu deunyddiau a dealltwriaeth.

### **Ymgysylltiad ysgolion**

- 3.15 Mae ymgysylltiad ysgolion wedi bod yn her i wahanol raddau ym mhob un o'r tair ardal. Nododd ymchwil ansoddol gyda'r rhaglenni peilot amrywiaeth o ymatebion, gan ysgolion a oedd yn awyddus iawn i gymryd rhan, hyd at y rhai yr oedd angen eu hannog i gymryd rhan ac eraill y bu'n anodd iawn ymgysylltu â nhw. Nodwyd amrywiaeth o resymau pam nad yw ysgolion wedi ymgysylltu. Mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â blaenoriaethau sy'n cystadlu am amser a sylw ysgolion, fel arolygiadau Estyn. Un o gryfderau'r model fel rhaglen beilot yw bod pob ysgol mewn ardal ddaearyddol wedi'i gwahodd a'i hannog yn frwd i ymgysylltu, felly nid yw wedi targedu'r ysgolion sydd â'r diddordeb mwyaf yn unig. Fodd bynnag, mae swm y gwaith sydd wedi'i neilltuo i ymgysylltu â rhai ysgolion yn anochel wedi tynnu amser, sylw ac adnoddau oddi wrth agweddau eraill ar y rhaglen beilot.

#### *Ymwybyddiaeth o'r rhaglen beilot ac ymgysylltu â hi*

- 3.16 Pan gafodd yr arolwg llinell sylfaen ei gynnal yng ngwanwyn 2019, roedd rhaniad cyfartal (50/50) rhwng staff a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot a'r rhai nad oeddent yn ymwybodol ohoni. Prin oedd y gwahaniaeth rhwng ymwybyddiaeth o'r rhaglen beilot ymhlith staff ysgolion cynradd ac uwchradd (roedd ychydig dros hanner y staff mewn ysgolion uwchradd ac ychydig o dan hanner y staff mewn ysgolion cynradd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot). Roedd y gwahaniaeth hwn yn llai na'r disgwyl, oherwydd ar y cyfan mae'r rhaglen beilot wedi bod yn fwy gweithredol mewn ysgolion uwchradd (h.y. gan gwmpasu pob grŵp oedran mewn

---


<sup>30</sup> Mae'r hyfforddiant yn ceisio addysgu'r sgiliau a'r hyder i staff sydd eu hangen i nodi arwyddion problemau iechyd meddwl, cynnig cymorth cyntaf ac arwain plant a phobl ifanc tuag at y cymorth sydd ei angen arnynt.

ysgolion uwchradd, o gymharu â Blwyddyn 6 yn unig mewn ysgolion cynradd). Efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod y rhan fwyaf o staff mewn ysgolion cynradd a gwblhaodd yr arolwg hwn yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 (ac felly o'r farn bod yr arolwg yn berthnasol iddyn nhw). Gall hefyd adlewyrchu tuedd o ran dymunoldeb cymdeithasol, gydag ymatebwyr yn teimlo mai'r ateb 'cywir' i'r cwestiwn oedd dweud eu bod yn ymwybodol o'r rhaglen beilot. Disgwylir y bydd cyfran y staff sy'n ymwybodol o'r rhaglen beilot, ac a gefnogwyd ganddi, wedi cynyddu ers hynny.

- 3.17 O'r staff hynny a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot, roedd tua dwy ran o dair (66 y cant) yn gwybod pwy oedd yr ymarferydd CAMHS Mewngymorth ar gyfer yr ysgol. Yn ôl y disgwyl, roedd hyn yn uwch ymhlith y rhai a oedd wedi cael hyfforddiant gan y rhaglen beilot (85 y cant).
- 3.18 Mae graff 3.1 yn dangos, o blith y rhai a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg ar ddiwedd mis Mawrth-Mehafin 2019, roedd ychydig dros draean (36 y cant) eisoes wedi'u cefnogi gan ymarferydd CAMHS Mewngymorth drwy ymgynghori neu gyngor ac roedd tua un o bob deg (11 y cant) wedi trafod priodoldeb atgyfeirio i wasanaeth arbenigol fel CAMHS gydag ymarferydd CAMHS Mewngymorth.

**Graff 3.1. Ymatebion staff a oedd yn ymwybodol o'r rhaglen beilot pan ofynnwyd iddynt a gawsant gymorth gan ymarferydd CAMHS Mewngymorth ac os felly, sut**

(Gallai'r staff ddewis mwy nag un opsiwn, felly gall y cyfanswm fod yn fwy na 100%).



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth, 2019 (n=148)*

### **Ffyddlondeb i'r model rhesymeg gwreiddiol**

- 3.19 Fel yr amlinellir yn adrannau 5, 6 a 7, ar y cyfan bu ffyddlondeb da<sup>31</sup> i'r model rhesymeg. Fodd bynnag, mae'r pwyslais a roddir ar wahanol elfennau wedi amrywio o ardal beilot i ardal beilot a hefyd o fewn ardaloedd peilot. At hynny, mae'r rhaglen beilot wedi datblygu llwybrau, neu dulliau, achosol newydd, nad ydynt yn ymddangos yn y model rhesymeg gwreiddiol; er enghraifft, nid oedd cyfraniad gweithdai a hyfforddiant i lesiant staff hyd a lleihau straen staff yn ymddangos yn y model rhesymeg gwreiddiol. Felly, cynigir damcaniaeth newid ddiwygiedig a symlach yn y casgliadau.

---

<sup>31</sup> Mae ffyddlondeb yn disgrifio cysondeb yr hyn a weithredir â'r ymyriad a gynlluniwyd (Moore et al, 2015, t. 4). Dadleuwyd bod ffyddlondeb yn cael ei gyflawni os yw'r dulliau cynhyrchiol yr un fath i bob pwrpas, hyd yn oed, er enghraifft, os yw'r cyd-destunau y mae ymyriad (fel y rhaglen beilot) yn gweithredu ynddo a'r ffyrdd o'i weithredu, yn amrywio rhywfaint (gweler e.e. y drafodaeth yn Moore, et al, 2015). Yn y cyd-destun hwn, mae'n golygu bod ffyddlondeb i ddamcaniaeth newid y rhaglen beilot er bod ardaloedd gwahanol wedi ymgymryd â gweithgareddau sydd ychydig yn wahanol, o ystyried y gwahaniaethau yn eu cyd-destun.

## 4. Yr anawsterau iechyd meddwl a nodwyd gan ysgolion a gwasanaethau'r rhaglen beilot

4.1 Fel rhan o'r ymchwil ansoddol, gofynnwyd i ysgolion ddisgrifio'r mathau o anawsterau iechyd meddwl yr oedd disgyblion yn eu hysgol yn eu profi. Disgrifiodd staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyfraddau cynyddol o anawsterau iechyd meddwl. Priodolwyd hyn i:

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o anawsterau iechyd meddwl; er enghraifft, fel y disgrifiodd dirprwy bennaeth mewn un ysgol uwchradd: 'mae'n teimlo bod llawer mwy o siarad am iechyd meddwl yn awr' a bod disgyblion yn meddu ar y: 'derminoleg i siarad am bryder' a'i bod: 'yn debygol bod pryder yno o'r blaen, ond nid oeddent yn siarad amdano';
- newidiadau cymdeithasol, gan gynnwys:
  - effeithiau negyddol canfyddedig y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrdd; er enghraifft, fel y disgrifiodd un ysgol: 'gall rhwydweithiau a llwyfannau cymdeithasol fod yn broblem wirioneddol gyda llawer o safleoedd yn ymwneud â hunan-niweidio, hunanladdiad, rhyw a meithrin perthynas amhriodol ar-lein';
  - mwy o ymwybyddiaeth o effeithiau ACE, fel y teulu yn chwalu, cam-drin domestig, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a/neu iechyd meddwl gwael y rhieni eu hunain; ac
  - i raddau llai, mwy o gydnabyddiaeth o anhwylderau niwroddatblygiadol fel Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywigrwydd (ADHD); er enghraifft, fel y disgrifiodd un gwasanaeth: 'Mae ASD sy'n gysylltiedig â phryder yn gyffredin iawn'.

4.2 Felly credwyd bod y cynnydd yn adlewyrchu cynnydd mewn salwch meddwl (ac, i raddau llai, anhwylderau niwroddatblygiadol) a hefyd mwy o gydnabyddiaeth o anawsterau a oedd wedi'u cuddio neu eu camddeall yn flaenorol<sup>32</sup>; er enghraifft, fel y crynhodd un cyfwelai: 'mae hyn oherwydd ein bod yn siarad mwy am iechyd meddwl y dyddiau hyn - rydym yn rhoi enw arall i dristwch - ac mae mwy o broblemau hefyd'. Mae hyn yn cyffwrdd â phryder ehangach ymhlith rhai cyfweleion

---

<sup>32</sup> Yn yr un modd, credir bod y cynnydd mewn anhwylderau niwroddatblygiadol wedi'i ysgogi gan gynydd mewn anhwylderau o'r fath ac ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth gynyddol o anhwylderau.

bod profiadau arferol yn ystod plentyndod, fel tristwch a straen, yn cael eu trin yn feddygol. Fel y disgrifiodd swyddog lles ysgol: 'mae plant yn dweud bod ganddynt anawsterau iechyd meddwl, ond nid ydynt yn gwybod beth maent yn ei ddweud, maent yn dweud bod ganddynt broblemau iechyd meddwl ond maent yn teimlo'n drist mewn gwirionedd'.

- 4.3 Nododd ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod yn cael trafferth diwallu'r angen cynyddol gan fod adnoddau wedi'u torri a bod y ffocws ar flaenoriaethau eraill, fel codi safonau, wedi tynnu amser a sylw oddi wrth lesiant. Felly, croesawyd y pwyslais ar lesiant a roddir gan y rhaglen beilot a hefyd, er enghraifft, gan y cwricwlwm newydd.

### **Ysgolion cynradd**

- 4.4 Disgrifiodd staff ysgolion cynradd fod anawsterau iechyd meddwl disgyblion yn dechrau'n gynharach, a'u difrifoldeb cynyddol. Fel y disgrifiodd un athro: 'ddeng mlynedd yn ôl, yn gweithio yn y maes cynradd, nid oeddem wedi arfer ag ymdrin â'r mathau hyn o broblemau ac, fel yr esboniodd un pennaeth: 'rydym yn gweld hunan-niweidio, anhwylderau bwyta, mae gan sawl bachgen broblemau gyda'u pwysau, nid ydynt yn tynnu eu siwmpwr pan fydd yn gynnes. Pryder, cyflwyno gydag iselder, ond heb gael diagnosis clinigol eto.'
- 4.5 Roedd pryder yn un o'r prif bryderon. Fel y disgrifiodd un pennaeth (gan fynegi barn a arddelir yn gyffredin): 'rydym yn gweld mai pryder yw'r broblem fwyaf i'n disgyblion ac yn aml maent yn bryderus oherwydd bod eu rhieni yn bryderus. Rydym yn gweld disgyblion yma sy'n aml yn gwybod gormod am yr hyn sy'n digwydd gartref'.
- 4.6 Roedd y pwyslais ar effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), fel teulu'n chwalu, esgeulustod, cam-drin domestig neu gam-drin cyffuriau, hefyd yn thema gyffredin. Gall hyn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o ACE (nodwyd ymwybyddiaeth gynyddol yn eang gan ysgolion) a hefyd y wybodaeth fwy a allai fod gan staff ysgolion cynradd am fywydau plant gartref, o gymharu ag ysgolion uwchradd.
- 4.7 Roedd nifer o ysgolion yn cysylltu ACE ag ymlyniad (oherwydd gallai ACE danseilio bondiau emosiynol rhwng plant a'u rhieni), ac fel yr eglurodd un Cydlynnydd AAA: 'problemau ymlyniad yw'r maes pryder mwyaf yn yr ysgol'. Yn fwy eang, fel y dywedodd un aelod o staff bugeiliol (mewn ysgol uwchradd): 'yn aml mae'n

ymwneud â diffyg cymorth emosiynol – plant sy'n mynd adref ac nid oes unrhyw un yno...rhieni sy'n gwneud eu gorau ond ni allant wneud popeth'.

### **Ysgolion uwchradd**

- 4.8 Fel mewn ysgolion cynradd, disgrifiodd staff ysgol uwchradd ddifrifoldeb cynyddol anawsterau iechyd meddwl disgyblion. Fel y nododd staff mewn un ysgol: 'mae pryder, iselder, hunan-niweidio, meddyliau/gweithredoedd hunanladdol, anhwylderau bwyta ar gynnydd' ar gyfer bechgyn a merched. Fel mewn ysgolion cynradd, roedd pryder yn un o'r prif bryderon; er enghraifft, fel y nododd un arweinydd bugeiliol: 'mae pryder yn broblem enfawr yn yr ysgol'. Soniwyd am hunan-niweidio yn aml hefyd, ac mewn un ysgol a chan un gwasanaeth, disgrifiodd aelod o dîm bugeiliol ysgol uwchradd fod hyn yn teimlo fel 'epidemig'. Roedd hyn yn llawer mwy o bryder i ysgolion uwchradd nag i ysgolion cynradd. Gwnaeth sawl ysgol uwchradd hefyd drafod effaith hunanladdiadau ar yr ysgol a gwnaeth eraill (nad oeddent wedi cael profiad o hynny eu hunain) ddisgrifio eu hofnau a'u pryderon ynghylch y risg o hunanladdiad.
- 4.9 Disgrifiodd rhai ysgolion, fel y dywedodd un Dirprwy Bennaeth mewn ysgol gynradd, eu bod 'ceisio helpu disgyblion a theuluoedd i ddeall beth sy'n arferol', gan ddisgrifio sut y mae'n arferol poeni am arholiadau, ond hefyd i ddeall a chydabod yr hyn sy'n mynd y tu hwnt i'r arferol. Roedd hyn weithiau'n gysylltiedig â thrafodaeth am gydnerthedd disgyblion (gallu disgyblion i ymdopi ag adfyd) a phryderon bod cydnerthedd disgyblion yn lleihau a bod profiadau plentyndod arferol, fel tristwch, yn cael eu trin yn feddygol.
- 4.10 Roedd effaith negyddol ganfyddedig y cyfryngau cymdeithasol ar iechyd meddwl a llesiant disgyblion yn un o'r prif bryderon i ysgolion uwchradd, ac roedd yn llawer mwy o bryder i ysgolion uwchradd nag yr oedd ar gyfer ysgolion cynradd, yn ôl pob tebyg oherwydd bod y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu gydag oedran. Disgrifiodd rhai ysgolion hefyd sut, mewn rhai blynyddoedd roedd ganddynt grwpiau o ddisgyblion a fyddai'n cyfathrebu â'i gilydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd negyddol iawn, ac roedd yr ysgolion hyn yn credu y gallai hyn gynyddu'r risgiau o hunan-niweidio a hunanladdiad. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o anodd i ysgolion ei reoli, oherwydd y nifer mawr o ddisgyblion a allai gael eu cynnwys neu eu heffeithio a'r risg o waethygu'r broblem (lle byddai, er enghraifft,

trafodaeth am hunan-niweidio yn arwain at weithredu, gyda phobl ifanc yn mynd ati i niweidio'u hunain mewn gwirionedd). Mae'n werth nodi bod y dystiolaeth ymchwil o effaith y cyfryngau cymdeithasol ar iechyd meddwl braidd yn amwys; er enghraifft, canfu ymchwil Llywodraeth Cymru a drafododd ganfyddiadau Astudiaeth Cohort y Mileniwm fod: 'gan blant a oedd yn defnyddio llawer iawn o'r cyfryngau cymdeithasol symptomau iselder uwch a lefelau bodlonrwydd bywyd is'. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod:

'cyfeiriadau achosiaeth yn aneglur. Er enghraifft, gall plant isel droi at y cyfryngau cymdeithasol. Efallai'n wir y bydd defnydd trwm iawn o'r cyfryngau cymdeithasol yn niweidio plant a phobl ifanc, ond mae'n llawer llai clir bod gan ddefnydd cymedrol effeithiau gwael ac fe all fod â manteision hefyd'. (LIC, 2019b, t.5, t.27).

- 4.11 Tynnodd rhai ysgolion sylw at y pwysau i lwyddo, yn enwedig ar gyfer yr 'anelwyr uchel' ymhlith pobl ifanc sy'n rhoi pwysau gormodol arnynt eu hunain i lwyddo, a disgrifiodd rhai ysgolion fod y cyfnod o gwmpas amser arholiadau yn un a oedd yn peri pryder arbennig. I raddau llai nag ysgolion cynradd, roedd ysgolion hefyd yn siarad am effaith ACE, fel y teulu yn chwalu.

### **Profiadau gwasanaethau**

- 4.12 Roedd disgrifiadau gwasanaethau o anawsterau iechyd meddwl disgyblion yn debyg. Fel y disgrifiodd un seicolegydd addysg: 'rydym yn gweld pryder yn amlygu ei hun mewn ffyrdd gwahanol yn y craidd. Rydym hefyd yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n hunan-niweidio ac ar oedran iau.' Yn ôl y disgwyl, disgrifiodd gwasanaethau mwy arbenigol (gyda throthwyon uwch), eu bod yn gweld plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl mwy difrifol a chymhleth nag ysgolion. Yn ogystal, nododd gwasanaethau ac, mewn un neu ddau o achosion, ysgolion, anawsterau iechyd meddwl yn gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd disgyblion.




## 5. Sgiliau a hyder staff yn ardaloedd y rhaglen beilot

### Cyflwyniad

- 5.1 Fel y dengys ffigur 5.1, mae'r model a ddefnyddir yn eang gan ysgolion ar gyfer mynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion yn cynnwys nodi yn gynnar y gall fod gan ddisgybl anawsterau iechyd meddwl, asesiad i benderfynu ar hynny, beth allai eu hanghenion fod a pha gymorth sydd ei angen, cyflwyno'r cymorth hwnnw ac adolygu effeithiolrwydd y cymorth hwnnw. Mae'r model hwn yn seiliedig ar y dull a ddefnyddir i nodi, asesu a darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) disgyblion (gweler e.e. LICC, 2004). Mae'r model AAA / ADY o 'ymateb graddedig' yn sail i'r cylch hwn. Yma, defnyddir arbenigedd (e.e. wrth asesu anghenion) a chymorth ychwanegol o fewn (e.e. gan ADY/AAA a/neu dimau bugeiliol) yn yr ysgol a thu hwnt i'w ysgol (e.e. gan wasanaethau'r awdurdod lleol a'r BILI fel seicoleg addysg a CAMHS) pan fo angen (ibid.). Mae'r model hwn yn golygu y gall nifer cynyddol o staff a gwasanaethau gymryd rhan, wrth i gymhlethdod a difrifoldeb anghenion gynyddu neu ddod i'r amlwg, ac mae angen i staff a gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r model hwn hefyd yn golygu, er bod angen i bob aelod o staff fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sylfaenol o iechyd meddwl a llesiant ar gyfer disgyblion, dim ond rhai staff, fel Cydlynwyr ADY a thimau bugeiliol, sydd angen sgiliau a gwybodaeth "uwch" neu "arbenigol" ynghylch iechyd meddwl a llesiant (cymharer. LIC, 2015b).

**Ffigur 5.1. Y Cylch Ymyrryd a Chymorth**



5.2 Mae'r model hwn yn golygu bod:

- angen i bob aelod o staff allu nodi y gallai fod gan ddisgybl anawsterau iechyd meddwl (ac felly i fod yn ymwybodol o'i rôl a'i gyfrifoldebau); er enghraifft, nododd rhai ysgolion fod yr hyfforddiant ynghylch ACE ac iechyd meddwl yn golygu bod y staff yn meddwl am achosion ymddygiad heriol, ac yn eu deall yn well. Golygai hyn, yn hytrach na mynd yn rhwystredig gyda'r plentyn, byddant yn meddwl 'beth mae angen i ni fod yn ei wneud i helpu?';
- bydd y graddau y mae angen i staff hefyd feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i allu asesu disgybl sydd wedi'i nodi fel un ag anawsterau iechyd meddwl posibl, yn dibynnu ar: (i) cymhlethdod a/neu ddifrifoldeb y sawl sy'n cyflwyno (gydag anghenion ysgafn i gymedrol yn cael eu hasesu gan yr ysgol ac achosion mwy difrifol a/neu gymhleth yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol fel CAMHS) ac (ii) dull eu hysgol o ran asesu a'u rôl yn yr ysgol (e.e. bydd arweinwyr/timau bugeiliol neu ADY yn aml yn gyfrifol am asesu anawsterau ysgafn i gymedrol);

- yn yr un modd, bydd i ba raddau y mae angen i staff gael sgiliau a gwybodaeth ychwanegol ac weithiau sgiliau a gwybodaeth sy'n fwy arbenigol<sup>33</sup> i allu cefnogi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl yn dibynnu ar: (i) cymhlethdod a/neu ddifrifoldeb y sawl sy'n cyflwyno (gydag anghenion mwy cymhleth yn aml yn gofyn am gymorth mwy arbenigol) a (ii) dull eu hysgol o ran cymorth a'u rôl (e.e. yn aml bydd gan arweinwyr/timau bugeiliol neu ADY gyfrifoldebau am drefnu cymorth, fel grwpiau anogaeth, i ddisgyblion ag anawsterau ysgafn i gymedrol).

5.3 Mae'r rhaniad hwn o ran llafur yn golygu y dylai arbenigedd gael ei ddsbarthu ar draws y system, yn hytrach na disgwyl i bawb fod yn arbenigwr. Dylai hefyd helpu i sicrhau nad yw staff yn gweithredu y tu hwnt i'w cymhwysedd; er enghraifft, nid yw staff ysgol yn arbenigwyr iechyd meddwl, ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny, ac ni ddylent, er enghraifft, ymgymryd â'r rolau diagnostig a therapiwtig a chwaraeir gan wasanaethau arbenigol fel CAMHS. Fel y dywedodd arweinydd bugeiliol mewn ysgol gynradd:

'byddai'n anghywir dweud ein bod yn hyderus. Rydym yn garedig ac yn ofalgar ac rydym yn eu hadnabod [ein disgyblion] yn dda, ond nid ydym yn arbenigwyr ac mae'n broblem nad yw'r arbenigwyr ar gael yn hawdd pan fydd eu hangen arnoch...mae arnom angen y cymorth arbenigol hwnnw pan fydd ei angen arnom'.

5.4 Mae'r model hwn yn golygu y gall dim ond mesur lefelau cyfartalog hyder, sgiliau a gwybodaeth staff roi amcangyfrif rhy isel o gapasiti ysgolion i asesu a chynorthwyo disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Yn lle hynny, byddai mesur hyder, sgiliau a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am asesu a chynorthwyo anawsterau iechyd meddwl yn fesur mwy manwl gywir o gapasiti ysgolion os (a dim ond os) yw systemau ysgolion i nodi ac atgyfeirio disgyblion ar gyfer asesu a chymorth yn gweithio'n dda. Yn yr un modd, gall ymagweddau ysgol gyfan, a drafodir yn adran 7, ei gwneud yn ofynnol cael sgiliau a gwybodaeth staff ehangach.

5.5 Er mwyn i'r model hwn o arbenigedd gwasgaredig weithio, dadansoddiad y tîm gwerthuso yn seiliedig ar y data a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, yw bod angen y canlynol ar ysgolion:

---

<sup>33</sup> h.y. yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth a ddisgwylir gan, er enghraifft, athrawon neu staff cymorth, wrth gynorthwyo disgyblion.

- model hyblyg ac ymatebol o gydweithredu a dysgu proffesiynol i sicrhau bod arbenigedd yn cael ei rannu a'i ddefnyddio fel bod, er enghraifft, yn dilyn asesiad, y rhai sy'n addysgu ac yn cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithredu'r cynllun<sup>34</sup>, ac y gall staff gael mynediad at gymorth amserol (e.e. pan fyddant yn wynebu heriau y tu hwnt i'w cymhwysedd), yr ydym yn eu trafod yn yr adran hon; a
- llwybrau clir ar gyfer asesu mewn ysgolion (e.e. i'r staff hynny mewn ysgolion sydd â mwy o arbenigedd, fel Cydlynwyr ADY a thimau bugeiliol) a'r tu hwnt i ysgolion (e.e. CAMHS), a drafodwn yn adran 6.

### *Damcaniaeth newid y rhaglen beilot*

- 5.6 Nododd damcaniaeth newid wreiddiol y rhaglen beilot (a ddisgrifiwyd yn gynharach): 'darparu cymorth i staff ysgol ar broblemau iechyd meddwl lle mae bylchau yn bodoli' fel y prif ddull ar gyfer sicrhau bod: 'gan staff ysgol fwy o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch problemau iechyd meddwl lefel isel disgyblion a sut i ymdrin â nhw' a bod: 'staff ysgol yn fwy hyderus wrth fynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant disgyblion'.

### **Y safle llinell sylfaen mewn ardaloedd peilot**

#### *Nodi anawsterau iechyd meddwl*

- 5.7 Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion fod staff ysgol yn aml yn disgrifio'r broses o nodi anawsterau iechyd meddwl disgyblion ar sail ymddygiad disgyblion. Amlygodd rhai aelodau o staff bwysigrwydd perthnasoedd personol o ran gwybod beth yw cyflwr emosiynol disgybl a nodi nad oedd rhywbeth yn iawn. Fel yr esboniodd un cyfwelai: 'rydym yn adnabod ein disgyblion' ac ystyriwyd bod hyn yn gryfder allweddol. Yn aml, ystyriwyd bod staff cymorth a oedd, fel y nododd pennaeth cynorthwyol un ysgol, yn 'rheng flaen', yn chwarae rôl allweddol yma. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau Estyn (yn eu hadolygiad diweddar o lesiant) bod ysgolion sy'n effeithiol o ran hybu llesiant yn sicrhau bod: 'staff yn mynd ati i fod

<sup>34</sup> O ystyried y nifer mawr o ddisgyblion ag anawsterau iechyd meddwl (a amlinellwyd yn y cyflwyniad) mae'n debygol iawn y bydd yr holl athrawon a'r rhan fwyaf o staff cymorth yn addysgu ac yn cynorthwyo disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Bydd angen iddynt ddeall yr anawsterau ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a/neu newidiadau i'w harfer neu amgylchedd ystafell ddosbarth sy'n ofynnol. Gallai'r mathau hyn o sgiliau a gwybodaeth gael eu caffael pan fo angen (e.e. yn dilyn asesiad a chynllun a nododd gryfderau'r disgybl, achosion sylfaenol eu hanawsterau, a'r cymorth sydd ei angen).

yn gadarnhaol gyda disgyblion yn eu rhyngweithiadau cynnar, gan gyfarch disgyblion wrth eu henw, gwenu, cynnig presenoldeb cysurlon a nodi'n gyflym rywun a allai elwa o gymorth ychwanegol' (Estyn, 2019, t.14).

- 5.8 Yn ogystal, nododd rhai ysgolion uwchradd yn arbennig broblemau iechyd meddwl drwy ddadansoddi data neu arolygon o ddisgyblion fel Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS). Roedd y dull, sydd wedi'i wreiddio mewn dadansoddiad systematig o ddata, fel arfer, yn seiliedig ar 'symptomau' neu 'faneri coch' (fel presenoldeb gwael neu broblemau ymddygiad) neu nodi ACE, a byddai'n ategu nodi drwy systemau bugeiliol. Disgrifiodd nifer o ysgolion uwchradd hefyd sut roedd cyfarfodydd tîm wythnosol yn dod â gwahanol staff at ei gilydd (yn fwyaf nodedig staff bugeiliol), ac mewn rhai achosion gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau ieuencid, a'r Swyddog Lles Addysg (SLIA), i drafod plant yr oeddent yn pryderu amdanynt.

**Astudiaeth achos 3 - Nodi disgyblion sydd mewn perygl o ddatblygu anawsterau iechyd meddwl, neu sydd ag anawsterau iechyd meddwl – profiad un ysgol**

Drwy'r ymchwil ansoddol, disgrifiodd un ysgol sut y mae'n anfon staff i ysgolion cynradd sy'n ei bwydo er mwyn casglu gwybodaeth mewn cysylltiad â Chydlynwyr ADY, felly: 'rydym fel arfer yn cael ein paratoi ar gyfer plant y gallem fod yn pryderu amdanynt'. Mae pennaeth blwyddyn 7 yn coladu'r wybodaeth gan ysgolion cynradd, sy'n cynnwys grwpiau cyfeillgarwch a chryfderau disgyblion yn ogystal ag unrhyw bryderon ac mae'n cael ei rhannu â staff ar sail angen i wybod.

Disgrifiodd y pennaeth sut roedd yr ysgol wedi datblygu arolwg ACE ar gyfer blwyddyn 7 i geisio nodi faint o ACE sydd gan ddisgybl. Gwnaethant ei dreialu y llynedd a byddant yn ei wneud eto eleni a'i ddefnyddio i lywio lefelau'r cymorth a ddarperir. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn bwysig, oherwydd fel y disgrifiodd yr ysgol, weithiau mae anghenion yn amlwg iawn ond mae'r arolwg yn eu helpu i nodi'r rhai sydd wedi mynd i'w cragen - 'y plant cudd'.

Mae canolfan llesiant yn yr ysgol ac mae'r holl staff yn cyfarfod unwaith yr wythnos i drafod anghenion. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu ac yn chwilio am

newidiadau mewn ymddygiad neu hwyliau isel, ac yna byddant yn anfon y manylion i'r ganolfan llesiant, sy'n cadw rhestr o asiantaethau a rhieni. Mae'r ymateb yn dibynnu ar ba lefel y credant sy'n briodol; os ydynt yn bryderus iawn bydd yr ysgol yn ffonio'r rhiant, y meddyg teulu neu ei chyswllt CAMHS. Mae ffyrdd eraill o nodi problemau posibl yn dod o wybodaeth gan y disgybl, gan eu ffrindiau, a/neu staff yn codi pryderon. Weithiau, mae staff hefyd yn cael gwybod am negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a all dynnu eu sylw at broblemau.

Er mwyn cynorthwyo disgyblion, mae'r ysgol yn datblygu polisi darpariaethau sy'n edrych ar yr holl bethau y gallant eu darparu, ar 3 lefel:

- haen 1. cymorth lefel isel, gyda rhaglenni anogaeth, cymorth i ofalwyr ifanc;
- haen 2. sy'n cynnwys CAMHS, gwasanaeth ieuencid a chyrrff cymorth eraill; a
- haen 3. y pryder mwyaf, sy'n cynnwys y seicolegydd addysg a'r SLIA ac sy'n cynnwys y lefel uchel o adrodd ac amserlenni wedi'u haddasu.

Mae'r ysgol wedi nodi disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar bob lefel ac maent yn datblygu pecyn cymorth ar gyfer pobl disgybl a'r nod yw sicrhau bod pobl disgybl ac yn cael ei gynorthwyo ar y lefel gywir, gyda'r gallu i symud i fyny ac i lawr lefelau wrth i'w anghenion, neu ddealltwriaeth yr ysgol o'i anghenion, newid.

5.9 Er bod yr ysgol yn yr astudiaeth achos (3) o'r farn bod y dull hwn o sgrinio yn werthfawr, cafodd y dull ei gwestiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru na'r Ganolfan ACE yng Nghymru yn cefnogi'r defnydd o ddulliau sgrinio a chyfrif ACE ar gyfer disgyblion unigol. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon bod sgrinio yn y modd hwn yn creu'r perygl o labelu, a stigmatiddio plant unigol, ac y gallai achosi niwed i ddisgyblion, am ei fod yn amlygu'r anawsterau y maent wedi'u profi.<sup>35</sup>

5.10 Fel y dengys astudiaeth achos 3, mae ymchwil ansoddol gydag ysgolion yn dangos sut y mae cyfuno ffocws ar berthynas fugeiliol a data yn cynyddu hyder ysgolion (a

<sup>35</sup> O ystyried yr heriau hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynyddol yn cynnig dulliau 'sy'n cael eu llywio gan drawma' er mwyn helpu i symud staff addysg i ffwrdd oddi wrth gyfrif ACE a chategoreiddio a thargeddu disgyblion unigol, a thuag at ddatblygu dull mwy cyffredinol o ran y ffordd y maent yn ymwneud â'r holl ddisgyblion a chydabod eu hanghenion ac ymateb iddynt. O'i ddefnyddio'n gyson, mae'r math hwn o ddull yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael budd, p'un a yw wedi profi trawma ai peidio.


staff) bod disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl yn cael eu nodi. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau Estyn bod ysgolion da yn defnyddio gwybodaeth “am lesiant disgyblion i wella profiad ysgol y disgyblion” (Estyn, 2019, t.17).

5.11 Yn ogystal, mewn ychydig o achosion nododd ysgolion y canlynol:

- bod pobl ifanc yn hunanatgyfeirio, neu mae eu rhieni ac, mewn rhai achosion, eu ffrindiau, yn codi pryderon;
- cafodd gwybodaeth ei throsglwyddo i ysgolion, yn fwyaf cyffredin drwy gynllunio pontio gydag ysgolion cynradd, neu yn achos ysgolion cynradd, drwy ymweliadau cartref â phlant cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

5.12 Roedd llawer o staff yn yr ardaloedd peilot yn weddol hyderus neu'n hyderus iawn y gallent nodi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Fel y dengys graff 5.1, nododd yr arolwg fod tua thri chwarter (74 y cant) o'r holl staff ysgol naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent nodi y gallai fod gan ddisgybl anghenion iechyd meddwl sydd heb eu diwallu. Roedd y gyfran sy'n cytuno'n gryf yn is, ar 14 y cant.

**Graff 5.1. Ymatebion staff i'r cwestiwn: 'Rwy'n hyderus y gallaf nodi ei bod yn bosibl bod gan ddisgybl anghenion iechyd meddwl heb eu diwallu'**



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=351)*

- 5.13 Roedd ymchwil ansoddol gydag ysgolion yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg bod y rhan fwyaf o staff yn hyderus, ond cadarnhaodd fod lleiafrif nad oeddent yn hyderus. Yn ogystal, rhoddodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion un esboniad am ganfyddiadau'r arolwg bod staff mewn ysgolion cynradd yn tueddu i fod yn fwy hyderus na staff mewn ysgolion uwchradd<sup>36</sup>; nododd staff mewn ysgolion cynradd ar y cyfan fod ganddynt berthynas fugeiliol agosach â disgyblion (gan olygu eu bod yn eu hadnabod yn well) na staff mewn ysgolion uwchradd.
- 5.14 Fodd bynnag, amlygodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd sut y gellid, er gwaethaf ymdrechion ysgolion, colli rhai disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Roedd y rhain yn cynnwys yr 'elyrch', fel y'u gelwir, sef disgyblion a oedd yn edrych yn iawn ond a oedd yn padlo fel lladd nadroedd o dan yr wyneb. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod hyn yn fwy tebygol mewn ysgolion uwchradd, lle roedd nifer y disgyblion yn fwy a pherthnasoedd â'r staff yn gyffredinol yn llai agos a lle roedd y staff yn llai hyderus o ran nodi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Nodwyd hefyd efallai na fyddai anawsterau'n cael eu nodi hyd nes iddynt waethygu (ac amlygu eu hunain mewn ymddygiad). Yn ogystal, mewn ysgolion a oedd wedi profi hunanladdiad, bu myfyrio a phryder y gallai arwyddion fod wedi'u colli, ond sicrwydd hefyd gan wasanaethau bod ysgolion (yn yr achosion hyn) wedi gwneud popeth y gallent.
- 5.15 Roedd rhywfaint o awgrym hefyd gan rai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw y gellid colli disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl y tu allan i addysg brif ffrwd hefyd. Disgrifiwyd bod cysylltiadau ysgolion ag unedau cyfeirio disgyblion lle roedd llawer o ddisgyblion â phroblemau ymddygiadol (ac a allai fod ag anawsterau iechyd meddwl hefyd) fel rhai *ad hoc*. Disgrifiodd seicolegydd addysg er y gallant ymweld â phobl ifanc gartref, nid oeddent yn cael atgyfeiriadau gan y rhai sy'n gwrthod mynd i'r ysgol oherwydd: 'nid yw'r rhain yn achosi problem [i ysgolion]'.

#### *Asesu anghenion*

- 5.16 Roedd hyder staff yn eu gallu eu hunain i asesu anawsterau iechyd meddwl disgyblion yn fwy cymysg. Fel y dengys Graff 5.2, roedd tua dwy ran o dair (66 y


---

<sup>36</sup> Roedd staff ysgolion cynradd yn fwy hyderus na staff ysgolion uwchradd, gydag 19 y cant o staff ysgolion cynradd yn cytuno'n gryf, a 61 y cant yn cytuno, pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn hyderus y gallant nodi efallai fod gan ddisgybl anghenion iechyd meddwl heb eu diwallu, o gymharu â 10 y cant o staff ysgol uwchradd yn cytuno'n gryf, a 58 y cant yn cytuno.



cant) o'r holl staff naill ai'n cytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n hyderus wrth drafod anghenion iechyd meddwl a llesiant gyda disgyblion unigol. Fodd bynnag, dywedodd cryn dipyn yn llai eu bod yn teimlo'n hyderus wrth siarad â rhieni neu ofalwyr am yr anghenion hyn, gydag ychydig dros hanner (56 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Roedd y gyfran a oedd yn cytuno'n gryf eto yn is mewn ymateb i'r ddau gwestiwn.

**Graff 5.2. Hyder staff wrth gyfathrebu â disgyblion a rhieni neu ofalwyr**



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=350-351)*

- 5.17 Fel yr amlinellwyd uchod, ni fyddai disgwyl i bob aelod o staff asesu anghenion disgyblion, ac roedd naw o bob deg o staff a holwyd (90 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn hyderus wrth nodi pryd yr oedd angen cyngor neu gymorth arnynt i ddeall anhawster iechyd meddwl disgybl yn well neu i fynd i'r afael â hyn. Awgrymodd ymchwil ansoddol gyda staff ysgol mai prin oedd yr athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, a fyddai'n ceisio asesu anawsterau disgybl. Dywedodd staff ysgol ac asiantaethau cymorth fod rhai staff ysgol uwchradd yn ei chael yn anodd cael sgrysiâu anodd â disgyblion ac felly roeddent yn osgoi'r broblem. Yn lle hynny, pan fyddai pryder yn cael ei nodi, roedd fel arfer yn cael ei atgyfeirio ar unwaith i dîm neu arweinydd bugeiliol yr ysgol.

- 5.18 Amlygodd ymchwil ansoddol sut roedd hyder staff yn gysylltiedig â'r profiad o nodi problemau iechyd meddwl ac ymdrin â nhw a'u rôl (ac felly, er enghraifft, y dysgu proffesiynol a gyflawnwyd mewn perthynas â'u rôl). Adlewyrchwyd hyn mewn ymatebion i'r arolwg, a nododd fod staff bugeiliol a Chydlynwyr ADY/Cydlynwyr AAA yn fwy hyderus na grwpiau eraill o staff o ran asesu anghenion<sup>37</sup>.
- 5.19 Cadarnhaodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion ganfyddiadau'r arolwg, sef bod staff ar y cyfan yn fwy hyderus yn trafod iechyd meddwl a llesiant gyda disgyblion eu hunain nag yr oeddent yn trafod iechyd meddwl a llesiant disgyblion gyda rhieni neu ofalwyr. Roedd y bwch hyder yn arbennig o amlwg ar gyfer staff ysgolion uwchradd<sup>38</sup>.
- 5.20 Amlygodd yr ymchwil ansoddol hefyd nad yw hyder yn ddigon, mae ysgolion yn aml yn lleoedd prysur a swnllyd ac mae'n aml yn anodd dod o hyd i'r amser a'r lle i siarad â disgyblion neu rieni neu ofalwyr i drafod a dechrau asesu anawsterau posibl. Disgrifiodd athro ysgol gynradd sut:
- ‘y bore yma daeth merch fach ataf a rhoddodd nodyn i mi a oedd yn dweud ‘a gaf i siarad â chi os gwelwch yn dda?’. Mae gennyf ddsbarth llawn, ni allaf eu gollwng i gyd a mynd allan gyda hi. Rhaid i mi aros nes y gallaf ddod o hyd i amser yn ddiweddarach, a gobeithio na fydd neb yn torri ar ein traws’.
- Yn yr un modd, disgrifiodd athrawes ysgol uwchradd sut yr oedd wedi cael yr hyfforddiant o'r rhaglen beilot, a'i bod bellach yn gwybod sut y dylai ymateb pan ddaw disgybl ati: ‘ond mae 30 arall y tu allan i'r drws yn aros i ddod i mewn.’
- 5.21 Awgrymodd ymchwil ansoddol, o ystyried nifer y disgyblion a nodwyd y gallai fod ganddynt anawsterau iechyd meddwl, ynghyd ag anawsterau o ran cael mynediad at rai gwasanaethau cymorth arbenigol fel seicolegwyr addysgol (pwnc yr adran nesaf), gorfodwyd timau bugeiliol a/neu ADY i frysbennu disgyblion, a phenderfynu pa ddisgyblion i'w blaenoriaethu ar gyfer mynediad at wasanaethau arbenigol. Mynegodd rhai gwasanaethau bryderon y gallai hyn olygu bod ysgolion yn blaenoriaethu mynediad i'r disgyblion mwyaf aflonyddgar, yn hytrach na

---

<sup>37</sup> Roedd staff bugeiliol a Chydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY yn fwy hyderus na grwpiau staff eraill o ran siarad â rhiant neu ofalwr am iechyd meddwl eu plentyn (roedd 69 a 72 y cant yn y drefn honno yn cytuno neu'n cytuno'n gryf) o gymharu â 45 y cant o grwpiau staff eraill a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.

<sup>38</sup> Roedd 65 y cant o staff cynradd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hyderus yn gwneud hyn, o gymharu â 44 y cant o staff ysgolion uwchradd.


blaenoriaethu disgyblion a allai fod ag anghenion mwy, ond a oedd yn llai aflonyddgar.

*Cael gafael ar gyngor a chymorth ychwanegol pan fo angen*

5.22 Roedd y rhan fwyaf o staff a holwyd (tua 90 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn hyderus eu bod, pan oedd angen, yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor neu gymorth pe baent yn nodi disgybl a allai fod ag anawsterau iechyd meddwl. Mae graff 5.3 yn amlinellu'r gwasanaethau y mae staff wedi eu nodi y byddent yn mynd iddynt am gyngor neu gymorth pellach yn yr ysgol; dewisodd tua dwy ran o dair (65 y cant) Gydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY a dewisodd hanner (50 y cant) aelod o'r tîm bugeiliol.

**Graff 5.3 At bwyllydd y byddai staff yn mynd atynt i gael rhagor o gyngor a chymorth pan fyddant yn nodi y gall fod anawsterau iechyd meddwl gan ddisgybl**

(Gallai'r staff ddewis mwy nag un opsiwn, felly gall y cyfanswm fod yn fwy na 100%).



\*Yn bennaf, roedd yr enghreifftiau yn cynnwys Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth, Swyddog Amddiffyn Plant, Seicolegydd Addysg, Swyddog Diogelu ac aelod o staff Teuluoedd yn Gyntaf.

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=348)*

5.23 Dangosodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau sut, yn unol â'r model 'ymateb graddedig', er mwyn cynorthwyo anawsterau iechyd meddwl disgyblion, roedd ysgolion yn defnyddio cymorth mewnol (fel y gwasanaethau a restrwyd uchod), a chymorth allanol (fel cymorth gan seicolegwyr addysgol a/neu CAMHS, a drafodir yn adran 5; er enghraifft, disgrifiodd pennaeth cynorthwyol ysgol uwchradd:

'rydym yn creu "Hwb Bugeiliol" ym mis Medi. Bydd ganddo bedair ystafell, un ar gyfer staff, un ar gyfer gwaith grŵp a dwy ystafell lai ar gyfer gwaith un i un a bydd yn cynnwys fy hun, penaethiaid blwyddyn a'r gweithiwr Cynnal, cynorthwydd addysgu ar lefel tri a'r gweithiwr ieuencid a fydd yn cael mwy o oriau i dri diwrnod yr wythnos. Bydd yn dda cael y tîm bugeiliol i gyd mewn un lle'.

5.24 Gydag ambell eithriad, roedd staff bugeiliol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn hyderus yn eu gallu i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion. Amlygodd ymchwil ansoddol sut roedd hyder staff yn gysylltiedig â phrofiad o ddelio ag anawsterau iechyd meddwl. Fel y disgrifiodd rheolwr cymorth disgyblion mewn ysgol uwchradd: 'mae ein tîm bugeiliol wedi gwella dros amser, rydym wedi cael hyfforddiant ac rydym yn brofiadol. Rydym bellach yn eithaf da wrth weithio gyda disgyblion ag anhwylderau bwyta, yn anffodus'. Nid oedd cwestiwn uniongyrchol yn yr arolwg ar hyder staff o ran cynorthwyo disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl, ac efallai ei bod yn werth ystyried ychwanegu cwestiwn o'r fath i'r arolygon canol a diwedd llinell.

5.25 Fodd bynnag, amlygodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion sut, er gwaethaf yr hyder mewn timau AAA a bugeiliol, roedd y cynnydd mewn anawsterau iechyd meddwl (h.y. problemau iechyd meddwl ond nad ydynt yn salwch meddwl<sup>39</sup>), wedi herio ysgolion. Roedd hyn yn golygu, hyd yn oed pan oedd staff yn hyderus, fel y dywedodd un arweinydd ysgol: 'mae gennym ddigon o bobl ag arbenigedd, ond dim amser – mae hyn yn allweddol.' Esboniwyd eu bod yn cael mynediad at hyfforddiant: 'ond y cwestiwn mawr yw a oes gennych yr amser i weithredu'r hyn a

---

<sup>39</sup>Mae "problemau iechyd meddwl" yn disgrifio "profiadau sy'n ymyrryd â gweithredu o ddydd i ddydd. Gall hyn fod ar lefel y gellir ei diagnosio'n glinigol, ond gall hefyd fod yn is-glinigol." Mewn cyferbyniad, defnyddir "salwch meddwl" i "ddisgrifio'r problemau iechyd meddwl mwy difrifol a pharhaus sy'n fwy tebygol o gael diagnosis clinigol ac yn ei gwneud yn ofynnol cael triniaeth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol." (tt. 12-13, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

ddysgwch.' At hynny, roedd nifer bach o staff mewn ychydig o ysgolion, a gyfwelwyd yn ystod ymweliadau ag ysgolion, yn cael trafferth ymdopi â'r galw cynyddol ac nid oedd hyder ganddynt ac roeddent, fel y dywedodd un dirprwy bennaeth: 'yn hedfan yn ddall'. O ystyried y nifer bach o staff a gyfwelwyd, a'r tebygolrwydd o duedd samplu (gydag, er enghraifft, y rhai sydd â'r diddordeb mwyaf ac sy'n ymwneud â chynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion, yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn cyfweliadau) nid yw'n bosibl rhoi barn ynghylch pa mor gyffredin yw'r broblem hon.

- 5.26 Nododd yr ymchwiler ansoddol hefyd y costau ar gyfer ysgolion sy'n buddsoddi mewn cymorth ac arbenigedd mewnol; er enghraifft, yn ogystal â chostau hyfforddiant, fel yr esboniodd un pennaeth ysgol gynradd: 'rydym wedi newid rolau dau o'n cynorthwywyr addysgu i rai sy'n canolbwyntio ar lesiant ac mae hyn yn wych o ran darparu ar gyfer iechyd meddwl a llesiant disgyblion, ond mae'n effeithio ar addysgu oherwydd nid oes gennym unrhyw beth i gymryd lle'r cymorth addysgu hwnnw (yr oeddent yn arfer ei ddarparu)'. Yn yr un modd, i rai ysgolion a gwasanaethau, roedd y model o gyfarfodydd amlasiantaeth i helpu i gydlyn cymorth yn cael ei ystyried yn foethusrwydd, rhywbeth gwerthfawr, ond rhywbeth nad oedd staff ysgol a rhai gwasanaethau yn gallu dod o hyd i amser i fynd iddo.

### **Dulliau a gweithgarwch y rhaglen beilot**

- 5.27 Fel y dengys tabl 5.1, mae'r tair ardal beilot wedi ceisio cynyddu sgiliau a gwybodaeth staff ynghylch anawsterau iechyd meddwl drwy gymysgedd o hyfforddiant ac ymgynghori.

**Tabl 5.1 Dulliau peilot o gynyddu sgiliau a hyder staff**

Ardal	Hyfforddiant	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth
Blaenau Gwent	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes
Powys	Oes	Rhywfaint*
Torfaen	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Nid ar y dechrau, ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu

\* Ym Mhowys, mae CAMHS yn darparu cymorth ac ymgynghori i'r ddwy ysgol uwchradd drwy ymweliad misol gan weithiwr cymorth CAMHS, felly roedd yr elfen hon yn llai datblygedig i ddechrau<sup>40</sup>. Fodd bynnag, mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth bellach wedi dechrau ymweld ag ysgolion i ddarparu ymgynghoriadau.

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

### *Ceredigion*

5.28 Yng Ngheredigion, mae dull haenog o hyfforddi wedi'i ddatblygu, ac mae dewislen hyfforddiant wedi'i rhoi i'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae hyn wedi cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant. Y tair haen yw:

- haen 1, modiwl e-ddysgu ar-lein sy'n rhoi cyflwyniad i nodi anawsterau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc ar gyfer staff ysgol, ac sydd i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2020;
- haen 2, a gyflwynir wyneb yn wyneb, drwy gyrsiau sydd fel arfer yn para 30-60 munud, gan roi hyfforddiant mewn meysydd fel ymwybyddiaeth ofalgar, a chymorth gyda straen a phryder<sup>41</sup>;
- mae haen 3 yn hyfforddiant mwy rhyngweithiol, a gyflwynir drwy sesiynau sydd fel arfer yn para am 60-120 munud, ac mae'n rhoi offer i staff i'w ddefnyddio

<sup>40</sup> Roedd ymgynghoriadau wedi'u sefydlu eisoes gydag ymarferwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol Powys (PCMHS) yn yr ysgolion uwchradd.

<sup>41</sup> Mae'r rhestr lawn yn cynnwys: gwasanaeth CAMHS; Ymwybyddiaeth ofalgar; Straen; Pryder; Hwyliau Isel ac Iselder; Hunan-barch; Anhwylderau Bwyta; Hunaniaeth o ran Rhywedd; Hunan-niweidio a Meddwl am Hunanladdiad; a'r Pum Ffordd at Lesiant.

mewn gwahanol sefyllfaoedd fel bod staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r technegau hyn ar gyfer ymyriad lefel isel<sup>42</sup>.

5.29 Fel y dengys tabl 5.2, cafwyd 517 o gyfranogwyr ar hyfforddiant Haen 2 a 41 o gyfranogwyr ar gyrsiau hyfforddi Haen 3. I roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer hyn, mae 585 o athrawon a thua 537 o staff cymorth yng Ngheredigion<sup>43</sup>. Fodd bynnag, ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi a chyfanswm nifer y staff ysgol, gan ei bod yn ymddangos bod llawer o'r cyfranogwyr wedi cwblhau mwy nag un o'r cyrsiau.

**Tabl 5.2. Nifer y cyfranogwyr a aeth i hyfforddiant Haen 2 a Haen 3 yn ardal Ceredigion**

Grŵp staff	Haen 2	Haen 3
Staff ysgol gynradd	173	0
Staff ysgol uwchradd	344	29
Nyrsys ysgol	0	12
Cwnselwyr Ysgol	3	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>520</b>	<b>41</b>

#### *De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru*

5.30 Yn Ne-ddwyrain a Chanolbarth Cymru, mae hyfforddiant wedi canolbwyntio ar faterion iechyd meddwl drwy hyfforddiant YMHA a thrwy sesiynau ar lesiant staff (fel y gweithdai Pum Ffordd at Lesiant ac Mae Pawb yn Bwysig<sup>44</sup>). Yn ogystal, datblygwyd hyfforddiant modiwlaid gan gwmpasu meysydd fel datblygiad seicolegol yn ystod plentyndod a deall trallod ac ymateb iddo gan dîm a arweinir gan seicoleg ac yna cafodd ei dreialu yng ngwanwyn a haf 2019. Y bwriad yw y

<sup>42</sup> Mae'r rhestr lawn yn cynnwys: Technegau Ymwybyddiaeth Ofalgar; Pryder; Rheoli Straen; Hwyliau Isel ac Iselder; Hunan-barch; Hunan-niweidio a Meddwl am Hunanladdiad; Ymarfer Asesu/Atgyfeirio; Ymarfer Myfyriol; a Cael y Ffeithiau.

<sup>43</sup> Ffynhonnell: StatsCymru: [athrawon yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#), a [Staff cymorth yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#). Mae nifer y staff cymorth yn cynnwys lefel uwch; cynorthwyyr addysgu, staff cymorth anghenion arbennig a staff cymorth bugeiliol, ond nid yw'n cynnwys staff cymorth arall fel technegwyr TG, labordai, gweithdai neu adnoddau, swyddogion arholiadau a rheolwyr busnes.

<sup>44</sup> Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau blasu mewn meysydd fel ymwybyddiaeth ofalgar, llesiant a rhoi a derbyn gofal.

bydd y cyrsiau modiwlaid ar gael i ysgolion am ddim, neu am gost isel iawn, ac y gellir eu cyflwyno mewn slotiau gyda'r hwyr.

- 5.31 Fel y dengys tablau 5.3 a 5.4, mae cyfanswm o 112 o bobl wedi cwblhau'r cwrs hyfforddiant YMHFA 2 ddiwrnod<sup>45</sup> yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19 ac aeth 693 o bobl i'r gweithdy Pum Ffordd at Lesiant 60-75 munud (sy'n canolbwyntio'n bennaf ar lesiant staff, ond sydd hefyd yn berthnasol i ddisgyblion). I roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer hyn, mae 755 o athrawon a thua 490 o staff cymorth yn Nhorfaen a 506 o athrawon a thua 620 o staff cymorth ym Mlaenau Gwent<sup>46</sup>. Mae'r ffigurau ar gyfer De Powys yn fwy anodd i'w meintoli, gan mai dim ond rhan o'r awdurdod lleol sydd wedi'i chynnwys yn y rhaglen beilot. Mae hyn yn golygu bod tua phedwar y cant o staff ysgol yn y rhanbarth wedi cwblhau hyfforddiant YMHFA ac os ydym yn tybio bod pob cyfranogwr yn unigryw (fel e.e. nad yw'r niferoedd yn cynnwys staff unigol sy'n cwblhau sawl cwrs) mae tua chwarter o staff ysgol wedi ymgysylltu â'r sesiynau llesiant (mae'r diffyg data ar gyfer De Powys yn cymhlethu'r cyfrifiadau)<sup>47</sup>.

---

<sup>45</sup> Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant wedi'i gyflwyno dros ddau ddiwrnod yn olynol, ac eithrio un ysgol lle cafodd y cwrs ei gynnal fel pedair sesiwn tair awr a hanner gyda'r hwyr dros gyfnod o bum wythnos.

<sup>46</sup> Ffynhonnell: StatsCymru: [athrawon yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#), a [Staff cymorth yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori](#). Mae nifer y staff cymorth yn cynnwys lefel uwch; cynorthwywyr addysgu, staff cymorth anghenion arbennig a staff cymorth bugeiliol, ond nid yw'n cynnwys staff cymorth arall fel technegwyr TG, labordai, gweithdai neu adnoddau, swyddogion arholiadau a rheolwyr busnes.

<sup>47</sup> Mae 93 o ysgolion ym Mhowys. Os tybiwn fod yr un nifer o staff ar gyfartaledd ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ym Mhowys, byddai hyn yn awgrymu bod yr 13 o ysgolion yn ne Powys yn cyfrif am tua 14% o'r holl staff ym Mhowys. Mae 1,059 o athrawon ac 858 o staff cymorth ym Mhowys, sy'n awgrymu tua 150 o athrawon a 120 o staff cymorth yn ne Powys.



**Tabl 5.3 Nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant YMHFA ym mlwyddyn academaidd 2018-19 ym Mlaenau Gwent, Torfaen a De Powys**

<b>Grŵp staff</b>	<b>Nifer y cyfranogwyr</b>
Staff Ysgol (Athrawon, cynorthwywyr addysgu ac ati.)	87
Nyrsys Ysgol (Gwent)	12
Gwasanaeth Ieuenctid (Blaenau Gwent)	5
SLIA (Torfaen)	3
Cydlynwyr Ysgolion Iach (Blaenau Gwent a Thorfaen)	3
Arall (Seicolegydd Cynorthwyol; Nyrs sy'n Fyfyriwr)	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>112</b>

*Ffynhonnell: Rhaglen beilot Canolbarth a De Cymru*

**Tabl 5.4 Nifer y cyfranogwyr a aeth i'r Gweithdy Pum Ffordd at Lesiant ym mlwyddyn academaidd 2018-19 ym Mlaenau Gwent, Torfaen a De Powys**

<b>Lleoliad</b>	<b>Nifer yr ysgolion sydd wedi cynnal y gweithdy</b>	<b>Nifer y Staff Ysgol sydd wedi cymryd rhan yn y gweithdy</b>
Cynradd	33	507
Uwchradd	5	168
Rhwydwaith Ysgolion Iach	Dd/B	18
<b>Cyfanswm</b>	<b>38</b>	<b>693</b>

*Ffynhonnell: Rhaglen beilot Canolbarth a De Cymru*

### *Gogledd Cymru*

5.32 Yng Ngogledd Cymru, mae'r model hyfforddi yn cwmpasu pedwar maes:

- polisi ysgol gyfan;
- adolygiad rheoli ysgol – hunanwerthusiad yr ysgol;
- Straen yn y Gweithle a'r Pum Ffordd at Lesiant; ac
- YMHFA

5.33 O ran manteisio ar y rhain, y sesiynau Straen yn y Gweithle a'r Pum Ffordd at Lesiant a'r hyfforddiant YMHFA sydd wedi denu'r nifer mwyaf o gyfranogwyr o ysgolion. Mae Tabl 5.5 yn dangos cyfanswm nifer y staff a hyfforddwyd dros y

flwyddyn ddiwethaf. I roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer hyn, mae 892 o athrawon a thua 760 o staff cymorth yn Sir Ddinbych a 1,099 o athrawon a thua 1,172 o staff cymorth yn Wrecsam. Os tybiwn fod y data yn cyfrif pob cyfranogwr unwaith yn unig, mae hyn yn golygu bod tua thraean o staff ysgolion yn y rhanbarth wedi ymgysylltu â'r hyfforddiant. Mae'r nifer sy'n manteisio ar yr adolygiad rheoli ysgol wedi bod yn arafach, ac erbyn mis Tachwedd 2019, dim ond wyth ysgol oedd wedi manteisio arno, er gwaethaf ymdrechion y rhaglen beilot i roi cyhoeddusrwydd iddo. Yn gyffredinol, darperir hyfforddiant yn ystod cyfarfodydd staff (ar gais ysgolion) ac adroddir bod arian ôl-lenwi ar gyfer staff sy'n mynd i'r hyfforddiant wedi annog a galluogi presenoldeb.

**Tabl 5.5 Cyfanswm nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw a'r staff a hyfforddwyd - Medi 2018-Tachwedd 2019 yng Ngogledd Cymru**

Lleoliad	Nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw	Nifer y Staff Ysgol yr ymgysylltwyd â nhw
Cynradd	66	396
Uwchradd	21	956
<b>Cyfanswm</b>	<b>87</b>	<b>1352</b>

*Ffynhonnell: Rhaglen beilot Gogledd Cymru*

#### *Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth*

5.34 Fel y dengys tabl 5.1, roedd ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn rhan o strategaethau addysg a hyfforddiant ym Mlaenau Gwent, Powys, Ceredigion a Thorfaen. Yng Ngogledd Cymru, a oedd â chysylltiadau cryfach rhwng CAMHS ac ysgolion cyn y rhaglen beilot, mae gwasanaeth ymgynghori ar fin cael ei gyflwyno i glwstwr o ysgolion. Mae ymgynghoriadau wedi galluogi ymarferwyr peilot i ddarparu cyngor wedi'i dargedu a phendant ar ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion a chymorth ar gyfer y rhain. Trafodir y model ymgynghori yn fanylach yn adran 6.

#### **Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd**

5.35 Pan gawsant eu holi yng ngwanwyn 2019, roedd tua un o bob pump (18 y cant) o'r holl staff yn yr arolwg wedi cael hyfforddiant. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r dystiolaeth o raglenni peilot Canolbarth a De Cymru a Gogledd Cymru (sy'n


cwmpasu cyfnod amser hwy na'r arolwg llinell sylfaen) yn awgrymu bod rhwng tua chwarter a thraean o staff ysgol wedi ymgysylltu ag o leiaf rhywfaint o hyfforddiant, sy'n cwmpasu anawsterau iechyd meddwl disgyblion a hefyd straen a llesiant staff (a drafodir ymhellach yn adran 7). O ystyried gwahaniaethau yn hyd yr hyfforddiant, a hefyd maint, nifer yr ysgolion a daearyddiaeth pob ardal beilot, ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol o'r niferoedd a hyfforddwyd ym mhob ardal beilot.

- 5.36 Mae Graff 5.4 yn dangos bod tair rhan o bump (60 y cant) o'r staff a holwyd a oedd wedi cael hyfforddiant naill ai'n cytuno neu'n cytuno'r gryf bod yr hyfforddiant a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot wedi cynyddu eu gwybodaeth am broblemau iechyd meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth ohonynt a sut i ddelio â nhw. Roedd tua thraean (30 y cant) yn amhendiant am nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu mathau eraill o hyfforddiant (e.e. hyfforddiant ar lesiant staff) a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot a bydd y gwahanol safbwyntiau ar effeithiolrwydd hyfforddiant yn cael eu trafod ymhellach mewn arolygon dilynol ac ymweliadau ag ysgolion<sup>48</sup>. Mae data gwerthuso cyfranogwyr a ddarparwyd gan y rhaglenni peilot yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr hyfforddiant, er bod ymatebion i hyfforddiant neu sesiynau'n canolbwyntio ar straen a llesiant staff weithiau'n llai cadarnhaol, gyda rhai aelodau o staff yn gweld hyn yn llai perthnasol.

---

<sup>48</sup> Nid oedd hyfforddiant ar straen a llesiant staff yn rhan o fodel rhesymeg y rhaglen beilot ac felly ni chafodd ei ystyried yn yr arolwg llinell sylfaen.

**Graff 5.4 Ymatebion gan staff a gafodd hyfforddiant a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot pan ofynnwyd iddynt a oedd wedi cynyddu eu gwybodaeth am broblemau iechyd meddwl disgyblion a'u dealltwriaeth ohonynt a sut i ddelio â nhw.**



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=78)*

5.37 Ar y cyfan, nododd yr ymchwili ansoddol gydag ysgolion ymateb cadarnhaol neu gadarnhaol iawn gan staff i'r hyfforddiant; er enghraifft, cymharodd y cyfweleion eu profiad o hyfforddiant drwy'r rhaglen beilot, yr oeddent yn teimlo ei fod wedi eu grymuso, â hyfforddiant blaenorol ar iechyd meddwl (a gyflwynwyd gan eraill cyn y rhaglen beilot) lle roeddent wedi dod allan yn teimlo wedi'u datsgilio ac yn bryderus iawn; fel y dywedodd un aelod o dîm bugeiliol ysgol uwchradd:

'mae [enw'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth] yn gwneud i chi deimlo eich bod yn gwneud eich gorau gyda'r offer sydd gennych a'r hyn rydych yn ei wybod. Rwy'n aml yn mynd i gynadleddau lle rydych yn teimlo'n annigonol ond mae'r hyfforddiant gyda [ymarferydd CAMHS Mewngymorth] yn codi eich calon'.

5.38 Cyferbynnodd y cyfwelai hwn yr hyfforddiant YMHA a wnaeth yn flaenorol (gan barti arall), â'r un cwrs wedi'i gynnal gan ymarferwyr CAMHS Mewngymorth a nodwyd eu bod yn gallu ymhelaethu ar yr hyfforddiant a'i gysylltu â'u gwaith (a oedd yn cynyddu ei werth a'i effaith yn sylweddol). Felly roedd ansawdd y cyflwyno yn bwysig a phan gafodd ei gyflwyno'n dda, roedd cynnwys y cwrs YMHA yn cael ei werthfawrogi. Er enghraifft, fel y dywedodd pennaeth blwyddyn mewn ysgol uwchradd:

'roedd y cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl [ieuenctid] yn wych – mae'n rhoi sicrwydd i chi eich bod yn ei wneud yn gywir – ac mae'n rhoi llawer mwy o hyder i chi ...pan fyddwch yn siarad â disgyblion yn gyson rydych yn gweld y materion a gwmpaswyd yn y cwrs yn codi ac mae gennych ryw syniad ynglŷn â pha mor bell i'w wthio, pa gwestiynau i'w gofyn'.

Awgrymodd ymchwil ansoddol fod hyfforddiant a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot yn cael ei werthfawrogi'n arbennig lle roedd hyfforddiant yr awdurdod lleol ar gyfer staff ysgol wedi'i dorri.

- 5.39 Nododd ymchwil ansoddol, yn unol â'r model o arbenigedd a chyfrifoldebau gwasgareddig a nodwyd uchod, ar y cyfan roedd ysgolion yn targedu hyfforddiant at staff penodol sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl a llesiant yn yr ysgol, fel rolau bugeiliol. Gallai hyn fod yn arbennig o werthfawr i staff sy'n ymwneud ag asesu risg a phenderfynu pa ddisgyblion sydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad at wasanaethau arbenigol. Nododd ymchwil ansoddol hefyd fod hyfforddiant, mewn ychydig o ysgolion, wedi'i ymestyn i staff sy'n gweithio gyda rhieni, oherwydd, fel y disgrifiodd pennaeth cynorthwyol mewn ysgol uwchradd: 'yn aml bydd gan blentyn â phroblem iechyd meddwl deulu â phroblemau iechyd meddwl', ac i staff gweinyddol, a ddisgrifiwyd fel pobl ar y 'rheng flaen' pan fydd rhieni'n dod i'r ysgol.
- 5.40 Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a staff o'r rhaglenni peilot fod cysylltu'r hyfforddiant ag ymgynghoriadau yn werthfawr; er enghraifft, gellid defnyddio cyngor ac ymgynghoriadau i fodelu arfer a rhoi sicrwydd mai'r hyn yr oedd athrawon yn ei wneud (a allai fod wedi cael ei lywio gan hyfforddiant) oedd y peth iawn i'w wneud. Fel y dywedodd Cydlynnydd AAA mewn ysgol gynradd: 'Weithiau mae'n beth da cael rhywun profiadol i ddweud eich bod yn gwneud yn dda'. Fel y'i disgrifiwyd gan y Cydlynnydd AAA, mae'n help i gael rhywun i gyfeirio at wasanaethau lle maent yn bodoli a: 'darparu adnoddau da i ni'.
- 5.41 Nododd un cyfwelai o'r rhaglenni peilot, oherwydd bod y rhaglenni peilot yn gweithio gyda'r oedolion a oedd yn cynorthwyo disgyblion, yn hytrach na gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion, roedd hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb. Teimlwyd bod hyn yn cynyddu sgiliau a hyder staff oherwydd ni allent fynd ati'n syml i 'drosglwyddo' disgybl i wasanaethau arbenigol, fel y credent oedd wedi digwydd yn y Rhaglen Beilot Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt

Ysgolion yn Lloegr (a drafodwyd yn adran 1). Yn yr un modd, nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion fod y pwyslais cryf ym Mlaenau Gwent, Ceredigion a Thorfaen ar hwyluso'r broses o baratoi 'geiriad' o'r problemau gan staff ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill, yn hytrach na dim ond rhoi cyngor ar beth i'w wneud, yn gwella effaith cyngor ac ymgynghoriadau ar hyder a sgiliau staff ysgol <sup>49</sup>.

- 5.42 Nodwyd hefyd, drwy helpu ymarferwyr CAMHS Mewngymorth i ddeall gwybodaeth, hyder staff ysgol yn well a hefyd eu pryderon, gellid defnyddio ymgynghoriadau hefyd i helpu i nodi anghenion hyfforddiant ysgolion.
- 5.43 Fodd bynnag, roedd enghreifftiau hefyd o ysgolion ar draws pob un o'r ardaloedd peilot lle roedd y staff yn teimlo mor brofiadol a hyderus fel y teimlwyd bod effaith y rhaglen beilot yn gyfyngedig. Yn ogystal, cafwyd beirniadaeth achlysurol o'r hyfforddiant, gan gynnwys cwyn gan un cyfwelai o ysgol gynradd bod, ym marn y cyfwelai, llawer o gynnwys y cwrs YMHA wedi'i anelu at ysgolion uwchradd. Hefyd, roedd nifer bach (n=3) o sylwadau ysgrifenedig yn yr arolwg yn beirniadu'r hyfforddiant.
- 5.44 At hynny, cymysg fu ymgysylltiad ysgolion yn yr hyfforddiant. Awgrymodd ymchwil ansoddol fod rhai ysgolion lle na fu'n bosibl ymgysylltu yn cynorthwyo llesiant disgyblion yn dda iawn ac nad ydynt yn gweld yr angen am hyfforddiant. Fodd bynnag, mae staff y rhaglen beilot o'r farn bod gan rai ysgolion nad ydynt yn ymgysylltu llawer wendidau o ran y ffordd y maent yn nodi ac yn cynorthwyo disgyblion, ond nid ydynt yn gweld yr angen am hyfforddiant. Mae ysgolion eraill yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant ac eisiau ei dderbyn, ond weithiau maent wedi cael anhawster rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant o ystyried costau, er enghraifft, staff cyflenwi, a galwadau eraill sy'n cystadlu â'i gilydd o ran hyfforddiant a dysgu proffesiynol, fel y cwricwlwm newydd.

### **asesu cyfraniad tebygol y rhaglenni peilot i'r canlyniadau a fwriedir**

- 5.45 Mae galw clir gan ysgolion i wella sgiliau a gwybodaeth rhai staff (e.e. fel Cydlynwyr ADY/AAA a staff bugeiliol a nodwyd gan ysgolion fel y rhai y mae angen sgiliau a gwybodaeth "uwch" neu fwy "arbenigol" arnynt (cymharer LIC, 2015b)) ac mae

---

<sup>49</sup> Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, trafod a nodi'r hyn a ystyriwyd yn achosion sylfaenol symptomau fel hwyliau isel neu bryder (e.e. y teulu yn chwalu), er mwyn nodi'r ymateb mwyaf priodol (e.e. atgyfeirio i Tîm o Amgylch y Teulu) am gymorth).

hyfforddi ac ymgynghoriadau'n cael eu gwerthfawrogi fel ffyrdd o uwchsgilio'r staff hyn. Mewn cyferbyniad, mae llawer llai o dystiolaeth o awydd am hyfforddiant ysgol gyfan, o ystyried yr her logistaidd o ryddhau staff y byddai hyn yn ei achosi a'r goblygiadau o ran cost (e.e. staff cyflenwi). Mae hyn yn adlewyrchu'r model presennol lle mai dim ond y staff hynny sydd angen, sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth "uwch" ac "arbenigol". Er y byddai'n rhy gynnar i farnu gwerth ac effaith yr hyfforddiant ac ymgynghoriadau ar y cam cynnar hwn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith yn dibynnu ar:

- ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant (sy'n ymddangos yn uchel) a'r cyngor a ddarperir drwy ymgynghoriadau (sy'n ymddangos ei fod yn cael ei werthfawrogi); ac
- ysgolion sy'n dewis ymgysylltu, dewis y staff cywir i'w hyfforddi yn dibynnu ar lefel a math yr hyfforddiant a gynigir (e.e. nodi'r rhai y mae angen sgiliau a gwybodaeth uwch neu arbenigol arnynt i fynd ar gyrsiau lefel uwch), gallu eu rhyddhau ar gyfer hyfforddiant, ac yna'r staff wedyn yn rhaeadru neu'n rhannu'r dysgu ag eraill yn yr ysgolion, fel y bo'n briodol, lle mae'r darlun rhywfaint yn fwy cymysg.

5.46 Mae ymchwil ansoddol ar gyfer yr astudiaeth hon, ac ymchwil arall yn y maes hwn hefyd yn amlygu'r angen am:

- 'economi gymysg' lle caiff hyfforddiant ei ategu gan fodolau eraill o ddysgu proffesiynol, fel addysg gychwynnol i athrawon (y gall ymgynghoriadau gyfateb iddynt), mentora a chymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol (y gellir eu cyfateb ychydig bach i grwpiau diddordeb arbennig – gweler astudiaeth achos 4) (Hill, 2013); a
- sicrhau bod hyfforddiant a mathau eraill o ddysgu proffesiynol yn ymatebol, fel y gall staff ddatblygu a gloywi sgiliau a gwybodaeth pan fydd eu hangen arnynt (e.e. pan fydd staff yn symud ymlaen, yn newid rolau a/neu pan fydd anawsterau iechyd meddwl newydd yn dod i'r amlwg) (LIC, 2015b).

#### **Astudiaeth achos 4. Grwpiau Diddordeb Arbennig**

Yn Nhorfaen, mae grwpiau diddordeb arbennig wedi cael eu sefydlu gan yr ymarferydd CAMHS Mewngymorth i Ysgolion ym mhob ysgol uwchradd ond un i rannu a chynorthwyo staff ysgol sy'n derbyn hyfforddiant modiwlaid. Mae'r grwpiau hyn yn gyfle i'r staff ddod at ei gilydd, i drafod yr hyn a ddysgwyd, a rhoi cymorth cymheiriaid. Adroddir bod y grwpiau wedi dechrau'n dda, ond ar ôl dau neu dri modiwl mae cyfranogiad staff wedi tueddu i leihau, a theimlir nad yw arweinwyr ysgolion wir yn ymrwmo i'r syniad a sicrhau y gall pobl flaenoriaethu presenoldeb. Fodd bynnag, pan fydd pobl yn mynychu, nodir bod ansawdd y drafodaeth a'r amrywiaeth o syniadau a dulliau a rennir yn gryf iawn.

- 5.47 Mae hyn yn awgrymu bod angen i gynnig dysgu proffesiynol y rhaglen beilot gael ei gynllunio a'i gyflwyno fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol ehangach i staff ysgolion gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan wasanaethau gwella addysg rhanbarthol, a gwasanaethau eraill fel cynhwysiant awdurdodau lleol, gwasanaethau seicoleg addysg a byrddau iechyd lleol. Mae hyn yn adlewyrchu faint o ddysgu proffesiynol sy'n debygol o fod yn ofynnol (sydd y tu hwnt i gapasiti'r rhaglenni peilot) a'r achos dros economi gymysg, gyda dysgu proffesiynol yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd gwahanol drwy wahanol sianeli (gweler e.e. Hill 2013). Mae hefyd yn awgrymu, ar gyfer y rhaglenni peilot eu hunain, bod darparu mynediad at raglen barhaus o hyfforddiant (e.e. i hyfforddi staff newydd a gloywi sgiliau) ochr yn ochr ag ymgynghoriadau, a all fod yn fwy ymatebol ac wedi'u targedu at ddisgyblion neu faterion penodol, yn debygol o fod yn arbennig o bwysig.



## **6. Mynediad at wasanaethau arbenigol**

### **Cyflwyniad**


- 6.1 Fel yr amlinellwyd yn adran 5, er y gall ysgolion asesu anawsterau iechyd meddwl disgyblion ac er y dylent ac y gwnânt hynny, nid ydynt yn arbenigwyr iechyd meddwl hyfforddedig, ac ni ddylent geisio rhoi diagnosis o gyflyrau. Yn lle hynny, dylai gwasanaethau arbenigol fel seicolegwyr addysgol a CAMHS asesu anawsterau iechyd meddwl difrifol a chymhleth.
- 6.2 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, codwyd pryderon ynghylch mynediad at wasanaethau arbenigol (gweler e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018; Llywodraeth Cymru, 2015c). Mewn ymateb, nododd damcaniaeth newid wreiddiol y rhaglen beilot (gweler ffigur 1) fod ysgolion yn gwella eu dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a llwybrau atgyfeirio fel y prif ddull ar gyfer sicrhau bod ysgolion (fel y mae damcaniaeth newid y rhaglen beilot yn nodi): ‘yn gallu atgyfeirio disgyblion i wasanaethau cysylltu ac ymgynghoriaeth a chyngor arbenigol pan fo angen’ (o ganlyniad i'r rhaglen beilot).

### **Y safle llinell sylfaen**

- 6.3 Fel y gwelwyd uchod, mae ysgolion yn adrodd eu bod yn dibynnu ar arbenigedd ‘mewnol’ a gwasanaethau allanol i asesu a chefnogi disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl. Mae'r adran hon yn awr yn troi at yr ail o'r rhain (h.y. gwasanaethau allanol). Mae graff 6.1 yn dangos mai cyngor neu gymorth gan CAMHS oedd y gwasanaeth mwyaf cyffredin, a ddewiswyd gan ychydig o dan dri o bob pump (59 y cant o ymatebwyr), yna gwasanaethau seicolegwyr addysg a gwasanaethau cymorth i deuluoedd, a ddewiswyd gan ychydig o dan hanner (48 a 47 y cant) o ymatebwyr, pan gawsant eu holi i ba wasanaethau y byddent yn mynd ar gyfer rhagor o gyngor neu gymorth.

### Graff 6.1. Y gwasanaethau y nododd staff ysgol y byddent yn mynd iddynt ar gyfer cyngor a chymorth

(Gallai'r staff ddewis mwy nag un opsiwn, felly gall y cyfanswm fod yn fwy na 100%).



\*Rhoddodd sylwadau ysgrifenedig yn bennaf enghreifftiau o staff yn yr ysgol, fel y rhestrwyd yn graff 4.1 uchod.

*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=348)*

#### *Mynediad at wasanaethau arbenigol*

6.4 Nododd ymchwiliad ansoddol gydag ysgolion eu bod, mewn rhai achosion, wedi cael disgyblion â thralod emosiynol ac nad oeddent yn gwybod beth oedd yr opsiynau, oherwydd y canlynol:

- nid oeddent yn gwybod am wasanaethau; er enghraifft, fel y nododd un pennaeth ysgol gynradd: ‘byddai’n wych pe gallai ysgolion gael gwybodaeth gyfoes. Gallwch glywed, ar hap bron, am wasanaethau nad oedd gennych syniad eu bod ar gael yn lleol’;

- ni allent gael cydsyniad rhiant; er enghraifft, dywedodd un pennaeth ysgol gynradd fod teulu yn gwrthod mynd i Tîm o Amgylch y Teulu ond bod angen iddo wneud (yn ei farn ef). Esboniwyd nad ydynt wedi cael cyswllt â Tîm o Amgylch y Teulu ers sawl blwyddyn bellach, gan mai dim ond os yw rhieni'n cytuno y caniateir iddynt gysylltu â Tîm o Amgylch y Teulu a dywedodd na fydd rhieni'n cytuno yn ei ardal ef. Adroddodd ysgolion eraill fod rhieni yn aml yn fwy parod i weithio gyda Tîm o Amgylch y Teulu na chyda gwasanaethau cymdeithasol; a/neu
- nid oedd gwasanaeth roedd disgyblion yn gymwys i gael mynediad ato, y mae'r adran hon yn rhoi sylw penodol iddo.

6.5 Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau ac, fel y nodwyd uchod, llenyddiaeth arall a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (fel Llywodraeth Cymru, 2015c), y teimlwyd bod mynediad at gymorth arbenigol, yn gyffredinol, wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfuniad o alw cynyddol am wasanaethau a thoriadau mewn darpariaeth; er enghraifft, fel y nododd pennaeth ysgol gynradd:

'Ddeng mlynedd yn ôl, roedd CAMHS yn dda, roeddent yn arfer dod i ymgynghoriadau AAA – roeddem yn arfer cael sesiynau gyda chydlynwyr AAA o ysgolion clwstwr, iechyd galwedigaethol, seicoleg addysg, ond erbyn hyn nid oes neb ar gael. Mae cael gafael ar gymorth yn ofnadwy'.

Esboniodd pennaeth ysgol gynradd arall fel a ganlyn:

Fel y rhan fwyaf o ysgolion, rydym yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar CAMHS. I ni, mae'n golygu ei bod yn anodd cael gafael arnynt. Weithiau, gellir dweud wrthy ch y bydd yn wythnos cyn y byddant yn eich ffonio'n ôl ac yna nid yw bob amser yn hawdd ymdrin â nhw.

6.6 Nododd nifer o ysgolion restrau aros neu amseroedd aros hirfaith ar gyfer cael mynediad at wasanaethau; er enghraifft, adroddodd pennaeth ysgol gynradd:

'nid yw rhestrau aros ar gyfer CAMHS a gwasanaethau niwroddatblygiadol yn ddefnyddiol ac yn aml ni fydd CAMHS a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnig gymorth gan nad yw'r disgyblion yn bodloni trothwyon neu feini prawf. Gallwch dreulio prynhawn yn paratoi atgyfeiriad a dywedir wrthy ch 'Dim Camau Pellach', mae hynny'n rhwystredig i staff a'r teulu ac mae'n rhaid i'r ysgol barhau i ymdopi'.

- 6.7 Fel y dywedodd un arall: 'ni allwn gael plant i'r lle iawn a, hyd yn oed pan fo angen cydnabyddedig, mae'n gallu cymryd amser hir i gael help'.
- 6.8 Roedd yr arolwg o staff ysgol yn cynnwys cwestiwn penodol ar gymorth gan CAMHS. Roedd llai na hanner (46 y cant) o'r staff a holwyd a oedd wedi cael mynediad at CAMHS, naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo bod CAMHS yn eu cefnogi. Hefyd, mynediad at CAMHS oedd y broblem y tynnwyd sylw ati amlaf mewn sylwadau ysgrifenedig. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n benodol ar anawsterau wrth atgyfeirio i CAMHS a chymorth ganddynt. Roedd hyn o bryder mawr i staff gan iddynt deimlo nad oeddent yn gallu cynorthwyo eu disgyblion mewn modd amserol ac effeithiol; er enghraifft:
- 'Pan fo gennym bryderon am blentyn ac mae'r gwaith papur perthnasol wedi'i gwblhau, mae rhestr aros hir iawn i'r plentyn gael ei gefnogi. Rwy'n teimlo ein bod yn siomi'r plant er ein bod wedi gwneud cymaint ag y gallwn ei wneud a gweithredu'r holl waith papur perthnasol'. (Aelod o staff cymorth mewn ysgol uwchradd).
- 'Er fy mod yn deall rôl CAMHS, mae'r amseroedd aros yn golygu nad yw'n hawdd cael mynediad at gymorth'. (Arweinydd ysgol uwchradd).
- 6.9 Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, canmolodd nifer bach o staff CAMHS yn eu sylwadau ysgrifenedig, er bod hynny gyda chafeatau weithiau. Fel y dywedodd un ymatebwr:
- 'Mae CAMHS yn cynnig cyngor a chymorth gwych i lawer o'n disgyblion ond, wrth nodi disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n ddealladwy bod rhestr hir, ond mae hyn yn aml yn golygu bod y disgyblion yn gadael y Cyfnod Sylfaen heb gymorth yn ei le iddynt'. (Athro ysgol gynradd).
- 6.10 Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion broblemau hefyd wrth gael mynediad at wasanaethau seicolegwyr addysg mewn rhai ardaloedd; er enghraifft, gwnaeth pennaeth ysgol gynradd y sylw: 'nid oes seicolegydd addysg mewn gwirionedd – mae un yn [enw'r ardal wedi'i hepgor] ond dim ond ar gyfer gwneud datganiadau y mae'n gallu rhoi apwyntiadau i blant, rhaid iddo ddod i lawr ac, er ei fod yn gwneud yr hyn y mae'n gallu ei wneud, mae'n gyfyngedig'.

6.11 Cadarnhaodd ymchwil ansoddol gyda gwasanaethau effaith galw cynyddol a thoriadau mewn cyllid ar gapasiti gwasanaethau i ddiwallu anghenion. Hefyd, tynnodd rhai gwasanaethau sylw at y ffordd roedd toriadau mewn gwasanaethau eraill a/neu godi trothwyon yn y gwasanaethau hynny, wedi cynyddu'r galw am eu gwasanaeth eu hunain (fffenomen a adwaenir weithiau fel 'dargyfeirio costau').<sup>50</sup> Adroddodd llawer o gyfweleion eu bod wedi'u gorfodi i godi eu trothwyon o ganlyniad i hynny a soniodd rhai am y 'canol coll', fel y'i gelwir, a achosir drwy gafnu gwasanaethau rhwng ysgolion a gwasanaethau cynyddol arbenigol â throthwyon uchel. Fel y dengys astudiaeth achos 5 yn dangos, roedd pryderon hefyd ynghylch y ffyrdd y cyfyngodd meini prawf cymhwysedd ar fynediad, gan olygu y gallai rhai disgyblion gwmpo drwy'r bylchau rhwng gwasanaethau. Nododd rhai ysgolion a gwasanaethau fod gwaith ataliol neu ymyrryd yn gynnar, gan wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, hefyd wedi'i dorri. At hynny, roedd rhai'n teimlo bod gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac ysgolion hefyd wedi gostwng, wrth i wasanaethau droi tuag at i mewn yn fwyfwy a chanolbwyntio ar eu blaenoriaethau a'u targedau sefydliadol eu hunain.

#### **Astudiaeth achos 5. Cwmpo drwy'r bylchau**

Nododd un o'r ymarferwyr CAMHS Mewngymorth fod disgyblion sydd â phroblemau cymhleth, a llesiant gwael iawn, ond nad oes ganddynt salwch meddwl, yn ei 'chadw ar ddi-hun yn y nos'. Er enghraifft, disgrifiodd Kate (nid ei henw go iawn), sef merch yn ei harddegau a oedd wedi'i gwahardd o'r ysgol, ond sy'n dal i "loetran ger yr ysgol" gan achosi problemau. Mae Kate wedi bod yn sarhaus iawn i staff (yn rhegi arnynt) ac wedi difrodi eiddo'r ysgol. Mae Kate mewn gofal (h.y. mae'n 'derbyn gofal') ond adroddir nad yw gwasanaeth gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol yn gallu ei helpu, gan na fydd yn cydweithredu. Mae'n hunan-niweidio, er bod hynny ar lefel isel, ac mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol (PMHSS) yn dweud nad yw'n briodol iddynt weithio gyda Kate, ac mae CAMHS yn dweud nad oes ganddi salwch meddwl ac maent

<sup>50</sup> Mae dargyfeirio costau'n nodi sut y gall costau a ysgwyddwyd gan un gwasanaeth yn flaenorol gael eu trosglwyddo neu eu 'dargyfeirio' i un neu fwy o wasanaethau eraill, o ganlyniad i doriadau i'r gwasanaeth cyntaf. Felly, er enghraifft, gall toriadau mewn gwasanaethau seicoleg addysg gynyddu'r galw am CAMHS a'r costau a ysgwyddir ganddynt.

wedi bod yn amharod i ymgysylltu ymhellach.

Esboniodd yr ymarferydd CAMHS Mewngymorth fod PMHSS yn gweithio gyda phobl ifanc ag anawsterau ysgafn i gymedrol, ond yr hyn a olygant yn ymarferol yw plentyn neu berson ifanc nad yw'n gallu cysgu yn y nos, sydd â meddyliau negyddol, yn poeni – ac a fydd yn ymateb i ymyriad chwe wythnos (gan PMHSS) ac yna'n gallu symud ymlaen. Fel y gwnaethant esbonio, yn eu barn nhw, mae PMHSS yn derbyn plant a phobl ifanc sy'n: 'barod i wneud darn o waith [h.y. i ymgysylltu â PMHSS]' – ond os, fel Kate, nad yw'r person ifanc yn barod (ac nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau fel CAMHS), nid oes gwasanaeth iddynt.

Gweledigaeth yr ymarferydd CAMHS Mewngymorth yw ar gyfer model allgymorth pendant yn CAMHS a ategir gan ddarpariaeth arbenigol mewn ysgolion, gyda mwy o staff wedi'u huwchsgilio, a fyddai mewn sefyllfa well i gefnogi disgyblion fel Kate. Fodd bynnag, mae datblygu'r math hwn o fodel gwasanaeth y tu hwnt i gylch gwaith y rhaglen beilot.

- 6.12 Fel y dengys astudiaeth achos 5 yn dangos, mae'n bosibl bod gan PMHSS rôl yma o ran llenwi'r bwlch hwn. Fodd bynnag, dim ond gyda phobl ifanc sy'n barod i ymgysylltu y gallant weithio ac, fel yr amlinellwyd uchod, cymharol brin yw'r ysgolion sy'n eu nodi fel ffynhonnell gymorth. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw eu bod ar gael yn gyffredinol drwy feddygon teulu (yn hytrach nag atgyfeiriad gan ysgolion) ac oherwydd beirniadaeth o'r hyn y canfyddir ei fod yn gyfeiriadedd PMHSS tuag at oedolion (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).
- 6.13 Mewn rhai ardaloedd, fel Gwent, roedd lluo o fentrau newydd hefyd, yn aml yn gyfyngedig o ran amser a sefydlwyd gan wasanaethau addysg, ieuencid, iechyd a'r sector gwirfoddol sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl. Y nod yw newid ar gyfer y system gyfan, drwy gyflymu a chynyddu'r mentrau presennol, gwella mynediad at arbenigedd, heb ei gwneud yn ofynnol cael

atgyfeiriadau i wasanaeth arbenigol fel CAMHS, er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well<sup>51</sup>.

- 6.14 Er y croesawyd datblygu gwasanaethau newydd yn y tair ardal beilot hyn, mae wedi cyfrannu at dirwedd gwasanaeth gymhleth i ysgolion a'r rhaglen beilot ei llywio, yn enwedig pan fo gwasanaethau wedi'u targedu at grwpiau penodol, cyflyrau a/neu ardaloedd daearyddol ac, o ganlyniad i hynny, mae ganddynt feini prawf cymhwysedd cyfyngedig. Mae'n rhy gynnar i farnu pa effaith y mae'r gwasanaethau newydd yn ei chael ar y capasiti cyffredinol (ac mae hwn yn gwestiwn sydd y tu hwnt i gylch gwaith y gwerthusiad hwn) ac, o ganlyniad i hynny, ar y galw y mae gwasanaethau unigol, fel CAMHS, yn ei wynebu; er enghraifft, gall sefydlu gwasanaethau newydd gynyddu'r galw (yn ogystal â chynyddu capasiti), yn enwedig pan fo'r cyfluniad gwasanaeth newydd yn diwallu angen nad yw wedi'i ddiwallu o'r blaen.

#### *Ynysoedd mynediad*

- 6.15 Mewn cyferbyniad â'r darlun cyffredinol a amlinellwyd uchod, nododd yr ymchwiler ansoddol gydag ysgolion hefyd nifer bach o enghreifftiau o ysgolion a nododd fod ganddynt berthnasoedd da â gwasanaethau allanol, a mynediad atynt; er enghraifft, soniodd pennaeth ysgol uwchradd am system gymorth amlhaenog:

'mae gennym ymgynghoriad unwaith y mis gyda CAMHS ac rydym bob amser yn gallu gofyn i'r nyrs ysgol, a fydd yn dod i mewn. Hefyd, mae gennym gymorth rhagorol yn y feddygfa leol. Mae gennym gymorth gan y gwasanaeth ieuencid. Mae gweithiwr ieuencid yn dod i mewn un diwrnod yr wythnos ac mae gennym hefyd dair sesiwn gyda gweithiwr gwasanaeth ymyrryd ieuencid yr wythnos [drwy Tîm o Amgylch y Teulu] – maent yn gwneud awr yr wythnos gyda phlentyn. Mae gennym gymorth cwnsela ysgol a chwnsela ar-lein. Mae'r disgyblion yn gallu siarad â chwnselydd wyneb yn wyneb – mae'n dod i mewn un diwrnod yr wythnos'.

- 6.16 Yn yr un modd, fel yr amlinellir isod, nododd yr arolwg, ymhlith y staff sy'n cael mynediad at CAMHS, fod ychydig o dan hanner (46 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod CAMHS yn eu cefnogi, a nododd ymchwiler ansoddol gyda

---

<sup>51</sup> Mae'r nod yn debyg i nod rhaglenni peilot CAMHS Mewngymorth gan ei fod yn ceisio galluogi a grymuso gwasanaethau i 'gadw gafael' ar blant a phobl ifanc (drwy ddarparu mynediad at arbenigedd yn ôl yr angen), yn hytrach na'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill.

gwasanaethau enghreifftiau o'r hyn y teimlwyd eu bod yn gysylltiadau gwaith cryf ac effeithiol ag ysgolion.

#### *Effaith anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau arbenigol*

Roedd yn ymddangos bod gwahaniaethau o ran mynediad at wasanaethau, yn rhannol, yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn darpariaeth gwasanaeth mewn ardaloedd peilot ar wahân. Nododd rhai gwasanaethau yng Ngogledd Cymru a Cheredigion berthnasoedd gwaith da rhwng ysgolion a CAMHS. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau'r ysgolion eu hunain yn fwy cymysg. Roedd yn ymddangos bod mwy o ymgysylltiad rhwng ysgolion a CAMHS yng Ngogledd Cymru, ond bod problemau hefyd o ran oedi, trothwyon uchel a phroblemau wrth gyfathrebu â CAMHS, a dealltwriaeth bod galw mawr ar CAMHS.

#### **Astudiaeth Achos 6. SPACE-Llesiant**

Mae SPACE-Llesiant, (yr Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant) yn fenter ar draws Gwent. Mae ceisiadau am gymorth gan ysgolion a gwasanaethau'n cael eu brysbennu gan dîm amlasiantaeth sy'n penderfynu ar y gwasanaeth(au) sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Mae cydlynedd yn rheoli ceisiadau, gan fynd yn ôl am ragor o wybodaeth os oes angen, a gwneir penderfyniadau gan y panel am y dull(iau) mwyaf priodol i'w defnyddio a'r gwasanaethau i'w cynnwys i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc. Nod y fenter yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at yr help cywir y tro cyntaf ac nad yw cymorth yn cael ei ddyblygu ar draws gwasanaethau. Mae'r holl atgyfeiriadau ar gyfer CAMHS yn mynd drwy SPACE Llesiant.

*Addaswyd o'r GIG (d.d.) ac ymchwil ansoddol*

- 6.17 Roedd enghreifftiau hefyd o fentrau rhanbarthol a gafodd eu croesawu, fel y Llwybr Atgyfeirio Hunan-niwedio yng Ngogledd Cymru a nodwyd yn gynharach, a SPACE Llesiant yng Ngwent (Astudiaeth achos 6). Awgrymodd ymchwil ansoddol, er bod rhanddeiliaid yn aml yn gefnogol o'r egwyddorion, mai nifer cymharol brin o'r ysgolion peilot a oedd wedi gofyn am gymorth drwy SPACE-Llesiant ar hyn o bryd. Adroddwyd hefyd nad oedd gwasanaethau addysg yn cael eu cynnwys yn gyson yn



SPACE-Llesiant, ac eithrio seicolegydd addysg weithiau. Efallai fod hyn yn dangos canfyddiad ehangach ynghylch diffyg integreiddio rhai mentrau iechyd ac addysg y bwriadwyd iddynt gynorthwyo iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

- 6.18 Nid oedd yn ymddangos bod gwahaniaethau mewn darpariaeth gwasanaeth a llwybrau'n esbonio nac yn rhoi cyfrif am yr holl amrywiadau mewn ymgysylltu â gwasanaethau. Roedd yn ymddangos bod ffactorau lleol, gan gynnwys salwch staff, a hefyd y perthnasoedd rhwng ysgolion a gwasanaethau hefyd yn ffactorau pwysig; er enghraifft, adroddodd arweinydd llesiant ysgol gynradd y canlynol:

'yn achlysurol, pan fyddwn yn anfon atgyfeiriadau manwl ac rydym yn gweithio gyda rhywun nad ydym wedi gweithio gydag ef o'r blaen, mae ymdeimlad nad ydym yn cael ein credu. Mae'n wahanol iawn gyda staff asiantaeth y mae gennym hanes o weithio gyda nhw yn flaenorol'.

- 6.19 Arsylwodd ysgolion hefyd y byddai gwasanaethau'n aml yn newid dros amser, gyda nifer o brosiectau a gwasanaethau wedi'u cefnogi gan gyllid cyfyngedig o ran amser, fel gweithwyr ieuentid sy'n darparu cwnsela wedi'i ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE), prosiect Gweithredu dros Blant wedi'i ariannu gan y Post Brenhinol, a mwy o brosiectau a grwpiau lleol a oedd hefyd yn cael eu hariannu gan elusennau. Bydd ymchwilio ymhellach i'r rhesymau dros yr amrywiad yn y mynediad at wasanaethau'n drywydd ymholi pwysig yn y cylch nesaf o ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau.

### **Dulliau a gweithgarwch y rhaglen beilot**

- 6.20 Fel y dengys tabl 6.1, mae'r tair ardal beilot wedi ceisio helpu i sicrhau bod ysgolion yn gallu cyfeirio disgyblion i wasanaethau cysylltu ac ymgynghori a chyngor arbenigol pan fo arnynt angen hynny, drwy dair prif strategaeth:

- rhoi gwybodaeth a chyngor (e.e. ar wasanaethau, llwybrau atgyfeirio);
- broceru mynediad at ysgolion a gwasanaethau / gweithredu fel cyfryngwr rhyngddynt;
- cynnig ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth.

**Tabl 6.1: Ymagweddau peilot at wella mynediad ysgolion at gyngor a chymorth arbenigol**

Ardal	Gwybodaeth a chyngor (e.e. ar wasanaethau, llwybrau atgyfeirio)	Broceru mynediad at ysgolion a gwasanaethau / gweithredu fel cyfryngwr rhyngddynt	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth
Blaenau Gwent	Oes	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes	Oes
Powys	Oes	Rhywfaint	Oes gydag ysgolion cynradd a rhai disgyblion ysgol uwchradd*
Torfaen	Oes	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Nac oes	Nid ar y dechrau, ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

\* Cytunwyd y byddai Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Powys yn parhau i ddarparu ymgynghori rheolaidd i ddisgyblion o Bowys yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Gynradd Crucywel, ac y byddai'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth yn gwasanaethu disgyblion o Went yn yr ysgolion hynny (maent oddeutu 45% o boblogaeth Ysgol Uwchradd Crucywel).

### **Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effaith**

#### *Rhoi gwybodaeth a chyngor*

6.21 Fel y gwelwyd yn yr adran flaenorol, roedd y rhan fwyaf o staff a holwyd yn hyderus eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau arbenigol pan oedd angen. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil ansoddol gydag ysgolion yr adroddwyd bod diffyg gwybodaeth am wasanaethau yn rhwystr i fynediad. Nododd yr ymchwil nifer bach o achosion lle teimlwyd bod y rhaglen beilot wedi gwneud cyfraniad pwysig i wybodaeth staff ysgolion am wasanaethau ac, yn hanfodol, pa wasanaethau i atgyfeirio iddynt a phryd. Fel y nododd uwch-arweinydd mewn ysgol gynradd: 'Mae

[enw ymarferydd CAMHS Mewngymorth] yn cynnig arbenigedd a gwasanaeth cyfeirio – gallwch ei ffonio a disgrifio plentyn a bydd yn dweud nad mater i CAMHS yw hyn, ond y gallwch ffonio'r bobl hyn'. Nodwyd bod staff y rhaglen beilot yn wybodus am wasanaethau eraill, a soniodd ysgolion eu bod yn atgyfeirio disgyblion i wasanaethau nad oeddent yn gwybod eu bod yn bodoli.

*Broceru mynediad at ysgolion a gwasanaethau / gweithredu fel cyfryngwr rhyngddynt*

- 6.22 Awgrymodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a gwasanaethau fod rôl ymarferydd CAMHS Mewngymorth fel cyfryngwr rhwng gwasanaethau yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig. Nododd rhai ysgolion fod y prosiect wedi'u helpu i wella perthnasoedd â gwasanaethau eraill. Er enghraifft, fel yr esboniodd arweinydd llesiant ysgol uwchradd: 'cyn [CAMHS] Mewngymorth, nid oedd gennym ddim byd. Mae gweithio gydag [enw wedi'i hepgor] wedi bod yn dda. Cyn hynny, roedd CAMHS yn ddatgysylltiedig iawn oddi wrthym. Nid oedd y cyfathrebu'n llifo'n rhydd'. Yn yr un modd, nododd cyfwelai (rôl wedi'i hepgor i ddiogelu ei hanhysbysrwydd), wrth sôn am ei waith fel gweithiwr CAMHS, y gallai gyfrif ar ddwy law nifer y troeon y cysylltodd ag ysgol. Nodwyd mai'r unig dro y cysylltodd CAMHS ag ysgol oedd trosglwyddo a rhoi i ysgolion restr o'r hyn y dylent fod yn ei wneud.
- 6.23 Oherwydd bod staff iechyd a staff addysg yn ymddiried yn ymarferwyr CAMHS Mewngymorth, maent wedi helpu i wella'r cyfathrebu rhwng gwasanaethau ac ysgolion. Fel y dengys y testun mewn blwch, mae'r ymarferwyr CAMHS Mewngymorth wedi helpu i ddarparu pont rhwng lleoliadau sy'n cadw'r cyfathrebu ar agor; er enghraifft, yng Ngheredigion, mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn mynd i gyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu i hwyluso rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau addysg a gwasanaethau'r sector gwirfoddol.
- 6.24 Ar draws y tair ardal beilot, mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd meddwl mewn ysgolion ac, i raddau llai, yn codi ymwybyddiaeth gwasanaethau o brofiadau ysgolion. Mae pontio'r bwlch rhwng ysgolion a gwasanaethau, drwy wella dealltwriaeth, yn bwysig oherwydd bod ysgolion a llawer o wasanaethau arbenigol yn gweithredu mewn cyd-destunau diwylliannol a sefydliadol gwahanol iawn. Nododd rhanddeiliaid y rhaglenni peilot a'r

gwasanaethau bwysigrwydd cyfraniad y rhaglen beilot i godi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau iechyd am y cyfyngiadau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth gynorthwyo disgyblion, y gwahaniaethau rhwng lleoliadau therapiwtig ac ysgolion prysur, a phwysigrwydd cyfathrebu ag ysgolion.

### **Astudiaeth achos 7. Llwybr Ymgynghori Ceredigion**

Yng Ngheredigion, nododd ymarferwyr y rhaglen beilot nad oedd CAMHS weithiau'n ymwybodol eu bod (CAMHS) yn gweithio gyda disgyblion yr oedd Ymarferwyr CAMHS Mewngymorth hefyd yn gweithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo. Hefyd, nododd ymarferwyr rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth y gallai CAMHS ddatgelu problemau neu anghenion y gallai fod angen i ysgolion fynd i'r afael â nhw, fel bwllo, drwy eu gwaith gyda disgybl unigol, ond nad oedd yn glir a oedd hyn bob amser yn cael ei fwydo'n ôl i'r ysgolion. Mewn ymateb, mae llwybr ymgynghori wedi'i ddatblygu er mwyn gwella cyfathrebu rhwng CAMHS ac ysgolion. Nododd ymarferydd CAMHS Mewngymorth hyn fel: 'gwneud cysylltiadau a sicrhau na fydd pethau'n cael eu colli'. Mae'n cael ei hwyluso gan 'restr wirio gohebiaeth' newydd sy'n darparu'r sail gyfreithiol i ymarferwyr CAMHS Mewngymorth rannu gwybodaeth rhwng CAMHS ac ysgolion.

- 6.25 Yng Ngheredigion, adroddwyd hefyd bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i CAMHS yn dal i ddod drwy feddygon teulu. Ar draws yr holl ardaloedd, mae ysgolion weithiau'n gofyn i rieni ofyn i'w meddyg teulu wneud atgyfeiriad i wasanaethau, gyda chanlyniadau cymysg ar y cyfan. Roedd hyn yn gweithio weithiau, ond gallai hefyd arwain at yr atgyfeiriad yn cael ei anfon yn ôl gan feddygon teulu, a oedd yn teimlo bod gan ysgolion gysylltiadau gwell â gwasanaethau na nhw. Roedd pryderon hefyd nad yw meddygon teulu o bosibl yn gwbl ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda disgybl mewn ysgol, a'i bod yn debygol nad ydynt yn adnabod nac yn deall disgybl cystal ag ysgol (ac felly'n gwneud atgyfeiriad llai hyddysg). Mewn ymateb, yng Ngheredigion, maent yn ystyried datblygu system o roi gohebiaeth, gyda chrynodeb o'r cynllun sydd ar waith i gefnogi disgybl, ar systemau data meddygon teulu. Y gobaith yw y gallai hyn leihau nifer yr atgyfeiriadau i CAMHS drwy'r Un Pwynt Mynediad.

6.26 Mae trefniadau i wella cyfathrebu rhwng ysgolion a gwasanaethau fel CAMHS yn wahanol ym mhob ardal; er enghraifft:

- ym Mlaenau Gwent a Thorfaen, bwriedir i banel newydd SPACE-Llesiant wella cyfnewid gwybodaeth rhwng gwasanaethau a phriodoldeb a chyflymder atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol; ac
- yng Ngogledd Cymru a Phowys, mae ymweliadau ag ysgolion gan CAMHS yn cyfrannu at rannu gwybodaeth rhwng ysgolion a CAMHS.

*Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth*

6.27 Nid oes ymagwedd unigol nac unffurf o gynnal ymgynghoriadau; er enghraifft:

- Yng Ngheredigion, mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth fel arfer yn mynd i gyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu, ac yna'n darparu sesiynau ymgynghori i ysgolion yn fisol;
- yng Nghanolbarth a De-ddwyrain Cymru, mae gan y ddau ymarferydd CAMHS Mewngymorth ffyrdd gwahanol o drefnu ymgynghoriadau, gydag un yn gwneud trefniadau ar gyfer blwyddyn gyfan ymlaen llaw a'r llall yn dilyn dull mwy hyblyg ac adweithiol. Awgrymodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a'r rhaglen beilot ei bod yn fwy anodd i'r rhaglen beilot gynllunio a rheoli'r model mwy hyblyg ac adweithiol, ond ei fod wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran annog staff i ddefnyddio'r sesiynau ymgynghori;
- yng Ngogledd Cymru (a oedd â chysylltiadau cryfach rhwng CAMHS ac ysgolion cyn y rhaglen beilot), roedd y ffocws cychwynnol ar hyfforddiant, ond mae gwasanaeth ymgynghori ar fin cael ei gyflwyno i glwstwr o ysgolion.

6.28 Fel y dengys astudiaeth achos 8, mae ymgynghoriadau yng Ngheredigion yn gallu canolbwyntio ar yr ymarferydd CAMHS Mewngymorth yn trafod â staff ysgol yr anawsterau sydd gan grwpiau o ddisgyblion ag anghenion tebyg, neu anawsterau disgybl unigol. Mae hyn hefyd yn wir yng Nghanolbarth a De Cymru. Gall y trafodaethau gynnwys un aelod o staff drwy gyfarfod aml-ddisgyblaeth â staff lluosog o'r ysgol a'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig nodi bod y trafodaethau â staff ac nad ydynt yn cynnwys asesiadau uniongyrchol o ddisgyblion eu hunain, na gwaith gyda nhw. Awgrymodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion a'r rhaglen beilot fod y model hyblyg ac ymatebol hwn yn bwysig.

### **Astudiaeth achos 8. Modelau ymgynghori Ceredigion**

Yng Ngheredigion, cynhelir ymgynghoriadau ar ffurfiau gwahanol. Maent yn amrywio o drafodaeth lefel isel gydag un neu ddau aelod o staff ysgol sydd wedi mynegi pryder am ddisgybl, i archwiliad amlddisgyblaeth, manwl o symptomau ac achosion. Bydd ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn rhoi cyngor a/neu argymhellion, gan gynnwys, er enghraifft, gyngor ar briodoldeb atgyfeiriad i CAMHS neu gyfeirio i wasanaeth arall. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn adran 4, mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth hefyd yn ceisio annog y staff sy'n mynd i'r ymgynghoriad i feddwl am yr atebion eu hunain, er mwyn iddynt uwchsgilio a magu hyder.

6.29 Mae data o'r rhaglen beilot yn nodi'r canlynol;

- Yng Ngheredigion, rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Rhagfyr 2019, trafodwyd 69 o ddisgyblion (ac ailtrafodwyd dau). O'r rhain roedd ychydig o dan hanner (n=31) yn hysbys i CAMHS ac roedd tua 10% (n=7) wedi'u cyfeirio i CAMHS;
- Ym Mhowys, rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, trafodwyd tua 19 o ddisgyblion<sup>52</sup> ;
- Ym Mlaenau Gwent, rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, trafodwyd 60 o ddisgyblion; ac
- Yn Nhorfaen, rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, trafodwyd tua 87 o ddisgyblion<sup>53</sup> .

6.30 Er bod yr ysgolion wedi gwerthfawrogi'r ymgynghoriadau, mae cyfanswm y disgyblion a gefnogir drwy ymgynghoriadau'n gymharol fach mewn termau absoliwt, o'i gymharu â chyfanswm y disgyblion sy'n debygol o fod ag anawsterau iechyd meddwl yn yr ardal beilot. Fel yr amlinellwyd yn adran 1, credir bod un o bob wyth disgybl â phroblem iechyd meddwl ac, os defnyddir y gyfradd hon, mae'n awgrymu'r canlynol yn 2018/19<sup>54</sup>:

<sup>52</sup> Nodir 'tua' o flaen y ffigurau oherwydd y cynhaliwyd rhai sesiynau ar y cyd â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol ac roedd rhai sesiynau ymgynghori'n drafodaethau ynghylch problemau cyffredinol sy'n effeithio ar ddsbarth, yn hytrach na phroblemau sy'n benodol i ddisgyblion unigol.

<sup>53</sup> Nodir 'tua' o flaen y ffigurau oherwydd eu bod yn cynnwys disgyblion a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd amlasiantaeth â gwasanaethau eraill neu yn ystod trafodaeth achos â CAMHS sylfaenol ac arbenigol.

<sup>54</sup> Ffynhonnell, StatsCymru, [Disgyblion yn ôl awdurdod lleol a grŵp blwyddyn](#).

- ym Mlaenau Gwent, bydd tua 530 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 6 i 11 ag anawsterau iechyd meddwl<sup>55</sup>;
- yng Ngheredigion, bydd tua 450 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 6 i 11 ag anawsterau iechyd meddwl)<sup>56</sup>; ac
- yn Nhorfaen, bydd tua 820 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 6 i 11 ag anawsterau iechyd meddwl.<sup>57</sup>

6.31 Mae ymchwil ansoddol gydag ysgolion yn awgrymu bod yr anawsterau o ran cael mynediad at CAMHS, a amlinellwyd uchod, yn golygu bod yr ymgynghori, y cyngor a'r cyswllt a gynigir gan ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yng Ngheredigion a Chanolbarth a De Cymru wedi'u gwerthfawrogi'n arbennig; er enghraifft, fel y nododd swyddog llesiant ysgol uwchradd:

'Mae [enw'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth wedi'i hepgor] yn un o'r goreuon rwyf wedi cwrdd â nhw – mae'n cynnig cyfarfodydd agored a bydd yn cynnal ymgynghoriad dienw â ...[disgyblion]. Y peth da yw y gallaf ei ffonio ac mae'n rhoi mwy o hyder i mi'.

6.32 Yn hynny o beth, mae'r model yn rhoi mynediad uniongyrchol i'r ysgolion at rywfaint o'r arbenigedd y mae CAMHS yn ei gynnis. Fodd bynnag, yn wahanol i rai ardaloedd yn rhaglenni peilot cyswllt ysgolion Lloegr (a drafodwyd yn adran 1) nid yw'n rhoi arlwy CAMHS 'llawn' i'r ysgolion; er enghraifft:

- bydd ymarferwyr CAMHS Mewngymorth ond yn gweithio gyda staff a'u cynghori (ni fyddant yn gweld, yn asesu nac yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn/person ifanc); a
- dim ond ar broblemau iechyd meddwl y maent yn cynghori ac, er enghraifft, maent yn cyfeirio pryderon ynghylch problemau niwroddatblygiadol i'r gwasanaeth niwroddatblygiadol (sydd fel arfer yn rhan o CAMHS).

6.33 Mae'r rhaglen beilot yn canolbwyntio ar gefnogi a chynghori staff ysgol ar sut y gallant ddiwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion yn well (felly staff yr ysgol sy'n gwneud y gwaith cymorth), yn hytrach na'r ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn

<sup>55</sup> Mae hyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion ym Mlynnyddoedd 6 (n=810) a Blynnyddoedd 7-11 (n=2,935).

<sup>56</sup> Mae hyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion ym Mlynnyddoedd 6 (n=650) a Blynnyddoedd 7-11 (n=3,600).

<sup>57</sup> Mae hyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion ym Mlynnyddoedd 6 (n=1,100) a Blynnyddoedd 7-11 (n=5,495).

gweithio'n uniongyrchol i asesu a chynorthwyo disgybl unigol a rheoli ei ofal (fel y gallai gwasanaeth CAMHS ei wneud). Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn anodd cynnal y model yn ymarferol, yn enwedig pan fo ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddisgybl unigol, fel sy'n digwydd yn aml. Yn ogystal, mewn rhai achosion, gofynnwyd i ymarferwyr CAMHS Mewngymorth gysylltu rhwng yr ysgol a gwasanaethau iechyd ynghylch disgybl penodol a/neu anfonodd gwasanaethau eraill nodiadau atynt am ddisgyblion unigol. Mae rhai ysgolion hefyd wedi cynnwys rhieni neu ofalwyr yn y trafodaethau. Er yr ystyriwyd bod hyn yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu strategaethau gyda'r ysgol a'r rhieni ac wrth wella gwaith partneriaeth gyda'r gwasanaethau, mae wedi creu tensiynau ar gyfer y rhaglen wrth geisio diffinio a diogelu ffiniau rôl ymarferydd CAMHS Mewngymorth.

### **Cyfraniad tebygol y rhaglenni peilot i'r canlyniadau a fwriedir**

- 6.34 Fel yr amlinellwyd uchod, mae ysgolion yn aml yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau cysylltu. ymgynghori a chynghor arbenigol pan fo'u hangen, ac roedd yn amlwg bod angen gweithredu yma. Fodd bynnag, y broblem roedd yr ysgolion yn ei wynebu oedd nid dim ond eu dealltwriaeth o'r llwybrau atgyfeirio a oedd ar gael (y canolbwyntiodd y rhaglen beilot arnynt), roedd hefyd yn ymwneud â chapasiti cyfyngedig y gwasanaethau mewn perthynas â'r galw.
- 6.35 Fel yr amlinellwyd yn yr adran hon ac yn y cyflwyniad, mae nifer y disgyblion sydd ag anawsterau iechyd meddwl wedi cynyddu ac mae gwasanaethau wedi cael trafferth ymdopi â'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i hynny. Gall y rhaglen beilot gyfrannu at fynd i'r afael â'r bwlch hwn rhwng y galw a'r capasiti drwy ddwy ddau ddull allweddol:
- gall cynyddu capasiti mewn ysgolion i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl lefel isel drwy uwchsgilio staff a'u helpu i fagu hyder helpu i sicrhau bod disgyblion ag anawsterau lefel isel yn cael eu nodi, eu hasesu a'u cynorthwyo gan ysgolion, yn hytrach na'u hatgyfeirio i wasanaeth arbenigol (a amlinellwyd yn adran 5);
  - gall galluogi ymyriad cynharach a mwy effeithiol mewn ysgolion, cynyddu capasiti mewn ysgolion (fel uwchsgilio staff) helpu i atal anawsterau iechyd meddwl rhag gwaethygu a chyrraedd y cymhlethdod neu'r difrifoldeb lle mae angen gwasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai hyn yn digwydd,



byddai'n cymryd amser cyn i'r newidiadau hyn mewn arferion ysgol effeithio ar nifer y disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl mwy difrifol neu gymhleth y mae angen eu hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol fel CAMHS.

- 6.36 Yn ogystal, ceisiodd y rhaglen beilot wella dealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio a sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar y lefel gywir, i'r gwasanaeth cywir. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y rhaglen beilot yn gwella gwybodaeth staff am y gwasanaethau, a'i bod yn bosibl bod hyn wedi dargyfeirio atgyfeiriadau i ffwrdd o CAMHS i wasanaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn gymharol fach, o gofio mai'r dystiolaeth o'r arolwg a'r ymchwil ansoddol gydag ysgolion yw bod y broblem yn bennaf yn ymwneud â chael mynediad at wasanaethau presennol (o gofio trothwyon uchel a rhestrau aros) yn hytrach na gwybod pa wasanaeth y dylid atgyfeirio iddo, a bod cau'r bwch rhwng y galw a'r capasiti y mae gwasanaethau arbenigol yn ei wynebu y tu hwnt i nodau'r rhaglen beilot.
- 6.37 O gofio'r anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau, roedd darparu capasiti ychwanegol drwy estyn gwasanaethau CAMHS i ysgolion, yn bennaf drwy ymgynghori a chyngor, wedi'i werthfawrogi'n arbennig mewn ardaloedd fel Blaenau Gwent, Ceredigion a Thorfaen, lle nad oedd gan CAMHS y capasiti i wneud hyn eu hunain. Serch hynny, fel y cydnabuwyd uchod, nid yw'r rhaglen beilot yn estyn yr arlwy CAMHS llawn i ysgolion (fel y digwyddodd weithiau yn y rhaglen beilot yn Lloegr) ac nid yw'n disodli mynediad at CAMHS i'r disgyblion ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth.
- 6.38 Mae'n ymddangos bod yr arlwy cyfyngedig i ysgolion wedi cyfrannu at safbwyntiau ymhlith rhai gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth nad oedd gan y rhaglen beilot y capasiti (o gofio maint timau'r rhaglen beilot mewn perthynas â nifer yr ysgolion) i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i allu ysgolion i ddiwallu anghenion; fel y nododd un cyfwelai o wasanaeth arbenigol AAA: 'er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae angen cyswllt a sgysiau rheolaidd ag ysgolion a'r gallu i wneud gwaith dilynol'. Yn rhannol, gall hyn adlewyrchu camddealltwriaeth am y rhaglen beilot, wedi'i ysgogi gan enw'r rhaglen beilot, sef 'rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion'.

- 6.39 Awgrymodd yr ymchwiler ansoddol gyda'r ysgolion a'r rhaglenni peilot, er gwaethaf maint bach y timau, fod y rhaglen beilot yn estyn allan i ysgolion uwchradd drwy gyngor ac ymgynghori, ac yn gwneud gwahaniaeth iddynt. Roedd hyn yn gyflawniad pwysig, gan fod y model gydag un gweithiwr yn cwmpasu ALI cyfan weithiau'n gwanhau'r effaith yn ormodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd y rhaglen beilot wedi cael trafferth estyn allan i ysgolion cynradd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig mawr fel Ceredigion, lle mai dim ond dwy o'r 39 o ysgolion cynradd sy'n gofyn am ymgynghoriadau'n rheolaidd.
- 6.40 Nododd ymchwiler ansoddol gyda gwasanaethau bryderon hefyd am y canlynol:
- diffyg dull mwy strategol o ddiwallu anghenion anawsterau iechyd meddwl disgyblion, o gofio'r amrywiaeth o wasanaethau ALI, BILI a sector gwirfoddol dan sylw (fel nyrsys ysgol, gwasanaethau cwnsela ysgol, y gwasanaeth ieuencid, seicolegydd addysgol, CAMHS a'r sector gwirfoddol) a lluo o fentrau newydd mewn rhai ardaloedd fel Gwent (ac yn effeithio ar y rhaglen beilot ym Mlaenau Gwent a Thorfaen). I raddau helaeth, mae'r rôl strategol hon y tu hwnt i gylch gwaith y rhaglen beilot ond, fel y gwelwyd yn gynharach, mae grwpiau llywio rhaglenni peilot ac aelodau unigol o grwpiau llywio rhaglenni peilot weithiau'n mynd i'r afael â hyn.
  - yr hyn y disgrifiodd rhai fel yr haen 'ganol goll' o wasanaethau rhwng ysgolion a gwasanaethau arbenigol fel CAMHS, o ganlyniad i doriadau mewn gwasanaethau, ond hefyd cyfluniadau gwasanaethau nad yw anghenion pob disgybl yn gweddu'n rhwydd iddynt, ond a oedd wedi arwain at gau rhai gwasanaethau a chodi trothwyon gwasanaethau eraill; ac
  - effaith y rhaglen beilot yn llawer mwy ar gyfer ysgolion uwchradd (ac ysgolion pob oed). Dim ond gyda disgyblion sydd yn y flwyddyn olaf (Blwyddyn 6) yn yr ysgol gynradd y mae'r rhaglen beilot yn gweithio gyda nhw ac roedd ysgolion cynradd yn fynych yn mynegi rhwystredigaeth na allai'r rhaglen beilot weithio gyda phlant iau. Adlewyrchodd hyn ddechrau cynharach anawsterau iechyd meddwl ymhlith plant oed ysgol gynradd, a diffyg gwasanaethau i blant ifanc hefyd (er enghraifft, dim ond gyda phlant ym Mlwyddyn 6 ac uwch y mae gwasanaethau cwnsela'n gweithio). At hynny, fel yr amlinellwyd yn adran 3, ar y cyfan mae'r rhaglen beilot wedi blaenoriaethu gwaith gydag ysgolion uwchradd

ac, weithiau, wedi ei chael yn fwy anodd ymgysylltu ag ysgolion cynradd; mae hefyd yn fwy costus cynorthwyo'r ysgolion cynradd sydd wedi ymgysylltu (o gofio'r nifer uwch o ysgolion cynradd a'r nifer llai o ddisgyblion ym mhob ysgol y mae arnynt angen cymorth, o gymharu ag ysgolion uwchradd).

- 6.41 O ystyried y cyfyngiadau hyn, mae'n ymddangos yn debygol y bydd effaith y rhaglen beilot ar fynediad ysgolion at wasanaethau cyswllt, ymgynghori a chyngor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt yn llai na'i heffaith ar gapasiti ysgolion i ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl lefel isel disgyblion.

## 7. Straen a llesiant staff yn yr ardaloedd peilot


### Cyflwyniad

7.1 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, bu pryderon hirsefydlog ynghylch staff ysgol ac, yn benodol, lefelau straen athrawon ac arweinwyr ysgol. Mewn ymateb, nod y rhaglen beilot yw lleihau straen staff a gwella llesiant. Nododd model rhesymeg gwreiddiol y rhaglen beilot uwchsgilio athrawon a'u helpu i fagu hyder fel y prif ddull ar gyfer cyflawni hyn.

### Y safle llinell sylfaen

7.2 Mae graff 7.1 yn dangos bod un rhan o bump (20 y cant) o'r staff a holwyd wedi adrodd eu bod 'yn aml' neu 'bob amser' yn profi lefelau uwch o straen wrth ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion.

**Graff 7.1 Ymatebion staff pan gawsant eu holi a oeddent yn profi lefelau uwch o straen wrth ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion**



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, Arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=344)*

7.3 Cadarnhaodd ymchwil ansoddol gydag ysgolion y straen y mae staff ysgol yn aml yn ei brofi wrth ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl. Ystyriwyd bod gwendidau mewn hyder staff a chymhwysedd hefyd wrth ymdrin â phroblemau iechyd meddwl yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant staff eu hunain. Hefyd, arsylwyd y canlynol:

- mae llesiant disgyblion yn gysylltiedig â llesiant staff, gan na all staff addysg gynorthwyo disgyblion os nad yw eu hiechyd meddwl eu hunain yn dda. Yn yr un

modd, fel y nododd cyfwelai ysgol gynradd arall: 'ni allwch ymdrin â phlentyn os nad ydych mewn lle da'; ac

- mae llesiant staff yn gwella pan fo amgylchedd digynnwrf (ac y byddai gwelliannau o ran llesiant ac ymddygiad disgyblion hefyd yn gwella llesiant staff).

7.4 Ystyriwyd bod gwybod beth i'w wneud, ond heb gael yr amser a/neu broblemau wrth gael mynediad at wasanaethau arbenigol (a drafodwyd yn adrannau 6 a 7) hefyd yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant staff; er enghraifft, fel y nododd dirprwy bennaeth mewn ysgol uwchradd: 'gallwch fynd adref i'r gwely yn y nos yn meddwl a ydym wedi gwneud popeth a allwn – gallwch wneud popeth a allwch dros ddisgybl, ond efallai y bydd yn dal i fethu ymdopi'. Yn yr un modd, soniodd arweinydd cymorth bugeiliol ysgol uwchradd am y baich cyfrifoldeb a'r euogrydd y mae wedi cael profiad ohono:

'Mae'n llawn straen. Rydych yn meddwl tybed a ydych wedi gwneud y peth iawn. Rydych am fod mewn sefyllfa lle rydych yn gwybod nad oes dim mwy y gallech fod wedi'i wneud. Rydym wedi bod i'r adran damweiniau ac achosion brys gyda disgyblion sy'n hunanladdol, gwerysyla y tu allan i swyddfeydd CAMHS am wyth y bore i gael gwybod beth sydd ar gael i ddisgyblion. Mae'n achosi straen wrth siarad â rhieni sydd efallai â phroblemau iechyd meddwl eu hunain ac nad ydynt yn ymdopi. Mae'n arbennig o anodd pan fo'r cloc yn tician ar brynhawn dydd Gwener ac rydych yn ceisio cael gafael ar asiantaethau. Rhaid i chi adael y gwaith a gallu cysgu'r nos'.

7.5 Fodd bynnag, mae'r ymchwil ansoddol gydag ysgolion hefyd wedi egluro nad hyder (neu gymhwysedd) staff a/neu broblemau wrth gael mynediad at wasanaethau arbenigol pan fo'u hangen oedd unig achos straen a llesiant gwael staff. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys:

- llwyth gwaith ac, fel y mynegodd un arweinydd ysgol: 'Byddwn yn dweud mai llwyth gwaith yw'r prif beth sy'n achosi straen';
- y pwysau ar ysgolion o ganlyniad i gyfundrefnau arolygu ac atebolrwydd a thoriadau cyllidebol, a oedd yn golygu bod sawl ysgol yn bwriadu dileu swyddi neu'n ymgynghori ar y mater;

- rhaglen trawsnewid ADY<sup>58</sup> a'r cwricwlwm newydd i Gymru<sup>59</sup>, a groesawyd, ond a ystyriwyd fel galwadau cynyddol ar amser, sylw ac adnoddau ysgolion a staff.

- 7.6 Ar y cyfan, mae hyn yn gyson ag ymchwil arall a drafodwyd yn y cyflwyniad, sy'n tynnu sylw at lwyth gwaith fel un o brif achosion straen i athrawon.
- 7.7 Hefyd, nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion fod rhai staff ysgol yn teimlo bod y pwysau sy'n gysylltiedig â'r swydd yn cynyddu. Nodwyd bod yr effeithiau ar unigolion a'r ysgol yn ddifrifol. Fel yr esboniodd pennaeth ysgol uwchradd: 'mae un athro'n mynd ar absenoldeb salwch hirdymor am y trydydd tro oherwydd straen, ac mae eraill wedi cael trafferth hefyd'. Fel y nododd cyfwelai arall, roedd ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion a'u llwyth gwaith: 'yn llawn straen. Mae'n golygu ei bod yn anodd iawn cael cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, mae'n anodd peidio â meddwl am y gwaith, mae'n llethol, yn ynysol iawn ac yn faich mawr ar ein hiechyd meddwl ein hunain'.

### **Mynediad at gymorth**

- 7.8 Cytunodd bron tri chwarter (74 y cant) o'r holl staff a holwyd eu bod yn gwybod pwy i droi ato pe bai arnynt angen cymorth gyda'u llesiant eu hunain. Fodd bynnag, crybwyllodd nifer bach y diffyg cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u llesiant ac, mewn sylwadau ysgrifenedig, tynnodd rhai sylw at stigma cymdeithasol ynghylch codi'r mater; er enghraifft:

'fodd bynnag, rwy'n teimlo bod bwlch mewn ysgolion i ymdrin â chymorth i staff â'u pryderon iechyd meddwl eu hunain - mae'n rhywbeth y mae staff yn teimlo'n amharod i'w drafod â'r tîm uwch-arwain, yn enwedig os ydynt yn teimlo y byddai'n adlewyrchu'n wael ar eu gallu i wneud eu gwaith yn ddigonol'.

(Cydlynnydd AAA)

'Mae angen ymdrin â phroblemau iechyd meddwl athrawon yn fwy cadarn. Mae stigma ofnadwy o hyd ynghylch pryder/iselder/menopos' (athro ysgol uwchradd).

'Mae staff (gan gynnwys fi fy hun) yn dal i fod yn amharod cyfaddef bod ganddynt straen oherwydd ofn rhyw fath o gosb' (athro ysgol uwchradd).

- 7.9 Awgrymodd yr ymchwil ansoddol gydag ysgolion fod cymorth gan ysgolion yn gymysg, gyda rhai ysgolion yn tynnu sylw at amrywiaeth o gamau a gymerir i hybu

<sup>58</sup> [Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\)](#)

<sup>59</sup> [Cwricwlwm i Gymru](#)

llesiant staff. Yn yr un modd, mewn ysgolion eraill, nodwyd llesiant staff fel rhywbeth sydd ar restr o bethau i'w gwneud (gan bennaeth tîm llesiant mewn ysgol uwchradd). Pwysleisiodd nifer o gyfweleion, gan gynnwys arweinwyr ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, nad oes goruchwyliaeth broffesiynol ar gyfer athrawon, yn wahanol i weithwyr iechyd proffesiynol. Nododd un ysgol ei bod am wneud mwy o waith llesiant clwstwr, yn enwedig ynghylch cymorth i staff bugeiliol a'i bod wedi trafod system cymorth cymheiriaid ar lefel clwstwr, ond pwysleisiodd nad oedd hynny'n gyfystyr â goruchwyliaeth unigol. Yn yr un modd, fel y gwelwyd yn gynharach (yn adran 5) yn Nhorfaen, mae grwpiau diddordeb arbennig wedi'u sefydlu i gynorthwyo dysgu proffesiynol, yn ogystal â rhoi cymorth cymheiriaid.

### **Dulliau a gweithgarwch y rhaglen beilot**

7.10 Fel y dengys tabl 7.1, mae'r tair ardal beilot wedi mynd i'r afael â'r her o leihau straen staff a gwella llesiant drwy gymysgedd o bedwar dull allweddol:

- hyfforddiant mewn rheoli straen a hybu llesiant;
- hyfforddiant mewn nodi a diwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion (gan gynyddu sgiliau a hyder staff);
- ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth (cynyddu sgiliau a hyder, sy'n cyfrannu at leihau straen); a
- gwella mynediad at wasanaethau arbenigol (gan leihau'r straen sy'n gysylltiedig ag anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau).

**Tabl 7.1 Dulliau'r rhaglen beilot o leihau straen staff a gwella llesiant staff**

Ardal	Hyfforddiant mewn rheoli straen a hybu llesiant	Hyfforddiant mewn nodi a diwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion (gan gynyddu hyder)	Ymgynghori, cyngor a chyswllt ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth (magu hyder, rhoi sicrwydd)	Gwella mynediad at wasanaethau arbenigol (gan leihau'r straen sy'n gysylltiedig ag anawsterau o ran cael mynediad at gymorth)
Blaenau Gwent	Oes	Oes	Oes	Oes
Ceredigion	Oes	Oes	Oes	Oes
Powys	Oes	Oes	Oes yn rhannol*	Yn rhannol*
Torfaen	Oes	Oes	Oes	Oes
Wrecsam a Sir Ddinbych	Oes	Oes	Nid ar y dechrau, ond mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu	Nac oes

*Ffynhonnell: cyfweiliadau â staff y prosiect*

\* Ym Mhowys, mae PMHSS yn parhau i ddarparu ymgynghoriad i ddisgyblion o Bowys, ac mae ymarferwyr CAMHS Mewngymorth yn cynorthwyo disgyblion o Went yn y ddwy ysgol uwchradd yn Ne Powys.

7.11 Mae'r modelau hyfforddiant, er enghraifft, wrth hyrwyddo'r Pum Ffordd at Lesiant; ymgynghori, cyngor a chyswllt a mynediad at wasanaethau arbenigol, wedi'u datblygu gan y rhaglenni peilot, wedi'u trafod mewn adrannau cynharach.

### **Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd**

7.12 O ystyried y pwysau ar staff, roedd llawer o ysgolion a staff wedi gwerthfawrogi'n fawr sylw'r rhaglen beilot ar gynorthwyo llesiant staff, gan ystyried bod hyn yn gyfraniad unigryw; er enghraifft, fel y nododd pennaeth ysgol gynradd:

'Nid yw llesiant staff erioed wedi'i ystyried o'r blaen ac mae [enw wedi'i hepgor] yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn.... athrawon yw'r unig broffesiwn sy'n gweithio gyda phlant heb unrhyw fath o oruchwyliaeth..... mae'r ffocws ar lesiant staff



wedi bod yn amserol ac yn bwysig – mae pwysau'r swydd yn cynyddu ac mae'r cyllidebau'n tynhau'.

7.13 Pwysleisiodd ymchwil ansoddol gyda staff ysgolion y cyfraniad a wneir i'w llesiant eu hunain drwy'r canlynol:

- hyfforddiant, fel y cwrs Pum Ffordd at Lesiant, sydd wedi'i ddilyn gan nifer mawr o staff, ac ystyriwyd ei fod o werth (yn berthnasol) i staff a disgyblion;
- y sicrwydd a gynigir gan gyngor ac ymgynghoriadau ag ymarferwyr CAMHS Mewngymorth;
- cyfathrebu gwell â gwasanaethau cymorth.

7.14 Serch hynny, fel yr amlinellwyd uchod, roedd yr ymateb cyffredinol i'r hyfforddiant yn gadarnhaol, cafwyd ychydig o sylwadau ysgrifenedig yn yr arolwg yn dweud nad oedd yr hyfforddiant CAMHS Mewngymorth wedi bod yn ddigon da. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau beirniadol hyn yn canolbwyntio ar yr hyfforddiant a gweithdai llesiant, a gafodd lai o groeso, mae'n debyg, na hyfforddiant ar anawsterau iechyd meddwl disgyblion; er enghraifft, roedd y sylwadau ysgrifenedig yn yr arolwg yn cynnwys y canlynol:

'nid oedd yr hyfforddiant a gawsom ym mis Chwefror wedi'i anelu at lesiant disgyblion, ond ein llesiant ein hunain. Roedd yn ddiwrnod o "weithdai" a gyflwynwyd gan bobl a gyfaddefodd eu hunain "nad oeddent yn arbenigwyr". Gwastraff amser llwyr'. (Athro).

'Mae pwyslais mawr ar lesiant disgyblion, ond dim llawer o bryder ynghylch y staff yn yr ysgol. Ni wnaeth yr hyfforddiant tybiedig a gynigiwyd helpu ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo mwy o straen gan y gallent fod wedi gwneud cymaint o waith yn ystod yr amser roeddem yn gwrando ar gerddoriaeth morfilod'. (Athro).

7.15 Nododd ymchwil ansoddol gyda'r rhaglenni peilot, a rhywfaint o ddata hunanwerthuso cyfranogwyr a gasglwyd gan y rhaglenni peilot, hefyd fod yr hyfforddiant uniongyrchol ar straen a llesiant staff wedi bod yn fwy dadleuol na hyfforddiant ar iechyd meddwl a llesiant disgyblion, gyda rhai staff yn ymgysylltu'n gryf ac eraill yn amau ei werth, ei berthnasedd a/neu ei ddull cyflwyno.

## **Asesu cyfraniad tebygol y rhaglenni peilot i'r canlyniadau a fwriedir**

7.16 Fel yr amlinellwyd uchod, mae lefelau uchel o straen staff a lefelau isel o lesiant staff yn bryder allweddol. Fel y mae'r adran nesaf yn amlinellu, mae cydnabyddiaeth gynyddol bod hybu llesiant staff yn rhan annatod o ymagweddau ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion; fel y mae un astudiaeth yn nodi:

'staff within many schools are themselves highly stressed and this will be impacting on the emotional climate within schools and undermines ability to provide positive support to children and young people' (Stirling ac Emery, d.d.).

7.17 Mae lefelau llesiant a straen staff yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys y ffactorau hynny y mae'r rhaglen beilot yn ceisio eu newid, fel hyder a chymhwysedd a mynediad at wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, mae lefelau llesiant a straen staff hefyd yn dibynnu, i raddau helaeth, ar ffactorau ehangach, gan gynnwys llwythi gwaith staff, atebolrwydd a diwygiadau ADY a chwricwlwm, nad yw'r rhaglen beilot yn mynd i'r afael â nhw. Felly, mae cyfraniad y rhaglen beilot yn debygol o fod yn un o leihau (ond nid dileu) ffynonellau straen, codi ymwybyddiaeth o'r mater a'i broffil a chyfiawnhau sgrysiâu; a hefyd helpu staff i ymdopi'n well (e.e. drwy ganolbwyntio ar y Pum Ffordd at Lesiant). Gall y cyfraniadau olaf hyn (codi ymwybyddiaeth, lleihau stigma a helpu staff i ymdopi) helpu i liniaru effaith ffynonellau straen, nad yw'r rhaglen beilot yn mynd i'r afael â nhw (fel llwythi gwaith trwm). Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio maint yr her yma, mewn perthynas â chapasiti'r rhaglen beilot i fynd i'r afael â hi, o gofio'r lefelau uchel o straen a lefelau gwael o lesiant a nodwyd gan staff addysg mewn ymchwil arall.

## **8. Effeithiolrwydd ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion a hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff**

### **Cyflwyniad**

- 8.1 Fel yr amlinellwyd yn y model rhesymeg (ffigur 1), drwy uwchsgilio staff, mae'r rhaglen beilot yn ceisio sicrhau bod: 'ysgolion yn gallu darparu ar gyfer anghenion addysgol eu disgyblion yn well'. Mae'r adran hon yn trafod effeithiolrwydd ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion, a chwestiynau ehangach hefyd ynghylch effeithiolrwydd ysgolion wrth hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff.

### **Effeithiolrwydd ysgolion wrth ddiwallu anghenion disgyblion a staff**

- 8.2 Roedd hyder staff yn effeithiolrwydd eu hysgolion wrth gynorthwyo disgyblion yn gymaradwy â'u hyder yn eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain. Fel y dengys graff 8.1, roedd tua thri chwarter (74 y cant) o'r holl staff a holwyd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hyderus bod eu hysgol yn effeithiol wrth hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Felly, mae'n bosibl bod ffurfio barn am eu gallu eu hunain yn dylanwadu ar eu barn am yr ysgol gyfan.
- 8.3 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion cynradd yn fwy effeithiol nag ysgolion uwchradd wrth hybu iechyd a llesiant disgyblion. Roedd hyder ymhlith staff ysgol gynradd a holwyd gyda dros bedwar o bob pump (84 y cant) yn cytuno bod eu hysgol yn effeithiol, yn uwch na hyder ymhlith staff ysgol uwchradd lle roedd ychydig dros dri o bob pump (63 y cant) ohonynt yn cytuno bod eu hysgol yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n gymaradwy â barn Estyn bod: 'gan naw o bob deg ysgol gynradd a thair o bob pedair ysgol uwchradd nifer o agweddau cadarn yn eu cymorth ar gyfer iechyd a llesiant disgyblion'. Wrth gymharu'r ymatebion i'r arolwg a barn Estyn, mae'n bwysig nodi bod safon neu fesur Estyn ('nifer o agweddau cryf') yn wannach na'r safon neu'r mesur a ddefnyddir yn yr arolwg ('mae fy ysgol yn effeithiol'). Hefyd, roedd gwahaniaethau yn ffocws yr arolwg ac Estyn, gydag Estyn yn canolbwyntio'n ehangach ar iechyd a llesiant, sy'n golygu na ellir cymharu'r ddwy set o ddata yn uniongyrchol. Serch hynny, mae'r ddau'n awgrymu bod ysgolion cynradd yn fwy effeithiol nag ysgolion uwchradd o ran hybu iechyd a llesiant disgyblion. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth cofio bod Estyn hefyd yn dod i'r casgliad canlynol: 'mae gan oddeutu dwy o bob tair ysgol gynradd a thraean o ysgolion uwchradd yng Nghymru ymagwedd ysgol gyfan,

gynhwysol [gweler y testun yn y blwch] at gefnogi iechyd a llesiant disgyblion.’  
(Estyn, 2019, t. 8).

### **Ymagweddau Ysgol Gyfan**


Mae Estyn yn diffinio ysgolion ag: ‘ymagwedd ysgol gyfan, gynhwysol at gefnogi iechyd a llesiant disgyblion’ fel rhai y mae ganddynt:

- ‘bolisiâu ac arferion sy’n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- arweinwyr sy’n ‘gwneud y dweud’ ynghylch cefnogi iechyd a llesiant disgyblion
- diwylliant anogol, lle y mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i
- ffynnu
- cymuned ac ethos cynhwysol
- gwybodaeth fanwl am iechyd a llesiant disgyblion sy’n dylanwadu ar bolisiâu a chymau gweithredu
- amgylchedd a chyfleusterau sy’n hybu iechyd a llesiant da, fel lle i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio amser egwyl
- cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n cynnwys profiadau dysgu unigol, seiliedig ar dystiolaeth, sy’n hybu iechyd a llesiant
- gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau targedig i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol
- cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol
- partneriaethau agos â rhieni a gofalwyr
- dysgu proffesiynol parhaus i’r holl staff, sy’n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion’.

*Addaswyd o Estyn, 2019*

8.4 Fodd bynnag, fel y dengys graff 8.1 hefyd, roedd y staff a holwyd yn llai hyderus o lawer bod eu hysgol yn effeithiol wrth hybu iechyd meddwl a llesiant staff (tua hanner (51 y cant))<sup>60</sup> (nag yr oeddent bod eu hysgol yn effeithiol wrth hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion (tua thri chwarter (74 y cant)).

**Graff 8.1 Hyder staff yn effeithiolrwydd ysgolion wrth hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff ysgol**



*Ffynhonnell: Pobl a Gwaith, arolwg llinell sylfaen CAMHS Mewngymorth 2019 (n=350 ac n=320)*

**Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiolrwydd ac asesu cyfraniad tebygol y rhaglenni peilot i'r canlyniadau a fwriedir**

8.5 Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effaith y rhaglen beilot ar sgiliau a hyder staff yn galonogol, ac yn awgrymu y bydd y rhaglen beilot yn cyfrannu at helpu i sicrhau bod (fel y mae damcaniaeth newid y rhaglen beilot yn nodi): 'ysgolion yn gallu darparu ar gyfer anghenion addysgol eu disgyblion yn well'. Fodd bynnag, mae gallu'r ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion, fel eu gallu i baratoi a chael mynediad at arbenigedd a chymorth mewn ysgolion (e.e. gan dimau ADY a/neu fugeiliol) a'r tu hwnt i ysgolion (e.e. gan wasanaethau arbenigol fel CAMHS), yn feysydd lle y mae cyfraniad y rhaglen beilot yn debygol o fod yn llai na'r effaith ar sgiliau staff. Yn ehangach, fel y mae'r is-adran nesaf yn amlinellu, efallai y bydd

<sup>60</sup> Ar y cwestiwn hwn, roedd ymatebion gan staff mewn ysgolion yn Sir Ddinbych yn wahanol i staff mewn ardaloedd eraill: Roedd 47% o staff yn Sir Ddinbych yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu hysgol yn effeithiol wrth hybu iechyd meddwl a llesiant staff, o gymharu hynny â 60% o staff mewn ardaloedd eraill. Felly, mae'n bosibl bod yr ymatebion gan staff yn Sir Ddinbych yn creu rhywfaint o duedd yn y sampl mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

sicrhau y gall ysgolion ddarparu ar gyfer anghenion addysgol eu disgyblion ei gwneud yn ofynnol cael ymagweddau ysgol gyfan.

### **Ymagweddau Ysgol Gyfan**

- 8.6 Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at hybu llesiant ac iechyd meddwl disgyblion. Gallai'r rhaglen beilot wneud cyfraniad pwysig i hyn ond, fel y mae'r adroddiad wedi trafod, mae agenda'r ysgol gyfan yn llawer ehangach na nodau'r rhaglen beilot mewn perthynas â chynyddu sgiliau a hyder staff, mynediad at gyngor a chyswllt arbenigol a llesiant staff. Yn benodol, mae'r ffocws (mewn ymagweddau ysgol gyfan) ar hybu llesiant disgyblion a helpu i atal anawsterau iechyd meddwl rhag dod i'r amlwg neu waethygu, er enghraifft, drwy newidiadau i ddiwylliant yr ysgol (e.e. meithrin amgylchedd diogel a digynnwrf), y cwricwlwm ac addysgu, a phartneriaethau â'r gymuned ehangach a theuluoedd, yn gyfrifoldeb ysgol gyfan (gweler e.e. Sterling ac Emery, d.d.; Estyn, 2019). Bydd gweithredu ymagweddau ysgol gyfan yn ei gwneud yn ofynnol cael mwy na hyfforddi ac ymgynghori ag aelodau staff unigol ac iddynt, sef ffocws y rhaglen beilot ar y cyfan<sup>61</sup>. Fel yr amlinellwyd yn adran 3, nid yw datblygu ymagweddau ysgol gyfan yn rhan o fodel rhesymeg y rhaglen beilot) ac ystyrir bod hyn y tu hwnt i gapasiti'r rhaglen beilot; ac yn hytrach, gellir ystyried bod y rhaglen beilot yn rhan o ymagwedd gyfan.

#### *Ymrwymiad ysgolion i iechyd meddwl a llesiant*

- 8.7 Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae ymagweddau ysgol gyfan yn ei gwneud yn ofynnol cael ymrwymiad gan yr ysgol gyfan. Pwysleisiodd ymchwil ansoddol gyda gwasanaethau bwysigrwydd canfyddedig codi'r flaenoriaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant mewn rhai ysgolion. Adroddodd cyfweleion o rai gwasanaethau fod rhai ysgolion ac athrawon sy'n dal i beidio ag ystyried mai eu rôl yw hybu iechyd meddwl da; er enghraifft, nododd cyfwelai o'r gwasanaeth ieuentid ei farn fel a ganlyn:

'mae rhai athrawon yn hen ffasiwn ac yn meddwl nad eu gwaith nhw yw poeni am hyn neu y dylai pobl 'dynnu eu hunain at ei gilydd' yn eu geiriau nhw. Mae llawer o athrawon am addysgu mathemateg, nid rhoi cymorth emosiynol'.

---

<sup>61</sup> Mae gwaith Gogledd Cymru ar ymagweddau ysgol gyfan yn sefyll allan fel eithriad yma ond, fel yr amlinellwyd yn adran 5, mae dechrau defnyddio hyn wedi bod yn arafach nag elfennau eraill o'r hyfforddiant.

- 8.8 Yn gyffredinol, teimlwyd bod yr agwedd hon yn lleihau ar y cyfan, ond adroddodd un gwasanaeth nad oedd bron hanner athrawon o'r farn bod cynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion yn rhan o'u rôl. Nid oedd yn glir sut roeddent wedi dod i'r casgliad hwn ac mae'n bosibl y bu rhywfaint o ormodiaith. Serch hynny, soniodd cyfweleion o wasanaethau hefyd am ysgolion a oedd yn 'dda' o ran cynorthwyo llesiant, ac ysgolion gwaeth y teimlwyd nad oeddent yn dda, gyda rhai (fel cyfwelai o'r gwasanaeth ieuenctid) yn dweud: 'rydych bob amser yn clywed am yr un ysgolion' (lle roedd pryderon ynghylch y ffordd roedd iechyd a llesiant disgyblion yn cael eu deall a'u cefnogi).
- 8.9 Yn ystod yr ymchwil ansoddol (gydag ysgolion, gydag ychydig o eithriadau, cododd staff ysgol y flaenoriaeth isel roedd ysgolion a staff yn ei rhoi i iechyd meddwl a llesiant disgyblion, pan wnaethant adrodd bod llesiant, yn y gorffennol, wedi cael llai o flaenoriaeth yn eu hysgolion (h.y. nid oedd hyn yn wir mwyach). Mae hyn yn debygol o adlewyrchu tuedd samplu, gan ei bod yn fwy tebygol bod ysgolion a staff yn yr ysgolion hynny sy'n cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad, a hefyd yr ysgolion hynny sy'n mynd ati i gymryd rhan weithredol yn y rhaglen beilot, â diddordeb ac ymrwymiad i wella iechyd meddwl a llesiant disgyblion (a staff). Mae'r anawsterau a gafodd y rhaglen beilot ei hun wrth ymgysylltu â'r holl ysgolion yn eu hardal hefyd yn awgrymu nad yw rhai ysgolion wedi blaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Serch hynny, mae'n bwysig cofio, oherwydd bod rhai ysgolion wedi blaenoriaethu'r maes hwn, nad ydynt wedi teimlo bod arnynt angen help y rhaglen beilot (ac nad ydynt felly cymryd rhan ynddi). Mae hefyd yn bosibl bod ffactorau eraill, fel amser ac adnoddau, wedi dylanwadu ar ymgysylltiad ysgolion. Drwy weithio i gynnwys yr holl ysgolion ym mhob ardal, mae'n debygol y bydd y rhaglen beilot yn helpu i godi'r flaenoriaeth y mae ysgolion yn ei rhoi i iechyd meddwl, ond ni ellir disgwyl iddi sicrhau hyn ar ei phen ei hun.

## 9. Casgliadau

### Gweithredu a chyflwyno'r rhaglen beilot

- 9.1 Mae ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid, adolygiad o ddogfennau prosiect a dadansoddi cynnydd yn erbyn model rhesymeg y rhaglen beilot yn nodi bod gweithredu a chyflawni'r rhaglen beilot wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Mae recriwtio gweithwyr medrus iawn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhaglen beilot. Nododd ymchwil gydag ysgolion fod ansawdd yr hyfforddiant a gyflwynwyd wedi bod yn hanfodol (ac wrth wneud y pwynt hwn, roedd cyfweleion yn aml yn cyferbynnu'n anffafriol eu profiadau o hyfforddiant a gyflwynwyd gan eraill â'r hyn a gyflwynwyd gan y rhaglen beilot). Roedd medrau a gallu'r ymarferydd CAMHS Mewngymorth i gysylltu (ac ymgorffori) hyfforddiant gyda'r ymgynghoriadau, gan ddilyn hyn drwy gysylltu ag enghreifftiau go iawn, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr hefyd. Fodd bynnag, mae cynnal ansawdd y gwaith yn debygol o fod yn her yn y dyfodol. Wrth i ymgysylltu ag ysgolion gryfhau (sy'n un o lwyddiannau'r rhaglen beilot), mae'r timau staffio o'r un maint yn cyflwyno i nifer cynyddol o ysgolion, ac yn gweithio gyda'r ysgolion hynny, sy'n creu perygl o wanhau'r effaith.
- 9.2 Mae ffyddlondeb i ddamcaniaeth newid y rhaglen beilot wedi bod yn gryf ar y cyfan. Er eu bod yn defnyddio'r un dulliau, mae gwahanol ardaloedd wedi pwysleisio neu flaenoriaethu agweddau gwahanol ar y model peilot, o ystyried y gwahaniaethau yn eu cyd-destun; er enghraifft:
- yng ngogledd Cymru, cafwyd pwyslais cryf ar hybu llesiant staff ac ar hyfforddiant, a llai o bwyslais ar ymgynghori a mynediad at wasanaethau arbenigol;
  - yn ne-ddwyrain Cymru, cafwyd trafodaethau ynghylch beth ddylai'r cydbwysedd rhwng ymgynghori a hyfforddiant fod, gyda rhai'n gwthio am bwyslais ar hyfforddiant, ac eraill am gael mwy o bwyslais ar fodel ymgynghori ymatebol a model grŵp o ddysgu a chymorth proffesiynol yn sail i'r hyfforddiant; ac
  - yng Ngheredigion, mae model partneriaeth cryf wedi datblygu ar gyfer gwaith ymgynghori gydag ysgolion uwchradd, ynghyd â model hyfforddi tair haen. Fodd bynnag, mae maint a natur wledig yr ardal, ynghyd ag amser cyfyngedig y staff, wedi llesteirio ymdrechion i ddarparu ymgynghoriadau i fwy na llond llaw o ysgolion cynradd.



9.3 Amlygodd ymchwil ansoddol sut y mae'r gwahaniaethau hyn o ran pwyslais yn adlewyrchu nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys:

- gwahaniaethau mewn cyd-destun, yn fwyaf nodedig o ran mynediad at wasanaethau arbenigol a'r angen perthynol i flaenoriaethu'r maes hwn;
- gwahaniaethau o ran diddordeb ac ymgysylltiad ysgolion ym mhob ardal; a
- gwahaniaethau o ran sgiliau a chryfderau ymarferwyr CAMHS Mewngymorth unigol a chapasiti tîm pob ardal beilot.


Mae'r gwahaniaethau hyn, ynghyd â gwahaniaethau yn y sefyllfa llinell sylfaen ym mhob ardal, yn golygu bod effaith y rhaglen beilot yn debygol o fod yn wahanol ym mhob ardal.

9.4 Mae datblygiad y rhaglen beilot yn golygu, fel y dengys ffigur 9.1, bod dau ddull allweddol sy'n atgyfnerthu ei gilydd ar gyfer creu newid wedi datblygu, lle mae:

- hyfforddiant, cyngor ac ymgynghori yn cynyddu sgiliau, gwybodaeth a hyder staff;
- cyngor ac ymgynghori a gwaith gyda gwasanaethau yn gwella'r berthynas â gwasanaethau arbenigol fel CAMHS, hyd yn oed os nad yw o reidrwydd yn cynyddu mynediad; ac mae hyn yn ei dro yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl, ac yn cyfrannu at well llesiant staff; ac
- mae hyfforddiant mewn lleihau straen a gwella llesiant, ynghyd â chynnydd yn hyder staff a gwell perthnasoedd â gwasanaethau arbenigol, a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl disgyblion, yn cyfrannu at welliannau o ran llesiant staff, sydd hefyd yn cyfrannu at well darpariaeth ar gyfer iechyd meddwl disgyblion.

9.5 Mae'r dulliau hyn yn gyson â damcaniaeth newid y rhaglen beilot, ond ni chawsant eu mynegi'n llawn fel dulliau achosol ym model rhesymeg gwreiddiol y peilot.

**Ffigur 9.1 Dulliau'r rhaglen beilot ar gyfer creu newid**



### **Hyder a sgiliau athrawon ac ysgolion wrth ymateb i bryderon emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion**

9.6 Nododd ymchwil ansoddol gydag ysgolion y teimlwyd bod pryderon am iechyd meddwl a llesiant yn ‘faterion enfawr’ i ysgolion. Mae'r dystiolaeth o'r arolwg o staff a chyfweliadau â staff ysgol yn awgrymu bod y rhan fwyaf yn hyderus wrth nodi a oes gan ddisgyblion broblemau iechyd meddwl, ond ar y cyfan, mae'r staff yn llawer llai hyderus wrth asesu anghenion disgyblion neu gefnogi eu hanghenion. Mae'r ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r hyfforddiant a gynigir hefyd yn darparu tystiolaeth anuniongyrchol o fylchau mewn sgiliau (y rhoddir sylw iddynt drwy'r hyfforddiant a'r ymgynghoriad). Mae ymchwil arall yn awgrymu bylchau mewn gwybodaeth staff mewn meysydd fel datblygiad plentyndod (Estyn, 2019). Yn eu hadroddiad diweddaraf ar effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion, mae Estyn yn nodi:

‘ychydig athrawon sy’n ymuno â’r proffesiwn gyda hyfforddiant cefndir sylweddol ym maes datblygiad plant neu’r glasoed, neu’r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant plant. Dim ond lleiafrif o staff mewn ysgolion sydd o’r farn bod yr hyfforddiant neu’r arweiniad a gawsant ar y cychwyn neu mewn swydd wedi’u helpu i gynorthwyo disgyblion â’u llesiant a’u hiechyd meddwl’ (t. 33, *ibid.*).

- 9.7 Er ei bod yn ymddangos bod y ffynhonnell ar gyfer y canfyddiad hwn o arolwg ar-lein (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017) yn hytrach na chanfyddiadau o arolygiadau Estyn, ac felly bydd ganddi rai cyfyngiadau pwysig (gan ei bod wedi'i thynnu o sampl hunanddethol a chymharol fach), mae'n amlygu pryderon tebyg am sgiliau a hyder staff a godwyd gan nifer o randdeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.
- 9.8 Yn yr un modd, fel y mae adran 5 yn amlinellu, mae'r model presennol ar gyfer asesu, cynllunio a chynorthwyo disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl yn golygu bod arbenigedd wedi'i ddsbarthu'n anwastad ar draws ysgolion a gwasanaethau. Pan fo'r model yn gweithio'n dda, caiff yr arbenigedd hwn ei ddefnyddio yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu nad yw pob aelod o staff yn gyfrifol am asesu neu gynllunio ar gyfer disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl ac o ganlyniad, nid oes angen yr un lefel o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ar bob aelod o staff mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Mae'r model hwn hefyd yn golygu bod effeithiolrwydd hyfforddiant ac ymgynghori yn dibynnu nid yn unig ar ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant a'r cyngor a gynigir gan y rhaglen beilot, ond hefyd ar ysgolion yn dewis ymgysylltu â'r rhaglen beilot, gan ddewis y staff 'cywir' i gael eu hyfforddi (o ystyried model presennol ysgolion o ddiwallu anghenion iechyd meddwl disgyblion) a gallu eu rhyddhau.
- 9.9 Fodd bynnag, gall symud i ymagweddau ysgol gyfan, fel y rhai a amlinellwyd yn adran 8, a'r pwyslais mwy ar lesiant yn y cwricwlwm ysgol newydd, olygu bod angen sgiliau a gwybodaeth ar fwy o staff nag yn y model presennol. Mae'n debygol y bydd angen amrywiaeth o wahanol fodelau o ddysgu proffesiynol, gan gynnwys newidiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon (Estyn, 2019), hyfforddi, mentora, astudio hunangyfeiriedig a chymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol (Hill, 2013) ochr yn ochr â'r modelau hyfforddi ac ymgynghori a ddatblygwyd gan y rhaglen beilot, er mwyn diwallu anghenion dysgu proffesiynol staff.

### **Effeithiolrwydd y rhaglen beilot o ran hwyluso mynediad at gymorth arbenigol**

- 9.10 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar gyfer yr astudiaeth hon yn amlygu'r ffyrdd y mae galw cynyddol am wasanaethau arbenigol a thoriadau mewn cyllid, wedi gorfodi gwasanaethau i ddogni mynediad drwy amseroedd aros a throthwyon uwch. Mae hyn wedi gadael llawer o ysgolion yn ei chael yn anodd cael cymorth arbenigol i'r disgyblion sydd ei angen.

- 9.11 Nid yw'r rhaglen beilot yn cynyddu capasiti gwasanaethau arbenigol, ac felly gall wella mynediad at wasanaethau arbenigol dim ond drwy leihau'r galw am y gwasanaethau arbenigol hynny drwy, er enghraifft:
- helpu i atal anawsterau iechyd meddwl disgyblion rhag gwaethygu;
  - 'dal gafael' ar fwy o ddisgyblion a'u cynorthwyo heb droi at gymorth gan wasanaethau arbenigol; a
  - sicrhau mai dim ond y disgyblion hynny sydd angen asesiad a chymorth gan wasanaethau arbenigol sy'n cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau hynny.
- 9.12 Gall y rhaglen beilot gyfrannu at bob un o'r rhain drwy, er enghraifft, hyfforddi a chynorthwyo staff, gan gynnig mynediad uniongyrchol i rai agweddau ar arlwy CAMHS, drwy gyngor a ymgynoriadau, a thrwy weithredu fel canolwr neu bont rhwng ysgolion a gwasanaethau, gan wella cyfathrebu a chyd-ddealltwriaeth. Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhaglen beilot Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyswllt Ysgolion yn Lloegr, nid yw rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth wedi cynnig i ysgolion gael mynediad uniongyrchol i CAMHS (na darparu cyllid i alluogi hyn). O ganlyniad, mae effaith rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth ar gapasiti mynediad CAMHS a mynediad ysgolion at wasanaethau arbenigol, wedi bod yn llai nag effaith y rhaglen beilot ar sgiliau neu hyder staff, neu effaith y rhaglen beilot yn Lloegr ar fynediad ysgolion i CAMHS. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut y gellir cynyddu capasiti gwasanaethau arbenigol fel CAMHS a/neu gynyddu capasiti ysgolion, er mwyn iddynt allu 'dal gafael ar' fwy o ddisgyblion (a pharhau i weithio gyda nhw, yn hytrach nag atgyfeirio ymlaen) ac ymdrin ag anawsterau iechyd meddwl mwy cymhleth heb droi at wasanaethau arbenigol, neu droi atynt yn llai aml.
- 9.13 Mae effaith y rhaglen beilot ar fynediad ysgolion i wasanaethau hefyd yn debygol o fod yn llawer mwy ar gyfer ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd. Dim ond gyda disgyblion sydd yn y flwyddyn olaf (Blwyddyn 6) yn yr ysgol gynradd y mae'r rhaglen beilot yn gweithio gyda nhw ac, yn ystod ein cyfweiliadau, roedd ysgolion cynradd yn fynych yn mynegi rhwystredigaeth na allai'r rhaglen beilot weithio gyda phlant iau. At hynny, mae'r rhaglen beilot ar y cyfan wedi blaenoriaethu gwaith gydag ysgolion uwchradd ac mae wedi ei chael yn anoddach weithiau i ymgysylltu ag ysgolion cynradd a'u cynorthwyo.

## **Effeithiolrwydd y rhaglen beilot o ran lleihau straen staff a hybu llesiant staff**

- 9.14 Mae gwella llesiant staff a lleihau straen staff yn bwysig ar gyfer staff a disgyblion, oherwydd bod anawsterau iechyd meddwl staff yn achos pryderon ynddynt eu hunain ac oherwydd eu bod hefyd yn debygol o danseilio ymdrechion ysgolion i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion a hybu llesiant disgyblion.
- 9.15 Mae'r dystiolaeth o'r arolwg staff, cyfweiliadau ag ysgolion a gwasanaethau, a'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, i gyd yn amlygu'r lefelau uchel o straen a lefelau isel o lesiant y mae rhai aelodau o staff yn eu profi. Mae hyder staff ac anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau arbenigol, y mae'r rhaglen beilot yn ceisio mynd i'r afael â nhw, yn cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen beilot yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â llawer o achosion eraill lefelau uchel o straen a lefelau isel o lesiant, fel llwythi gwaith trwm, cyfundrefnau atebolrwydd a diwygio ysgolion. Gall hyfforddiant a gweithdai i hybu llesiant ac ymdopi â straen helpu i liniaru effaith y ffactorau hyn ar staff, ond nid ydynt yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol.

## **Yr achos o blaid y rhaglen beilot**

- 9.16 Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y rhaglenni peilot yn gadarn, mae'r achos o blaid y rhaglen beilot yn gryf. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym a barn amrywiol randdeiliaid, rydym yn canfod y canlynol:
- mae damcaniaeth newid y rhaglen beilot yn gadarn;
  - mae wedi'i chyflwyno'n dda ar y cyfan;
  - mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi uchelgeisiau'r rhaglen beilot a'i heffaith hyd yn hyn; ac
  - mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg (o'r rhaglenni peilot eu hunain, yr arolwg staff ac ymchwil ansoddol) o effaith y rhaglen beilot, ar sgiliau a hyder staff yn arbennig, yn galonogol.
- 9.17 Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae llai o dystiolaeth o effaith mor fawr ar y canlynol, a llai o reswm i ddisgwyl hyn:
- mynediad ysgolion at wasanaethau arbenigol, oherwydd bod gwasanaethau yn aml yn ei chael yn anodd ymdopi â bwlch rhwng y galw a'r capasiti (bwlch na all y rhaglen beilot ei gau); a

- straen a llesiant staff ysgol, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y rhaglen beilot, sy'n cyfrannu at straen a llesiant gwael staff.

### **Risgiau a heriau posibl**

- 9.18 Roedd cyfanswm y buddsoddiad cychwynnol yn y rhaglen beilot (£1.4m) yn gymharol fach mewn perthynas â'r effaith ar ysgolion. Rhoddodd y buddsoddiad yn y rhaglen beilot ddigon o gapasiti i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i nifer mawr o ysgolion. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae galw mawr ar ymarferwyr CAMHS Mewngymorth o ystyried nifer yr ysgolion a'r staff y maent yn gweithio gyda nhw, ar y cyfan mae'r rhaglenni peilot wedi blaenoriaethu gwaith gydag ysgolion uwchradd dros ysgolion cynradd, ac mae risgiau y bydd ansawdd a swm y cymorth ar gyfer ysgolion unigol yn cael eu gwanhau wrth i niferoedd cynyddol o ysgolion ymgysylltu â'r rhaglen.
- 9.19 At hynny, mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma hefyd yn awgrymu'n gryf, er gwaethaf cymorth a chanmoliaeth eang i'r rhaglen beilot (ymhlith y rhai a gyfrannodd at yr astudiaeth), na fydd y rhaglen beilot yn ateb i bob problem ar gyfer yr y mae rhai yn ei weld fel 'argyfwng' o ran iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Nid yw'r rhaglen beilot wedi'i bwriadu i wneud hyn ac nid yw'n cael adnoddau i wneud hyn. Mae hyn yn adlewyrchu graddfa gymharol fach y rhaglen beilot (o'i chymharu â maint yr her) ac mae'r ffactorau a drafodwyd uchod yn debygol o gyfyngu ar ei heffaith mewn meysydd fel mynediad at wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, mae rhai aelodau o'r rhaglenni peilot wedi teimlo fel petai'r rhaglen, ar brydiau, wedi'i chyflwyno fel pe bai'n ateb i bob problem. Felly mae'n bwysig bod yn realistig ac yn bragmatig ynghylch beth y gall ac y dylai'r rhaglen ei wneud a'r hyn na all ei wneud a/neu na ddylai geisio ei wneud; er enghraifft, er y gall y rhaglen beilot wneud cyfraniad pwysig i'r agenda ysgol gyfan, nid yw'n cael yr adnoddau ac nid yw mewn sefyllfa (o ystyried arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau Iechyd Lleol o'r rhaglen beilot) i gyflwyno'r newidiadau diwylliannol a sefydliadol sy'n ofynnol mewn traean efallai o ysgolion cynradd a dwy ran o dair o ysgolion uwchradd (Estyn, 2019). Yn lle hynny, mae'n well ystyried y rhaglen beilot fel rhan bosibl o strategaeth ehangach i hyrwyddo ymagweddau ysgol gyfan. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau y caiff yr amrywiaeth o fentrau a lansiwyd i hybu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc eu cydlynu, i osgoi dyblygu diangen a sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl, a sicrhau bod ymagwedd 'system gyfan' o hybu iechyd meddwl a llesiant.

## **10. Argymhellion ar gyfer y rhaglen beilot, ymchwil bellach a dysgu sy'n dod i'r amlwg**

### **Argymhellion ar gyfer y rhaglen beilot**

Argymhelliad 1. Ar gyfer Llywodraeth Cymru: mae tystiolaeth gynnar galonogol o effeithiolrwydd y rhaglen beilot a damcaniaeth gadarn o newid. Fodd bynnag, nid yw effaith y rhaglen beilot wedi'i dangos eto. Dylid gohirio penderfyniadau ynghylch datblygu'r rhaglen beilot, fel ei pharhad, ehangu a/neu ei chau, hyd nes bod asesiad mwy cynhwysfawr o'r rhaglen beilot wedi'i gynnal, a'i chyfraniad posibl at ymagweddau ysgol gyfan wedi'i archwilio'n llawnach. Dylai'r ail gylch o arolygon a chyfweliadau ag ysgolion a gwasanaethau ddarparu tystiolaeth ychwanegol i lywio penderfyniadau. Er na ddylid rhuthro penderfyniadau am ddatblygu'r rhaglen beilot (a dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth), bydd yn bwysig sicrhau bod y rhaglen beilot a phartneriaid eraill yn cael digon o amser i baratoi ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Argymhelliad 2. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion gynnwys mynediad at raglen barhaus o hyfforddiant sy'n agored i bob aelod o staff mewn meysydd lle gallai'r broses o nodi anawsterau iechyd meddwl godi; hyfforddiant mwy arbenigol i'r rhai y mae angen mwy o arbenigedd arnynt, fel Cydlynwyr ADY/Cydlynwyr AAA a staff bugeiliol; a chymorth ymatebol ac o bosibl cymorth wedi'i deilwra'n arbennig a dysgu proffesiynol sydd wedi'i dargedu at ddisgyblion neu faterion penodol a allai, er enghraifft, gael eu darparu drwy ymgynghoriadau.

Argymhelliad 3. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai gwerthusiad o effeithiolrwydd dysgu proffesiynol ystyried nifer y staff sy'n cymryd rhan a hefyd eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn ysgolion; er enghraifft, gall cynyddu capasiti staff bugeiliol i asesu anghenion disgyblion gael mwy o effaith na chynyddu capasiti athrawon i asesu anghenion disgyblion.

Argymhelliad 4. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol a'r rhaglen beilot: dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o fodloni anawsterau iechyd meddwl disgyblion oedran ysgol gynradd nad ydynt ym Mlwyddyn 6. Mae'n werth ystyried ymestyn y peilot a chaniatáu i ymarferwyr CAMHS Mewngymorth weithio gyda disgyblion iau. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r peilot wedi cael llai o ymgysylltiad ag ysgolion cynradd ac mae unrhyw estyniad yn peryglu ymestyn ymhellach gapasiti ymarferwyr CAMHS Mewngymorth a gwanhau effaith y rhaglen beilot o bosibl. Felly, nid yw'n glir a fyddai ymestyn yr ystod oedran y mae'r rhaglen beilot yn gweithio gyda hi yn opsiwn cost-effeithiol ai peidio.

Argymhelliad 5. Ar gyfer y rhaglen beilot: dylai capasiti timau CAMHS Mewngymorth gael ei fonitro'n ofalus i sicrhau os, fel y disgwylir, y bydd mwy o ysgolion yn ymgysylltu â'r rhaglen beilot, nad yw effaith y rhaglen beilot yn cael ei gwanhau'n ormodol a/neu beryglu llwyth gwaith a llesiant y timau staff eu hunain.

### **Argymhellion ar gyfer ymchwil bellach**

Argymhelliad 6. Ar gyfer y rhaglen beilot a Llywodraeth Cymru: dylid cynnal gwerthusiad cymharol o gynnwys, darpariaeth ac effaith y modelau hyfforddiant a dysgu proffesiynol gwahanol a fabwysiadwyd gan bob ardal beilot, er mwyn llywio'r gwaith o rannu arfer da ar draws y tair ardal beilot a sicrhau ei effaith fwyaf. Dylid hefyd ystyried y cwmpas ar gyfer datblygu modelau ar y cyd neu fodolau a rennir o ddysgu proffesiynol ar draws ardaloedd peilot.

Argymhelliad 7. Ar gyfer y rhaglen beilot a Llywodraeth Cymru: dylai perthnasedd, gwerth ac effaith ganfyddedig hyfforddiant a chymorth ynghylch straen a llesiant staff gael eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus ac, os oes angen, gwneud newidiadau.

### **Dysgu sy'n dod i'r amlwg**

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu bod:

1. Angen i gynnig dysgu proffesiynol y rhaglen beilot gael ei gynllunio a'i gyflwyno fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol ehangach i staff ysgolion gan gynnwys, er enghraifft, yr hyn a ddarperir drwy addysg gychwynnol i athrawon a chan wasanaethau gwella addysg rhanbarthol, a gwasanaethau eraill fel cynhwysiant awdurdodau lleol, gwasanaethau seicoleg addysg a byrddau iechyd lleol.
2. Dylai'r goblygiadau ar gyfer y rhaglen beilot, yn sgil y cwricwlwm ysgol newydd, ac argymhellion y Tasglu Cyd-Weinidogol ar ddulliau ysgol gyfan ar gyfer gofynion dysgu proffesiynol staff ysgol, gael eu nodi. Gall dulliau ysgol gyfan greu rolau a chyfrifoldebau newydd mewn perthynas â hybu a chynorthwyo iechyd meddwl a llesiant disgyblion ac felly gofynion dysgu proffesiynol newydd ar gyfer rhai grwpiau o staff ysgol.
3. Mae angen camau gweithredu i asesu i ba raddau y mae gwasanaethau arbenigol fel CAMHS, yn wynebu bwlch galw-capasiti, a lle y bo angen, camau gweithredu i gau'r bwlch hwnnw. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, buddsoddiad ychwanegol ac ad-drefnu gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl yn well.



4. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynyddu capasiti ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau iechyd meddwl heb orfod troi at wasanaethau arbenigol, neu droi atynt yn llai aml. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, archwilio cost-effeithiolrwydd buddsoddi mewn arbenigedd ADY/AAA a thimau bugeiliol mewn ysgolion, a rhoi mynediad haws i'r timau hyn i gyngor a chymorth gan arbenigwyr (fel yr ymgynghoriadau a ddarperir gan ymarferwyr rhaglen beilot CAMHS Mewngymorth), yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i wasanaethau arbenigol. Mae'r dysgu o'r rhaglen beilot am y bylchau diwylliannol a chyfathrebu rhwng ysgolion a gwasanaethau, a ffyrdd y gellir eu pontio, hefyd yn debygol o fod yn berthnasol yma. Mae angen mwy o waith i wella llesiant staff ysgol a lleihau straen staff. Mae'r dystiolaeth o'r astudiaeth hon yn awgrymu y dylai camau gweithredu yma fod yn rhan o ymagweddau ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion, ond mae argymhellion manwl yn y maes hwn y tu hwnt i gylch gwaith yr astudiaeth hon.

## Llyfryddiaeth

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (2019) [Is young people's mental health getting worse?](#)

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2014) [Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed \(CAMHS\)](#), Caerdydd, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2018) [Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru](#), Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Day, L., Blades, R., Spence, C., Ronicle, J. (2017) [Mental Health Services and Schools Link Pilots – Evaluation Report](#), Adran Addysg.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2017). [Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg, Adroddiad Ymchwil, Ebrill 2017.](#)

Estyn. (2019) [Iach a hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion](#), Caerdydd, Estyn.

Glazzard, J. a Rose, A. (2019) [The impact of teacher well-being and mental health on pupil progress in primary schools](#), Prifysgol Leeds Becket.

Harding, S, Evans, R, Morris, R, Gunnell, D, Ford, T, Hollingworth, W, Tilling, K, Bell, S, Grey, J, Brockman, R, Campbell, R, Araya, R, Murphy, S a Kidger, J 2019, 'Is teachers' mental health and well-being associated with students' mental health and well-being?', *Journal of Affective Disorders*, cyf. 242, tt. 180-187.

Hewitt G., Anthony R., Moore G., Melendez-Torres G.J., Murphy S. (2019) [Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2017/18 ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.](#) Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, y DU.

Hill, R. (2013) [Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol](#), Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Trysorlys Ei Mawrhydi (2011) [The Magenta book – Guidance for Evaluation](#), Llundain, Trysorlys Ei Mawrhydi.

Moore, G., Audrey, S., Barker, M., Bond, L., Bonell, C., Hardeman, W., Moore, L., O’Cathain, A., Tinati, T, Wright, D. a Baird, J. (2015). [Process evaluation of complex interventions: UK Medical Research Council \(MRC\) guidance](#).

Murphy, M. a Fonegy, P. (2012) Pennod 10: ‘Mental Health Problems in Children and Young People’. Argraffwyd yn: Davies, S.C. [Annual Report of the Chief Medical Officer 2012, Our Children Deserve Better](#), Llundain, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llesiant Emosiynol ac Iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau, crynodeb o'r arolwg – gweithwyr addysg proffesiynol](#).

NHS Digital (2018) [Mental Health of Children and Young People in England](#), NHS Digital – Government Statistical Service.

GIG Cymru (2015) [Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc](#), Llywodraeth Cymru.

GIG Cymru (d.d.) [Specialist Child and Adolescent Mental Health Service \(S-CAMHS\) - Parents and carers - How can we access S-CAMHS?](#)

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. (d.d.) [Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru](#).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) [Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod \(ACE\)](#), Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) *Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Asesiad o Anghenion Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed*, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru [\(2016/17\) Adroddiad Blynyddol](#), GIG Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru.

StatsCymru (2019) [\*Athrawon yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori\*](#), Llywodraeth Cymru.

StatsCymru (2019) [\*Staff cymorth yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori\*](#), Llywodraeth Cymru.

Stirling, S. ac Emery, H. (d.d.) [\*A whole school framework for emotional well-being and mental health. Supporting resources for School Leaders\*](#), Llundain, Biwro Cenedlaethol y Plant.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) [\*Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru\*](#).

Llywodraeth Cymru (2015a) [\*Dyfodol Llwyddiannus Yn edrych ar y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru\*](#), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015b) [\*Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig \(AAA\) – adroddiad terfynol\*](#), Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015c) [\*Cynllunio gweithlu gwasanaethau arbenigol anghenion addysgol arbennig \(AAA\)\*](#), Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) [\*Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol\*](#), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019a) [\*CYPE\(5\)-19-19 - Papur 1\*](#).

Llywodraeth Cymru (2019b) [\*Dadansoddiad Llinell Uchaf ac Astudiaeth Ddichonoldeb o lechyd Meddwl a Llesiant gan ddefnyddio Data Astudiaeth Cohort y Mileniwm\*](#).

Llywodraeth Cymru (d.d.) [\*Cwricwlwm i Gymru 2022\*](#), Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A. Copi o'r Holiadur Llinell Sylfaen

### Cefndir

1. Ysgrifennwch enw eich ysgol yn y bocs isod, os gwelwch yn dda

2. Ym mha awdurdod lleol mae eich ysgol?

3. Pa fath o ysgol yr ydych yn gweithio ynddo?

- Ysgol gynradd
- Ysgol Gydol Oes / Ysgol ganol
- Ysgol uwchradd
- Cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Saesneg yn bennaf
- Cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf
- Dwy ffrwd
- Trawsnewidiol

4. Pa gyfrwng iaith ydy'r Ysgol?

- Cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Saesneg yn bennaf
- Cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf
- Dwy ffrwd
- Trawsnewidiol

5. Beth sydd yn disgrifio orau eich rôl yn yr Ysgol? (Cliciwch bob un sy'n berthnasol)

- Athrawes / athro
- Staff cymorth
- Cydlynwyr AAA neu ADY
- Arweinydd / Tîm bugeiliol
- Arall (nodwch)
- Arweinydd ysgol / Aelod o'r tîm uwch reoli
- Nyrs ysgol
- Cyngorydd ysgol

## Hyder a chefnogaeth

6. Darllenwch y datganiadau canlynol a chliciwch y blwch sy'n disgrifio orau sut ydych yn teimlo.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Rwy'n hyderus y gallaf nodi ei bod yn bosibl bod gan ddisgybl anghenion iechyd meddwl heb eu diwallu.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rwy'n teimlo'n hyderus i drafod anghenion iechyd meddwl a llesiant gyda disgyblion unigol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rwy'n teimlo'n hyderus i siarad â rhiant neu ofalwr am iechyd meddwl eu plentyn.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rwy'n hyderus o ran nodi pan fydd angen cyngor neu gymorth arnaf i ddeall anhawster iechyd meddwl disgybl yn well neu fynd i'r afael â hyn.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae fy ysgol yn effeithiol o ran hybu iechyd meddwl a llesiant disgyblion.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae fy ysgol yn effeithiol o ran hybu iechyd meddwl a llesiant staff.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

7. Os bydd angen, rwy'n gwybod sut i gael cyngor neu gymorth pan fyddaf yn nodi y gall fod anawsterau iechyd meddwl gan ddisgybl.

- Cytuno
- Anghytuno

## Mynediad i gefnogaeth

8. Pwy fydddech yn mynd i ar gyfer rhagor o gyngor neu gymorth pan fydddech yn nodi y gall fod anawsterau iechyd meddwl gan ddisgybl? (Cliciwch bob un sy'n berthnasol)

- |  |  |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Cydlynwyr AAA neu ADY     | <input type="checkbox"/> Nyrs ysgol                              |
| <input type="checkbox"/> Arweinydd / Tîm bugeiliol | <input type="checkbox"/> Ymarferydd CAMHS Mewngymorth i Ysgolion |
| <input type="checkbox"/> Cyngorydd ysgol           |  |
| <input type="checkbox"/> Arall (nodwch)            |  |

9. Pa wasanaeth fydddech yn mynd i ar gyfer cyngor neu gymorth (Cliciwch bob un sy'n berthnasol)?

- |  |   |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Gwasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol  | <input type="checkbox"/> CAMHS  |
| <input type="checkbox"/> Gwasanaeth seicoleg addysg  | <input type="checkbox"/> Dim un (does dim gwasanaeth fydda'n mynd i ar gyfer cyngor neu gefnogaeth) |
| <input type="checkbox"/> Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf neu dîm o Amgylch y Teulu / Plentyn) | <input type="checkbox"/> Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod  |
| <input type="checkbox"/> Gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol / Tîm  |   |
| <input type="checkbox"/> Arall (nodwch)  |   |

10. Darllenwch y datganiadau canlynol a chliciwch y blwch sy'n disgrifio orau sut ydych yn teimlo bod CAMHS yn fy nghefnogi

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn siŵr / Ddim yn gwybod

## Eich lles

Darllenwch y cwestiynau a chliciwch y blwch sy'n disgrifio orau sut ydych yn teimlo.

11. Rwy'n profi lefelau uwch o straen wrth ddelio ag anawsterau iechyd meddwl disgyblion.

- Bob amser
- Yn aml
- Weithiau
- Anaml
- Byth
- Ddim yn siŵr
- Arall (nodwch)

12. Rwy'n gwybod at bwy i fynd yn yr ysgol os bydd angen cymorth arnaf ar gyfer fy llesiant fy hun.

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

## Y peilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion

13. A ydych chi'n ymwybodol o'r rhaglen CAMHS Mewngymorth i Ysgolion?

- Ydw
- Nac ydw



14. Dwi'n gwybod pwy yw ymarferydd CAMHS Mewngymorth ein hysgol

- Ydw  
 Nac ydw

15. A ydych chi wedi cael eich cefnogi gan ymarferydd CAMHS Mewngymorth i Ysgolion, er enghraifft, drwy drafod anghenion disgybl neu drafod priodoldeb atgyfeirio i wasanaeth arbenigol fel Seicoleg Addysg neu CAMHS? (Cliciwch bob un sy'n berthnasol)

- Ydw, trwy dderbyn cyngor  
 Ydw, trwy ymgynghoriad am blentyn  
 Ydw, trwy drafod priodoldeb atgyfeirio i wasanaeth arbenigol fel CAMHS  
 Nac ydw  
 Arall (nodwch)

16. A ydych chi wedi cael unrhyw hyfforddiant gan raglen CAMHS Mewngymorth i Ysgolion?

- Ydw  
 Nac ydw

Os ydych, disgrifiwch pa hyfforddiant isod, os gwelwch yn dda.

### Profiadau o hyfforddiant a ddarparwyd gan y peilot

17. Darllenwch y datganiad canlynol a chliciwch y blwch sy'n disgrifio orau sut ydych yn teimlo: Mae'r hyfforddiant (darparwyd gan y peilot) wedi cynyddu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl disgyblion a sut i ddelio â nhw

- Cytuno'n gryf  
 Cytuno  
 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  
 Anghytuno  
 Anghytuno'n gryf  
 Ddim yn siŵr / ddim yn gwybod

18. Diolch am ateb y cwestiynau. Unrhyw sylwadau arall?